# Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016
# Sir y Fflint

Cyngor Sir y Fflint

Adroddiad Terfynol

Ebrill 2016

**Prif Gyswllt:** Dr Michael Bullock
**E-bost:** Michael.bullock@arc4.co.uk
**Rhif Ffôn:** 0800 612 9133
**Gwefan:** www.arc4.co.uk

*© 2016 arc[4] Limited (Rhif y Cwmni 6205180)*

## Tabl Cynnwys


**1. Cyd-destun y Polisi ....6**

Cyflwyniad ....6
Deddfwriaeth a Chanllawiau ....7
Polisïau Cynllun Datblygu Lleol ....8
Diffiniadau o amodau allweddol ....10

**2. Cefndir a dadansoddiad o ddata cyfredol ....14**

Canfyddiadau blaenorol o Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr ....14
Data Poblogaeth ....15
Cyfrif Carafannau ....17
Darpariaeth llety cyfredol ....20

**3. Methodoleg ....24**

Cyfansoddiad Grŵp Llywio Prosiect ....24
Methodoleg Astudio ....24

**4. Canfyddiadau Arolwg ....30**

Cyfweliadau Aelwydydd ....30
Proffil Demograffeg o boblogaeth ....31
Addasrwydd llety presennol ....34
Dyheadau Llety ....38
Twf Aelwydydd ....39
Angen am safle tramwy ....42
Arolwg Rhanddeiliaid ....44

**5. Asesu anghenion llety ....49**

Cyflwyniad ....49
Angen Preswyl nas diwallwyd ....49
Galw cyfredol am breswyl ....52
Angen tramwy nas diwallwyd ....58

**6. Casgliadau ac Argymhellion ....59**

Amcanion GTAA ....59
Poblogaeth a llety cyfredol Sipsiwn a Theithwyr ....59
Arolwg Aelwydydd ....60
Ymgynghoriad Rhanddeiliaid ....61
Asesu anghenion llety ....61
Argymhellion a'r Camau Nesaf ....62

**Atodiad A: Ymgynghoriad ar-lein i randdeiliaid allweddol ....63**

Cwestiynau cyffredinol ....64
Darparu llety ....65
Polisi Cynllunio ....70

**Atodiad B: Holiadur Cyfweliad Gwaith Maes ....................................................73**

**Atodiad C: Rhestr o weithgaredd gwersyll diawdurdod ...............................87**

## Rhestr o Dablau

Tabl 1.1 Diffiniadau o leiniau, safleoedd a lleoliadau arall Sipsiwn a Theithwyr 12

Tabl 1.2 Diffiniadau o aelwydydd, y galw, cyflenwad a'r angen ...............13

Tabl 2.1 Ffigurau cyfrif carafannau hanner blwyddyn Ionawr 2013 i Ionawr 2015 14

Tabl 2.2 Poblogaeth ac aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn Sir y Fflint: trosolwg 15

Tabl 2.3 Aelwydydd WGoIT yn ôl math o lety.........................................16

Tabl 2.4 Aelwydydd WGoIT yn ôl deiliadaeth.........................................16

Tabl 2.5 Aelwydydd WGoIT yn ôl oedran ...............................................17

Tabl 2.6 Nifer o garafannau Sipsiwn a Theithwyr, Gorffennaf 2013 - Gorffennaf 2015 ...........................................................................18

Tabl 2.7 Nifer o leiniau ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi'u darparu gan awdurdodau lleol, Gorffennaf 2013 i Gorffennaf 2015.................................20

Tabl 2.8 Lleiniau cyfredol Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd yn Sir y Fflint 22

Tabl 2.9 Crynodeb o Lleiniau cyfredol Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd yn Sir y Fflint 23

Tabl 3.1 Rhestr Wirio Ymgysylltu ..........................................................28

Tabl 4.1 Cyfweliadau Aelwyd ...............................................................30

Tabl 4.2 Ethnigrwydd wedi'i hunan briodoli gan yr ymatebydd.................31

Tabl 4.3 Maint aelwydydd ....................................................................32

Tabl 4.4 Oedran ymatebwyr..................................................................33

Tabl 4.5 Rhyw yr ymatebwyr.................................................................33

Tabl 4.6 Bodlonrwydd gyda llety cyfredol...............................................34

Tabl 4.7 Rhesymau dros fyw yn y llety cyfredol .....................................35

Tabl 4.8 Hyd preswylio yn y llety cyfredol ............................................36

Tabl 4.9 Lleoliad cartref blaenorol (Sir y Fflint neu ardal awdurdod lleol arall) 36

Tabl 4.10 Hyd preswylio arfaethedig yn y dyfodol yn y llety cyfredol..........37

Tabl 4.11 Lle ar gyfer rhagor o ôl-gerbydau ............................................38

Tabl 4.12 Bwriadu symud i lety arall.......................................................38

Tabl 4.13 Trefn newydd yr aelwyd o fewn y pum mlynedd nesaf ...............40

Tabl 4.14 Math o lety sy’n ofynnol gan aelwydydd gyda threfn newydd.....41
Tabl 4.15 Amseriad trefn newydd i aelwyd.................................................41
Tabl 4.16 Aelodau o’r teulu o du allan i Sir y Fflint sydd yn gwersylla yma 42
Tabl 4.17 Defnydd ochr y ffordd, diawdurdod a safle tramwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.............................................................................................42
Tabl 4.18 Hyd y gwersylla ...........................................................................43
Tabl 4.19 Yr angen am ragor o safleoedd tramwy yng Nghymru ...............44
Tabl 5.1 Amcangyfrif o’r angen am leiniau safle preswyl ..........................50

***Sylwch yn yr adroddiad hwn bod y tablau yn cynnwys ffigurau wedi'u talgrynnu. Gall hyn arwain at rai gyfansymiau yn y golofn neu res yn adio i 100 neu i 'gyfanswm' rhes neu golofn a ragwelir oherwydd y ffigurau degol wedi'u talgrynnu. Rydym yn cynnwys y disgrifiad yma gan ei fod yn cyflenwi tablau a sylwebaeth testunol cysylltiol. Mae tablau neu ffigurau yn cael eu defnyddio yn fewnol yna rydym yn argymell yr ychwanegiad o ddatganiad ysgrifenedig tebyg fel nodyn i bob tabl a ddefnyddiwyd.***

*Mae'r adroddiad yn ystyried y cyfarwyddiadau penodol a gofynion ein cleient. Nid yw'n fwriad a ni ddylid dibynnu gan unrhyw drydydd parti a nid yw unrhyw drydydd parti yn cymryd cyfrifoldeb.*

*Nid yw arc4 Limited yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb neu atebolrwydd am, ac yn gwneud unrhyw gynrychioliadau na gwarantiad mewn perthynas â, chywirdeb neu chyflawnrwydd unrhyw wybodaeth trydydd parti (gan gynnwys data) sydd yn cael ei gynnwys yn y ddogfen hon.*

# 1. Cyd-destun y Polisi

## Cyflwyniad

1.1 Ym mis Medi 2015, cafodd arc4 ei gomisiynu gan Gyngor Sir y Fflint i gyflawni Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) i adnabod anghenion o ran tai Sipsiwn a Theithwyr ar draws Sir y Fflint.

1.2 Nod yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yw i ddarparu data a fydd yn adnabod anghenion lleiniau Sipsiwn a Theithwyr, ar wahân i angen, galw a dyhead tai, fel y dadansoddwyd drwy'r Asesiad o Farchnad Dai Lleol. Ar ôl ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, bydd adroddiad GTAA cymeradwy Sir y Fflint yn cael ei gyhoeddi gan yr Awdurdod Lleol i hysbysu'r strategaeth dai lleol a pholisïau darpariaeth safle Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun Datblygu.

1.3 Amcanion cyffredinol y GTAA yw i:

- Asesu'r gofynion llety (llain) cyffredinol yn y Sir, a gyflawnwyd mewn modd sydd yn cydymffurfio gyda chanllawiau cenedlaethol;
- Sefydlu unrhyw angen cyfredol neu i'r dyfodol o Safleoedd a gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr yn y Sir, gan gynnwys yr angen am ddarpariaeth teithio, dros y bum mlynedd nesaf a thros Gyfnod y Cynllun;
- Sefydlu maint, tueddiadau a nodweddion poblogaeth Sipsiwn a Theithwyr, cartrefi a'u llety, gan gynnwys asesiad o ysgogiad angen a galw;
- Adnabod meini prawf allweddol ar gyfer darpariaeth newydd, gan gynnwys lleoliadau eang, a maint safle gorau posib a nifer o wersylloedd.

1.4 Roedd yr asesiad yn cynnwys nifer o gamau, sydd wedi'u nodi isod:

1) Sefydlu grŵp llywio GTAA i oruchwylio'r prosiect;
2) Dadansoddi dogfennau cefndirol a data (eilaidd) cyfredol:
3) Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac arolwg holiadur ar-lein;
4) Cyflawni cyfrifiad o safleoedd ac arolwg cyfweliad cartrefi (casglu data cynradd);
5) Dadansoddi data, cyfrifiad asesiad o anghenion a chynhyrchu adroddiad; a
6) Lledaenu canlyniadau ac adborth.

1.5 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro yn ôl y templed a nodir yn Atodiad 4 dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru, *Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr* (Mai 2015);

- **Pennod 1** **Cyd-destun Polisi:** yn darparu cyflwyniad i'r adroddiad ac yn nodi'r ddeddfwriaeth, canllaw a pholisïau sydd yn llywodraethu cyflawni GTAA yng Nghymru;
- **Pennod 2** **Cefndir a dadansoddi data cyfredol:** cyflwyno'r canfyddiadau o adroddiadau GTAA blaenorol, ynghyd â data eilaidd sydd yn berthnasol i'r boblogaeth, Cyfrifiad Carafan a darpariaeth llety cyfredol i Sipsiwn a Theithwyr**.**

- **Pennod 3** **Methodoleg:** darparu manylion methodoleg ymchwil GTAA;
- **Pennod 4** **Canfyddiadau Arolwg:** yn edrych ar ganfyddiadau ymchwil cynradd a gyflawnwyd fel rhan o'r GTAA;
- **Pennod 5** **Asesu anghenion llety:** adolygu cyflenwad, galw a thwf cyfredol ac yn y dyfodol, gan adnabod angen preswyl a symudol nas diwallwyd; a
- **Pennod 6** **Casgliadau ac argymhellion:** cwblhau'r adroddiad, adnabod prif faterion ac argymell y camau nesaf**.**

1.6 Mae'r atodiadau canlynol yn cael eu cynnwys i'r adroddiad:

- **Atodiad A** Ymgynghoriad ar-lein i randdeiliaid allweddol;
- **Atodiad B** Holiadur Gwaith Maes; a
- **Atodiad C** Log cyfweliad gwaith maes.

## Deddfwriaeth a Chanllawiau

1.7 Ym mis Medi 2011, lansiodd Llywodraeth Cymru strategaeth gyntaf Sipsiwn a Theithwyr y DU, o'r enw *Teithio at Ddyfodol Gwell*: *Cynllun Cyflenwi a Fframwaith Gweithredu Sipsiwn a Theithwyr.* Gosod cyfeiriad y polisi ar gyfer Llywodraeth Cymru a'i bartneriaid, mae'r fframwaith yn ceisio sicrhau bod anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hasesu, yn cael eu cynllunio a'i gweithredu mewn ffordd fwy statudol. Mae'n adnabod gwahaniaethau diwylliannol sydd yn aml yn arwain at eithrio cymdeithasol grwpiau Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n ceisio sicrhau bod cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei wrando ac yn cael ei ddarparu o fewn darpariaeth gwasanaeth. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar nifer o feysydd polisi allweddol sydd yn effeithio'r ffordd mae Sipsiwn a Theithwyr yn cael mynediad at wasanaethau gan gynnwys llety, iechyd, addysg, cyfranogiad a chynllunio a rhwystrau eraill sydd yn wynebu Sipsiwn a Theithwyr.

1.8 Gwnaeth y Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Rhan 3) yr asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i wneud darpariaeth ar gyfer safleoedd lle nodir angen a gofynion statudol.

- Mae Adran 101 yn gofyn i awdurdodau lleol gyflawni asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sydd yn byw neu yn dod i'r ardal o leiaf bob pum mlynedd;
- Mae Adran 102 yn gofyn bod awdurdodau lleol yn cyflwyno eu hadroddiadau GTAA i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo:
- Mae Adran 103 yn nodi'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i fodloni anghenion asesedig; a
- Mae Adran 104 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol i ddefnyddio eu swyddogaeth i ddarparu safleoedd angenrheidiol (os ydynt yn fodlon nad yw awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau).

1.9 Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (Adran 56) yn darparu'r pŵer i awdurdodau lleol ddarparu safleoedd lle gellir dod â chartrefi symudol, naill ai dros dro neu ar gyfer preswyl parhaol.

1.10 Mae *Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (Mai 2015)* Llywodraeth Cymru yn ganllaw statudol a gyhoeddwyd dan Adran 106 Deddf Tai 2014. Cyflwynwyd i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr a rhyddhau eu dyletswyddau dan Rhan 3 o Ddeddf 2014. Gan ddarparu canllaw clir a chynhwysfawr o bob agwedd o gyflawni asesiad o anghenion llety sipsiwn a theithwyr, mae'r Canllaw hwn wedi'i lunio ym mhob cam o'r prosiect GTAA Cyngor Sir Y Fflint.

1.11 Ochr yn ochr â Chanllaw Llywodraeth ar asesiadau (Mai 2015), cyhoeddwyd dwy ddogfen arall:

- Mae canllaw *Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (Mai 2015)* yn rhoi cyngor i helpu awdurdodau lleol ddylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr; a
- Mae canllaw *Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (*Gorffennaf 2015*)* yn rhoi cyngor i awdurdodau lleol i'w helpu i reoli safleoedd yn well.

1.12 Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 30/2007 (*Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafannau Sipsiwn a Theithwyr*) yn rhoi canllaw ar agweddau cynllunio ar ganfod safleoedd cynaliadwy i Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n nodi bod yr asesiadau o'r farchnad dai leol yn darparu ffynhonnell allweddol o wybodaeth i awdurdodau lleol i asesu lefel o ddarpariaeth Sipsiwn a Theithwyr sydd yn ofynnol wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Lle mae asesiad o angen nas diwallwyd i lety Sipsiwn a Theithwyr, dylai awdurdodau lleol ddyrannu safleoedd yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) i sicrhau bod y gofyniad safle a nodwyd ar gyfer safleoedd preswyl a theithiol yn cael eu bodloni.

1.13 Mae Cylchlythyr Swyddfa Cymru 78/91 (*Perfformwyr Teithiol*) yn rhoi cyngor i awdurdodau lleol ynghylch ystyriaethau cynllunio sy'n berthnasol i Berfformwyr Teithiol.

1.14 Mewn perthynas â gwersylloedd diawdurdod, mae canllawiau perthnasol yn cynnwys: Cylchlythyr Swyddfa Cymru 76/94 (*Polisi ar Safleoedd Sipsiwn a Gwersylla heb Awdurdod*) a *Chanllaw ar Reoli Gwersylla Diawdurdod* Llywodraeth Cymru (2013). Mae'r llythyr yn cymryd lle Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 04/2005 blaenorol (*Canllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod*).

1.15 Mae dogfen *Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr* (Tachwedd 2008) Llywodraeth Cymru yn ganllaw i Sipsiwn a Theithwyr ar gynllunio eu safleoedd carafán. Mae'n nodi prosesau GTAA a chynllun datblygu sydd yn berthnasol i Sipsiwn a Theithwyr fel y gallant ymgysylltu mewn ymgynghoriadau perthnasol. Mae hefyd yn darparu canllaw ar gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd carafán.

## Polisïau Cynllun Datblygu Lleol

1.16 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint ym mis Medi 2011. Mae'n ffurfio'r cynllun datblygu ar gyfer y Sir ar gyfer cyfnod o 15 mlynedd, 2000-2015. Mae'n darparu fframwaith i arwain datblygiad ac i bennu ceisiadau cynllunio.

1.17 Polisi Cynllun Datblygu Unedol HSG14, *Safleoedd Sipsiwn* yn nodi meini prawf y mae unrhyw gynigion ar gyfer safle Sipsiwn a Theithwyr newydd yn Sir y Fflint yn cael eu hasesu. Mae'n berthnasol i safleoedd Sipsiwn ac/ neu Theithwyr sydd

gyda'r bwriad ar gyfer llety preswyl parhaol tymor hir. Mae Polisi HSG14 yn nodi bod:

*"Bydd datblygu safleoedd parhaol newydd ond yn cael eu caniatáu lle:*

- *mae angen y gellir ei ddangos;*
- *nad oes safleoedd amgen addas naill ai gyda chaniatâd cynllunio neu wedi'i ddyrannu ar gyfer defnydd o'r fath;*
- *mae sgriniad naturiol, neu y gellir sgrinio'r safle yn ddigonol;*
- *gellir darparu gwasanaethau am gost resymol;*
- *nid oes effaith annerbyniol ar amwynder a chymeriad ardaloedd cyfagos oherwydd sŵn, llygredd, problemau traffig neu barcio; a*
- *dylai safleoedd fod o fewn pellter rhesymol i brif gyfleusterau siopa a chymdeithasol."*

1.18 Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn cydnabod y gofyniad ar gyfer cynlluniau datblygu i wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer anghenion llety i deuluoedd sipsiwn. Mae'n amlygu bodolaeth safle breswyl i Sipsiwn ar dir cyfagos i ffordd osgoi Queensferry, ac yn nodi nad yw'n cynnig tir dyranedig ar gyfer safle pellach ar yr adeg hwn. Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn nodi'r angen am safle carafán sipsiwn mewn safle penodol gael ei brofi fel galw ar newidiadau defnydd dros amser. Gwneir cyfeiriad at asesiad o anghenion i Sipsiwn a Theithwyr, sy'n cael ei gyflawni ar draws Gogledd Cymru ar ran Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, gan y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio fel rhan o sail dystiolaeth yn erbyn yr hyn i asesu cynigion ar gyfer datblygu safleoedd newydd.

1.19 Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn nodi y dylai safleoedd fod wedi'u lleoli ar neu yn agos i brif lwybrau teithio Sipsiwn i gael rhwyddineb mynediad, a dylai bod gwasanaeth system draenio newydd a gwasanaethau angenrheidiol eraill heb yr angen am waith seilwaith newydd dwys. Dylai lleoliadau a ffafrir ar gyfer safleoedd o'r fath fod yn ymyl prif drefi lle mae cnewyllyn o gyfleusterau sydd yn gallu darparu gwasanaeth i safleoedd Sipsiwn.

1.20 Mae Cyngor Sir y Fflint yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer yr ardal. Cymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni gan Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014, ac mae ymgynghoriadau sy'n berthnasol i'r safleoedd, rhanddeiliaid allweddol ac amrywiaeth o bapurau pwnc wedi'u cyflawni. Papur Pwnc Rhif 9, Iechyd, *Lles a Chydlyniad* (Chwefror 2015) yn cynnwys cyfeiriad i ddarparu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr fel amcan allweddol yn y CDLl. Mae dyraniad tir ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei adnabod fel polisi defnydd tir posibl.

1.21 Mae Strategaeth Dai Leol Sir y Fflint 2012-2017, *Cartref o Ansawdd i Bawb* yn gosod gweledigaeth y Cyngor ar gyfer cyfeiriad a chydlynu gweithgareddau sydd yn ymwneud â thai yn Sir y Fflint. Mae'r uchelgeisiau ar gyfer tai wedi'u nodi o fewn tair thema neu amcan:

- Mwy o dai, mwy o ddewis;
- Gwella tai a chymunedau; a
- Gwasanaethau gwell i wella bywydau pobl.

1.22 Mae Strategaeth Dai Leol Sir y Fflint yn amlygu'r canlynol mewn perthynas â darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr:

*"Roedd Cyfrif Carafannau Ionawr 2012 yn dangos mai Sir y Fflint yw'r darparwr mwyaf sylweddol yng Ngogledd Cymru gyda 58% o leiniau awdurdodedig. Mae hyn yn 15% o gyfanswm i Gymru. Gofynnodd yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd-Orllewin Cymru ym mhle y dylid lleoli lleiniau newydd. Canfuwyd bod galw am safleoedd ar hyd y brif lwybr teithio drwy Gogledd Cymru. Nid oedd ceisiadau am leoliadau newydd wedi eu gwneud yn Sir y Fflint. Bydd Sir y Fflint yn parhau i ddatblygu gwasanaethau Sipsiwn a Theithwyr:*

- *Rheoli Safle Carafán Glan yr Afon;*
- *Rheoli Gwersylloedd Diawdurdod;*
- *Cydlynu Cefnogaeth a Gwasanaethau Lles i gymuned Sipsiwn a Theithwyr.*

1.23 Mae Wrecsam a Sir y Fflint wedi cyflawni Asesiad Marchnad Dai Lleol ar y cyd (LHMA) (Awst 2015) i ystyried faint a'r math o dai sydd ei angen yn ystod cyfnod y cynllun. Cyflawnwyd gan arc[4], roedd yr astudiaeth hon wedi seilio ar arolwg aelwyd ar draws dau awdurdod lleol gydag ystod o ddata eilaidd.

1.24 Bydd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr hwn yn cynnwys atodi'r LHMA, gan sicrhau bod gwybodaeth benodol yn berthnasol i anghenion o ran tai i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr o fewn Sir y Fflint. Bydd yn ffurfio rhan allweddol arall o sail dystiolaeth y Cyngor yn y CDLl sy'n ymddangos.

## Diffiniadau o amodau allweddol

1.25 Mae'r adroddiad hwn yn mabwysiadu'r diffiniad o "Sipsiwn a Theithwyr" a nodir o fewn Adran 108 Deddf Tai (Cymru) 2014:

*a) "Personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:*

*1) Personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, a*

*2) Aelodau o grŵp trefnedig o siwemyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcasau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio), a*

*b) Unrhyw berson arall sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol."*

1.26 Hefyd, mae'r adroddiad yn defnyddio'r diffiniad 'Cartrefi Symudol' a nodir yn Adran 60 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013:

*"(1) Yn y Ddeddf hon ystyr "cartref symudol" yw unrhyw strwythur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo ac sy'n gallu cael ei symud o'r naill le i'r llall (boed drwy ei dynnu neu drwy ei gludo ar gefn cerbyd modur neu ôl-gerbyd) ac unrhyw gerbyd modur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo, ond nid yw'n cynnwys:*

*a. unrhyw gerbydau rheilffyrdd sydd am y tro ar gledrau sy'n ffurfio rhan o system reilffyrdd, neu*

*b. unrhyw babell.*

*(2) Nid yw strwythur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo ac sydd:*

*a. wedi ei gyfansoddi o heb fod yn fwy na 2 adran sydd wedi eu hadeiladu ar wahân ac sydd wedi eu dylunio i gael eu cydosod ar safle drwy gyfrwng bolltau, clampiau neu ddyfeisiau eraill, a*

*b. sydd, o'i gydosod, yn ffisegol yn gallu cael ei symud ar y ffordd o'r naill le i'r llall (boed drwy ei dynnu neu drwy ei gludo ar gefn cerbyd modur neu ôl-gerbyd),*

*i'w drin fel pe na bai'n gartref symudol (neu fel pe na bai wedi bod yn gartref symudol) at ddibenion y Ddeddf hon dim ond am y rheswm nad oes modd cyfreithlon ei symud ar briffordd ar ôl ei gydosod.*

*(3) At ddibenion y Ddeddf hon nid yw "cartref symudol" yn cynnwys strwythur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo sy'n syrthio o fewn isadran (2)(a) a (b) os yw ei ddimensiynau ar ôl ei gydosod yn fwy nag unrhyw un neu ragor o'r terfynau a ganlyn, sef:*

*a. hyd (heb gynnwys unrhyw far tynnu): 20 metr,*

*b. lled: 6.8 metr, a*

*c. taldra cyffredinol y lle byw (o'i fesur ar y tu mewn o'r llawr ar ei lefel isaf hyd at y nenfwd yn ei lefel uchaf): 3.05 metr "*

1.27 Mae nifer o dermau yn cael eu defnyddio i ddiffinio'r lleiniau, safleoedd a lleoliadau arall a ddefnyddir gan Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r rhain yn Nhabl 1.1, fel y diffinir yng Nghanllaw Llywodraeth Cymru, *Cyflawni Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithiwr* (Mai 2015).

| **Tabl 1.1** | **Diffiniadau o leiniau, safleoedd a lleoliadau arall Sipsiwn a Theithwyr** |
|---|---|
| **Safle Preswyl** | Gall safle preswyl parhaol fod â pherchnogaeth breifat neu fod yr Awdurdod Lleol yn ei berchen. Bydd y safle yn cael ei ddynodi i'w ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr am gyfnod amhenodol. Gall preswylwyr ar y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau am chyn hired â phosib os ydynt yn cydymffurfio â thelerau cytundeb eu llain, dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.<br><br>Hefyd gellir ddarparu gwagle gweithio ar, neu wrth ymyl safleoedd ar gyfer gweithgareddau a gyflawnir gan aelodau o'r gymuned. |
| **Safle preswyl Dros Dro** | Mae'r safleoedd hyn yn safleoedd preswyl sydd gyda chaniatâd cynllunio neu drwydded safle ar gyfer cyfnod cyfyngedig yn unig. Gall preswylwyr ar y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau am gyfnod y caniatâd cynllunio neu drwydded safle (neu cyn hired ag y maent yn cydymffurfio â thelerau cytundeb eu llain, dan Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – pa un bynnag sydd gyntaf). |
| **Safle Tramwy** | Mae safleoedd tramwy yn gyfleusterau parhaol wedi'u dylunio ar gyfer defnydd dros dro gan feddianwyr. Mae'n rhaid i'r safleoedd hyn fod wedi'u dynodi a darparu llwybr i Sipsiwn a Theithwyr gynnal ffordd nomadaidd o fyw. Caniateir i feddianwyr unigol breswylio ar y safle am ddim mwy na 3 mis ar yr un pryd.<br><br>Mae telerau penodol dan y Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn berthnasol ar y safleoedd hyn. Hefyd gellir darparu gwagle gweithio ar, neu wrth ymyl safleoedd ar gyfer gweithgareddau a gyflawnir gan aelodau o'r gymuned. |
| **Man Stopio Dros Dro** | Adnabyddir hefyd fel 'man stopio', 'Atchin Tan' neu 'lôn werdd', ymysg enwau eraill. Bwriad y rhain yw bod am gyfnod tymor byr i gynorthwyo Awdurdodau Lleol lle mae angen am leiniau, fodd bynnag nid oes dim ar gael ar hyn o bryd. Gall mannau stopio dros dro sydd wedi'u hadnabod eu defnyddio i ail-leoli gwersylloedd sydd wedi'u lleoli'n amhriodol, tra bo safleoedd eraill yn cael eu canfod.<br><br>Mae'n rhaid i fannau stopio dros dro fod â'r ddarpariaeth i waredu gwastraff, cyflenwad dŵr a glanweithdra. |
| **Llain Preswyl** | Tir ar safle cartref symudol lle mae gan feddianwyr hawl i leoli eu cartrefi symudol am gyfnod amhenodol (oni bai y nodir yn wahanol yn eu cytundeb llain). Fel arfer yn cynnwys bloc amwynder, gwagle ar gyfer carafán statig a charafán deithiol a man parcio. |
| **Llain Teithiol** | Tir ar safle cartref symudol lle mae gan feddianwyr hawl i leoli eu cartrefi symudol am hyd at 3 mis.<br><br>Mae lleiniau teithiol yn bodoli ar safleoedd preswyl parhaol, fodd bynnag, ni argymhellir hyn. |
| **Gwersylloedd diawdurdod** | Tir a feddiannir heb ganiatâd y perchennog neu heb ganiatâd cynllunio defnydd tir cywir. Gall gwersylloedd eu goddef gan Awdurdod Lleol, tra bo safleoedd amgen yn cael eu datblygu. |
| **Datblygiad diawdurdod** | Tir a feddiannir gan y perchennog heb y caniatâd cynllunio defnydd tir angenrheidiol. |

Ffynhonnell: Canllaw Llywodraeth Cymru, *Cyflawni Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithiwr Mai 2015.*

1.28 Mae'r termau a ddefnyddir yn yr asesiad o angen o ran tai yn berthnasol i aelwydydd, y galw, cyflenwad a'r angen wedi'u nodi yn Nhabl 1.2. Hefyd, ar gyfer parhad ac eglurder, mae'r rhain yr un fath â'r rhai a fabwysiadwyd yng Nghanllaw Llywodraeth Cymru.

| **Tabl 1.2** | **Diffiniadau o aelwydydd, y galw, cyflenwad a'r angen** |
|---|---|
| **Aelwyd** | Yn y canllaw hwn mae hyn yn cyfeirio at unigolion o'r un teulu sydd yn byw gyda'i gilydd ar un llain/ tŷ/ gwersyll. |
| **Aelwyd Cudd neu 'wedi'u ddyblu'** | Mae hyn yn cyfeirio at aelwydydd sydd methu cyflawni eu llety awdurdodedig eu hunain ac yn byw o fewn llety awdurdodedig (tai neu leiniau) wedi'u haseinio i aelwyd arall.<br><br>Gall hyn gynnwys plant sy'n oedolion sydd wedi methu symud cartref neu aelwydydd gwahanol yn meddiannu llain unigol. |
| **Twf aelwydydd** | Yn y canllaw hwn, diffinnir twf aelwyd yn ôl nifer o aelwydydd newydd sydd yn codi o aelwydydd sydd wedi'u lletya eisoes yn yr ardal. |
| **Cyflenwad preswyl cyfredol** | Y nifer o leiniau awdurdoedig sydd ar gael ac yn cael eu meddiannu o fewn ardal Awdurdod Lleol neu bartneriaeth. Mae hyn yn cynnwys lleiniau ar safleoedd Awdurdod Lleol neu safleoedd preifat. |
| **Galw preswyl cyfredol** | Y rhai hynny gyda'r angen am leiniau awdurdodedig ar gyfer amrywiaeth o resymau, gan gynnwys:<br>• analluu i ddiogelu llain awdurdodedig sydd yn arwain at feddiannu gwersylloedd diawdurdod;<br>• analluu i ddiogelu caniatâd cynllunio cywir ar gyfer datblygiad diawdurdod;<br>• aelwydydd sydd yn byw mewn amodau gorlawn ac eisiau llain;<br>• aelwydydd mewn tai confensiynol yn dangos atgasedd diwylliannol;<br>• disgwyl bod aelwydydd newydd yn cyrraedd o rywle arall.<br>• |
| **Galw preswyl yn y dyfodol** | Lefel ddisgwyliedig o natur yr aelwyd newydd a fydd yn cynhyrchu mwy o alw o fewn cyfnod o 5 mlynedd o asesiad llety a chyfnod CDLl hirach. |
| **Angen llain preswyl cyffredinol** | Mae'r cyfrifiad terfynol o angen llety nas ddiwallwyd, sydd yn gorfod cael ei nodi drwy'r broses asesiad o lety Sipsiwn a Theithwyr. Gellir canfod y ffigur hwn drwy ychwanegu'r angen preswyl uniongyrchol i'r galw preswyl yn y dyfodol. Bydd yr angen preswyl cyffredinol yn casglu'r anghenion ar draws gyfnod o 5 mlynedd y mae'r asesiad o lety yn ei ystyried i fod yn gadarn. |
| **Cyflenwad llain preswyl wedi'i gynllunio** | Nifer o leiniau awdurdodedig sydd yn wag ac ar gael i'w rhentu ar safleoedd Awdurdod Lleol neu safleoedd preifat. Mae hefyd yn cynnwys lleiniau a fydd yn gorfod cael eu gwagio yn y dyfodol agos gan aelwydydd yn symud i dai confensiynol neu mewn amgylchiadau arall. Mae lleiniau ychwanegol sydd yn fod i agor neu safleoedd preifat yn debygol o gyflawni caniatâd cynllunio yn fuan i'w cynnwys fel cyflenwad preswyl a gynlluniwyd. |

Ffynhonnell: Canllaw Llywodraeth Cymru, *Cyflawni Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithiwr, Mai 2015.*

# 2. Cefndir a dadansoddiad o ddata cyfredol

## Canfyddiadau blaenorol o Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr

2.1 Cyflawnwyd Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTANA) gan Brifysgol Bangor ar ran consortiwm o bum awdurdod yng Ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Cafodd yr astudiaeth ei reoli gan grŵp llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol, Prifysgol Bangor ac aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

2.2 Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013, canfuwyd yn y GTANA bod y mwyafrif o Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru wedi'u canoli ar hyd llwybrau cludiant allweddol. Yn y maes astudiaeth, cafodd y canlynol eu nodi: 78 llain awdurdodedig; pedwar carafán ar ddatblygiadau diawdurdod a 10 cerbyd ar wersyll (diawdurdod) a oddefir. Nid oedd y GTANA yn gallu darparu amcangyfrif dibynadwy ar y nifer o Sipsiwn a Theithwyr sydd yn byw mewn brics a morter yn yr ardal astudiaeth, ond mae'r arolwg a gyflawnwyd wedi nodi nifer sylweddol, wedi'i ddyrannu rhwng yr awdurdodau lleol. Mae'n nodi bod yr aelwydydd hyn yn meddiannu llety brics a morter rhent preifat, rhent cymdeithasol a pherchen-feddiannydd.

2.3 O ran nodweddion, canfuwyd yn y GTANA 2013 bod:

- 24% wedi'u nodi fel Sipsiwn Romani, 58% yn Deithwyr (34% ohonynt yn Deithwyr Gwyddelig), 17% yn Deithwyr Newydd a 1% yn Berfformwyr Deithwyr.
- Roedd cymedr maint aelwyd yn 4.37 person a'r canolrif maint oedd pedwar person gyda rhagoriaeth o deuluoedd ifanc. Nid oedd yr arolwg wedi cysylltu ag unrhyw oedolion 65 oed a hŷn; a
- Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn disgrifio eu hunain yn lleol i'r ardal.

2.4 Nododd yr astudiaeth bod diffyg cyffredinol o 62 llain ar draws ardal Astudiaeth Gogledd Cymru erbyn 2016, fel y nodir yn Nhabl 2.1 yn ôl ardal awdurdod. Nodwyd diffyg o 36 llain preswyl o fewn Sir y Fflint dros gyfnod o 2011-16.

**Tabl 2.1 Ffigurau cyfrif carafannau hanner blwyddyn Ionawr 2013 i Ionawr 2015**

| Awdurdod | Y Ddarpariaeth Bresennol | Cyfanswm Gofyniad Llain Preswyl Ychwanegol (2011-16) | Cyfanswm Darpariaeth Llain Tramwy Ychwanegol (2011-16) |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 0 | 11 | |
| Conwy | 0 | 3 | |
| Sir Ddinbych | 0 | 2 | |
| Sir y Fflint | 66 | 36 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | 12 | 10 | |
| **Ardal Astudiaeth** | **78** | **62** | **28 (yn rhannu)** |

Ffynhonnell: Prifysgol Bangor, Mawrth 2013

2.5 Nododd yr astudiaeth nad oedd safle tramwy wedi'i leoli o fewn yr ardal astudiaeth; roedd rhan o safle Sipsiwn a Teithwyr yn Llandegai (yng Ngwynedd) wedi ei ddefnyddio'n flaenorol fel safle tramwy, ond daeth hyn i ben yn 2005. Roedd cyfrifiad o ofyniad safle tramwy wedi seilio ar ddata gwersyll ar draws y safle astudiaeth. Nodwyd bod, yn gyfatebol, oddeutu 37% o wersylloedd yn yr ardal astudiaeth yn cael eu cofnodi yn ardal awdurdod lleol Sir y Fflint. Awgrymodd y GTANA bod yr awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried tri neu bedwar safle tramwy, pob un gyda lle i hyd at saith carafán. Argymhellwyd bod yr awdurdodau yn gweithio ar y cyd i adnabod safleoedd priodol ar gyfer llety dros dro, a all fod yn safleoedd tramwy (sydd gyda chyfleusterau llawn ar gyfer arosiadau am hyd at dri mis) neu fannau stopio dros dro (gyda darpariaeth fwy cyfyngedig lle gellir ond aros am 28 diwrnod ar y mwyaf).

2.6 Mae'r adroddiad GTAA hwn yn darparu cofnod diweddar o ddarpariaeth safle Sipsiwn a Theithwyr yn Sir y Fflint. Wedi ei gymharu yn erbyn asesiad cynhwysfawr o angen Sipsiwn a Theithiwr, mae Pennod 5 yn darparu cyfrifiad diweddar o ddiffyg lleiniau yn ardal yr astudiaeth.

## Data Poblogaeth

2.7 Mae'r adran hon yn edrych ar y darlun cyfredol o ran poblogaeth a demograffeg Sipsiwn a Theithwyr ar draws yr ardal astudiaeth cyn mynd ymlaen i ymchwilio maint a natur darpariaeth ar draws yr ardal.

2.8 Er y cydnabyddir bod rhai teuluoedd ddim yn nodi eu hunain fel Sipsiwn neu Deithwyr yn y Cyfrifiadau, yng Nghyfrifiad[1]2011 roedd cyfanswm o 95 o bobl wedi eu nodi i fod yn Ethnigrwydd  Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig Gwyn' yn byw mewn 38 aelwyd yn Sir y Fflint (Tabl 2.2). Mae hyn yn dod i ganlyniad o 0.623 i bob 1,000 o bobl a 0.596 i bob 1,000 aelwyd.

**Tabl 2.2 Poblogaeth ac aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn Sir y Fflint: trosolwg**

| Sir y Fflint | Cyfanswm y boblogaeth | Gwyn Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | Cyfran Gwyn Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig cyfradd fesul 1,000 m2 |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth | 152,506 | 95 | **0.623** |
| Aelwyd | 63,781 | 38 | **0.596** |

[1] Cyfrifiad 2011. Comisiynwyd y tablau gan ONS i gyflenwi ethnigrwydd a chynhyrchwyd nifer o setiau data, ar gael ar wefan ONS ar 21 Ionawr 2014. Gweler Tablau CT0127 a CT0128. Prif erthygl: http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/2011-census-analysis/what-does-the-2011-census-tell-us-about-the-characteristics-of-gypsy-or-irish-travellers-in-england-and-wales-/index.html

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfartaledd o faint yr aelwyd (unigolion i bob aelwyd)** | **2.39** | **2.5** | **-** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

2.9 O ran maint aelwyd, mae Tabl 2.2 yn cymharu WGoIT gyda'r boblogaeth ar y cyfan. Mae hyn yn nodi bod maint aelwyd ar gyfartaledd ymysg WGoIT yn 2.5 unigolyn i bob aelwyd, ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer poblogaeth cyfan Sir y Fflint, yn 2.4 unigolyn i bob aelwyd.

2.10 Mae Tabl 2.3 yn edrych ar wybodaeth ar fath o lety, sydd ar gael o Gyfrifiad 2011;. O'r 38 aelwyd Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd, roedd 81.6% yn byw mewn llety brics a morter (30 mewn tŷ/byngalo ac un mewn fflat/fflat deulawr/rhandy). Roedd 18.4% yn byw mewn carafán neu strwythur symudol neu dros dro.

**Tabl 2.3 Aelwydydd WGoIT yn ôl math o lety**

| Sir y Fflint | Tŷ neu fyngalo | Fflat, fflat deulawr neu randy | Carafán neu strwythur symudol neu dros dro | Cyfanswm aelwydydd WGoIT |
|---|---|---|---|---|
| Nifer | 30 | 1 | 7 | **38** |
| **Canran (%)** | **78.9** | **2.6** | **18.4** | **100%** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

2.11 O ran deiliadaeth (Tabl 2.4), mae bron i ddau rhan o dri (65.8%) o'r rheiny sydd yn WGoIT yn y Cyfrifiad, yn byw mewn tai cyd-berchnogaeth neu berchen-feddiannydd. Mae hyn o'i gymharu â rhentu cymdeithasol sy'n 21.1% a 13.2% mewn llety rhent preifat.

**Tabl 2.4 Aelwydydd WGoIT yn ôl deiliadaeth**

| Sir y Fflint | Yn berchen neu gydberchnogaeth | Rhentu cymdeithasol | Rhentu preifat | Cyfanswm aelwydydd WGoIT |
|---|---|---|---|---|
| Nifer | 25 | 8 | 5 | **38** |
| **Canran (%)** | **65.8** | **21.1** | **13.2** | **100%** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

2.12 Mae Tabl 2.5 yn nodi nifer o aelwydydd yn ôl grŵp oedran. Mae hwn yn deillio o'r Unigolyn Cynrychioli Aelwyd (HRP). Mae aelwydydd dan 35 oed yn cyfrif i 21.1% o bob aelwyd gyda'r mwyafrif o aelwydydd (60.5%) yn y grŵp oedran 35 i 64. Mae 18.4% o aelwydydd dros 65 oed

| Tabl 2.5 | Aelwydydd WGoIT yn ôl oedran | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob Grŵp Oedran | 24 oed ac iau | 25 i 34 oed | 35 i 49 oed | 50 i 64 oed | 65 i 74 oed | 75 i 84 oed | 85 oed |
| 38 | 2 | 6 | 13 | 10 | 5 | 1 | 1 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

## Cyfrif Carafannau

2.13 Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad hanner blwyddyn, *Cyfrif Carafannau* Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar safleoedd awdurdodedig a heb eu hawdurdodi wedi seilio ar ddata arolwg a gasglwyd gan awdurdodau lleol unigol ar ddiwrnod penodol dwywaith y flwyddyn.

2.14 Beirniadaeth sylweddol a godwyd o'r cyfrifiad carafán yw nad oedd ymglymiad gan Sipsiwn a Theithwyr eu hunain. Fodd bynnag, y cyfrifiadau yw'r unig ffynhonnell systematig a rheolaidd o wybodaeth ar y nifer a dosbarthiad o garafannau neu ôl-gerbydau Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r cyfrif yn cynnwys carafannau (neu ôl-gerbydau) ar neu i ffwrdd o safleoedd awdurdodedig (h.y. y rhai gyda chaniatâd cynllunio) ond ddim yn berthnasol yn uniongyrchol â'r nifer gwirionedd o leiniau (h.y. capasiti) ar safleoedd.

2.15 Mae'r wybodaeth fwyaf diweddar ers Cyfrifiad Carafannau mis Ionawr 2016, ar sail data a gasglwyd ar 16 Ionawr 2016. Daethpwyd o hyd:

- Roedd 931 o garafannau ar 108 o safleoedd ar draws Cymru.
- O'i gymharu â chyfrif mis Ionawr 2015, blwyddyn ynghynt, roedd y cyfanswm nifer o garafannau Sipsiwn a Theithwyr wedi gostwng 8.7% (89 carafán) a'r cyfanswm nifer o safleoedd (awdurdodedig a diawdurdod) wedi cynyddu 8% (8 safle).
- O gyfanswm y carafannau, roedd 84% (782 carafán) ar safle awdurdodedig. O'r rhain, roedd 580 (74%) ar safleoedd awdurdod lleol a 202 (26%) ar safleoedd preifat.
- Roedd 371 o leiniau ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi'u darparu gan awdurdodau lleol. O'r rhain, roedd 370 o leiniau preswyl ac 1 yn llain tramwy. Roedd 99% o'r lleiniau preswyl hyn wedi'u meddiannu.
- Cyfanswm nifer o garafannau ar safleoedd diawdurdod oedd 15% (26 carafán) yn is na chyfrif mis Ionawr 2016 o'i gymharu â chyfrifiad mis Ionawr 2015.

2.16 Mae'r ffigurau ar gyfer y chwe chyfrifiad carfan ddiwethaf ar gyfer Sir y Fflint wedi'u nodi yn Nhablau 2.6 a 2.7. Nid oes data ar gael ar gyfer y cyfrif a gyflawnwyd ym mis Ionawr 2014, felly mae'r cyfartaledd wedi seilio ar gyfartaledd pum-cyfrifiad rhwng mis Gorffennaf 2013 ac Ionawr 2016.

2.17 Mae Tabl 2.6 yn darparu canlyniadau cyfrif carafannau, gan gynnwys carafannau ac ôl-gerbydau ar safleoedd awdurdodedig (rhent cymdeithasol neu breifat) a safleoedd diawdurdod. Mae hyn yn dangos cyfartaledd o 87 carafán dros bum cyfrifiad. Mae'r mwyafrif o'r rhain ar safleoedd awdurdodedig, gyda chyfartaledd o 37 carafán ar safleoedd rhent

cymdeithasol (42.4% o bob carafán) a chyfartaledd o 47 carafán ar safleoedd preifat (54.6% o bob carafán). O ran carafannau ar safleoedd heb eu hawdurdodi, roeddynt yn dod i 3.0% o bob carafán dros y pum cyfrifiad. Nid oedd unrhyw garafán wedi eu cofnodi ar safleoedd y mae Sipsiwn yn eu perchen a diawdurdod tan gyfrifiad mis Gorffennaf 2015, a nododd bod pedwar carafán ar safle y mae Sipsiwn yn ei berchen. Roedd tair carafán ar safle Sipsiwn a oddefir wedi eu nodi ym mis Ionawr 2016. Ar safleoedd sydd yn ddiawdurdod a ddim dan berchnogaeth Sipsiwn a Theithwyr, nodwyd bod dwy garafán wedi eu cofnodi mewn tri o bum cyfrifiad, gan roi cyfartaledd o 1.2 carafán dros gyfnod o bum cyfrifiad.

**Tabl 2.6 Nifer o garafannau Sipsiwn a Theithwyr, Gorffennaf 2013 - Gorffennaf 2015**

| Sir y Fflint | Safleoedd awdurdodedig gyda chaniatâd cynllunio | | Lleiniau heb eu hawdurdodi heb ganiatâd cynllunio | | | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Tir Sipsiwn | | Tir nad yw Sipsiwn yn ei berchen | | |
| | Rhentu cymdeithasol | Cyfanswm preifat | Goddefwyd | Heb ei oddef | Goddefwyd | Heb ei oddef | |
| Gorffennaf 2013 | 26 | 47 | 0 | 0 | 0 | 2 | **75** |
| Ionawr 2014 | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Gorffennaf 2014 | 45 | 53 | 0 | 0 | 0 | 0 | **98** |
| Ionawr 2015 | 42 | 44 | 0 | 0 | 0 | 2 | **88** |
| Gorffennaf 2015 | 37 | 44 | 4 | 0 | 0 | 2 | **87** |
| Ionawr 2016 | 34 | 49 | 3 | 0 | 0 | 0 | **86** |
| **Cyfartaledd Pum Cyfrifiad** | **36.8** | **47.4** | **1.4** | **0** | **0** | **1.2** | **86.8** |
| **Cyfartaledd % y Pum Cyfrifiad** | **42.4%** | **54.6%** | **1.6%** | **0.0%** | **0.0%** | **1.4%** | **100.0%** |

Ffynhonnell: Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru

2.18 Mae Tabl 2.7 yn cyflwyno'r canlyniadau ar y cyfrif llain ar safleoedd a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol yn Sir y Fflint dros yr un cyfnod pum cyfrifiad (gan eithrio cyfrifiad mis Ionawr 2014). Mae hyn yn dangos cyfartaledd o 20.2 o leiniau wedi'u meddiannu ar safle (safleoedd) preswyl a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Nid oes unrhyw leiniau preswyl gwag wedi'u cofnodi yn ystod y pedwar cyfrifiad. Hefyd, nid oedd lleiniau tramwy wedi'u nodi, naill wedi eu meddiannu neu'n wag.

**Tabl 2.7 Nifer o leiniau ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi'u darparu gan awdurdodau lleol, Gorffennaf 2013 i Gorffennaf 2015**

| Sir y Fflint | Preswyl | | Tramwy | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wedi'u meddiannu | Gwag | Wedi'u meddiannu | Gwag | |
| Gorffennaf 2013 | 20 | 0 | 0 | 0 | **20** |
| Ionawr 2014 | - | - | - | - | **-** |
| Gorffennaf 2014 | 21 | 0 | 0 | 0 | **21** |
| Ionawr 2015 | 20 | 0 | 0 | 0 | **20** |
| Gorffennaf 2015 | 20 | 0 | 0 | 0 | **20** |
| Ionawr 2016 | 20 | 0 | 0 | 0 | **20** |
| **Cyfartaledd Pum Cyfrifiad** | **20.2** | **0** | **0** | **0** | **20.2** |
| **Cyfartaledd % y Pum Cyfrifiad** | **100.0%** | **0.0%** | **0.0%** | **0.0%** | **100.0%** |

Ffynhonnell: Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru
Nodiadau: Gall un llain gynnwys nifer o garafannau. Nid yw'n cynnwys safleoedd preifat wedi'u hawdurdodi.

2.19 Dylid nodi y gall fod mwy nag un garafán neu ôl-gerbyd ar bob llain, ac yn yr achos o aelwydydd yn dyblu ar leiniau, gall bod nifer o garafannau neu ôl-gerbydau. Am resymau amlwg, efallai nad yw Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar y safle yn bresennol ar ddyddiau y cyflawnir y cyfrifiadau.

## Darpariaeth llety cyfredol

2.20 Data ar y ddarpariaeth gyfredol o safleoedd yn ystyried safleoedd awdurdodedig neu ddiawdurdod ar draws Sir y Fflint.

2.21 Mae'r diffiniadau manwl o dermau a ddefnyddir i ddisgrifio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi'u nodi ym Mhennod 1. Yn syml, safleoedd awdurdodedig yw'r rheiny sydd â chaniatâd cynllunio a gellir ei roi ar dir cyhoeddus neu a'r dir perchnogaeth breifat. Mae safleoedd awdurdodedig yn cynnwys y canlynol:

- **safleoedd preswyl,** sydd yn barhaol;
- **safleoedd preswyl dros dro,** sydd â chaniatâd cynllunio neu drwydded am gyfnod cyfyngedig yn unig**;**
- **safleoedd tramwy,** sydd â chyfleusterau parhaol ond wedi'u dylunio ar gyfer defnydd tymor byr; a
- **mannau stopio dros dro,** sydd wedi'u dynodi gan awdurdod lleol i ddiwallu anghenion tymor byr.

2.22 Mae safleoedd heb eu hawdurdodi yn cynnwys **gwersylloedd diawdurdod**, lle mae Sipsiwn a Theithwyr yn meddiannu tir heb ganiatâd y perchennog ac/neu heb ganiatâd cynllunio, a **datblygiadau diawdurdod**, lle mae safleoedd yn cael eu meddiannu gan y perchennog ond heb ganiatâd cynllunio.

2.23 Data cyfredol ar leiniau cyfredol Sipsiwn a Theithwyr yn Sir y Fflint wedi ei nodi yn Nhabl 2.8 ac wedi'i grynhoi yn Nhabl 2.9. Dengys hwn bod cyfanswm o 68 llain yn Sir y Fflint, lle mae:

- 20 llain ar safle preswyl (parhaol wedi'i awdurdodi) y mae'r Cyngor yn ei berchen;
- Mae 26 llain wedi'u meddiannu ar safleoedd preifat preswyl (parhaol wedi'u hawdurdodi); a 7 ychwanegol yn cael eu datblygu a 3 sy'n wag;
- Mae 7 llain ar safle preifat preswyl dros dro; a
- 5 llain ar safleoedd diawdurdod.

2.24 I grynhoi, mae 46 llain awdurdodedig wedi'u meddiannu, 3 llain awdurdodedig wag, 7 llain awdurdodedig yn cael eu datblygu, 7 llain ar safle preswyl dros dro a 5 llain ar safleoedd diawdurdod.

| **Tabl 2.8** | **Lleiniau cyfredol Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd yn Sir y Fflint** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Safle** | **Deiliadaeth** | **Dim llain ar gael** | **Dim llain wedi'u meddiannu** | **Sylwadau** |
| Glan y Môr, Queensferry | Safle Awdurdod Lleol | 20 | 20 | - |
| Corbetts/Lyons Yard, Sandycroft | Safle Breifat | 5 | 5 | 22 llain yn wreiddiol ond mae'r safle wedi cau i'w ailddatblygu. Pum llain wedi'u meddiannu |
| Mitford Caravan Site, Mounds, Gwespyr | Safle preifat | 14 | 14 | - |
| Gwern Lane, Yr Hob | Safle preifat | 4 | 1 | 3 llain yn wag ar hyn o bryd ac nid oes amodau caniatâd personol. |
| Ewloe Barn Wood, Magazine Lane, Ewloe | Safle preifat | 5 | 0 | Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar 10 Ebrill 2014. Safle yn cael ei ddatblygu |
| Huntley Yard, Chester Road | Safle preifat | 6 | 6 | Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar 23 Ebrill 2014. |
| 1 Old Paper Mill Lane, Oakenholt, Fflint | Safle preifat | 2 | 0 | Cais 053290 a ganiatawyd yn apêl 8 Hydref 2015 ar gyfer 2 llain preswyl sipsiwn/ teithwyr i gynnwys 2 garafán statig a 2 garafán deithiol gyda lle parcio ar gyfer 2 gerbyd i bob llain. Yn cael ei ddatblygu. |
| Dollar Park, Bagillt Road, Treffynnon | Safle breifat (Dros Dro) | 7 | 7 | Cafodd Cais Cynllunio 053163 ar gyfer parhau i ddefnyddio'r tir fel safle preswyl sy'n llety i 9 teulu ar 7 llain gyda chyfanswm o 13 carafán (dim mwy na 7 carafán statig) ei roi dros dro am 5 mlynedd ar 7 Ebrill 2016. Felly mae'r safle hwn yn parhau yn safle preswyl dros dro. |
| Dundas Sidings, Factory Road, Sandycroft, Glannau Dyfrdwy | Safle preifat (Diawdurdod) | 3 | 3 | Cais cynllunio yn aros (051208) i newid defnydd tir i gadw carafannau ar gyfer meddiannaeth preswyl gydag wyneb caled perthnasol, ffens a 2 bloc cyfleusterau a rennir a thanc septig (ôl-weithredol). |
| Sister's Yard, Station Road, Sandycroft | Safle preifat (Diawdurdod) | 1 | 1 | Cais cynllunio yn aros (054442) i Ddefnyddio tir ar gyfer cadw carafannau ar gyfer pwrpas preswyl, ynghyd â ffurfio wyneb caled ac ystafelloedd cyfleusterau/ dydd. |
| Tir ym Mron Eifion, Ffynnongroyw, Tanlan | Safle preifat (Diawdurdod) | 1 | 1 | Cais 052754 i newid defnydd tir i safle carafán sipsiwn a theithwyr, gyda 4 carafán sefydlog, 4 carafán deithiol, adeilad amwynder, newid i fynediad cerbydau presennol, creu man parcio. Gwrthodwyd y cais 27 Mai 2015. |
| **Cyfanswm y Lleiniau** | **-** | **68** | **58** | **3 llain yn wag a 7 llain yn cael eu datblygu.** |

Ffynhonnell: Arolwg gwaith maes 2016, Cyngor Sir y Fflint 2016

**Tabl 2.9 Crynodeb o Lleiniau cyfredol Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd yn Sir y Fflint**

| Math o Safle | Nifer o Safleoedd | Nifer o Leiniau sydd ar gael | Nifer o Leiniau a feddiannwyd | Nifer o Leiniau gwag |
|---|---|---|---|---|
| Preswyl Awdurdod Lleol (parhaol wedi'i awdurdodi) | 1 | 20 | 20 | 0 |
| Preswyl preifat (parhaol wedi'i awdurdodi) | 6 | 36 (mae 7 llain yn cael eu datblygu) | 26 | 3 |
| Preswyl preifat dros dro | 1 | 7 | 7 | 0 |
| Preifat diawdurdod | 3 | 5 | 5 | 0 |
| **Cyfanswm** | **11** | **68** | **58** | **3*** |

Ffynhonnell: Arolwg gwaith maes 2016, Cyngor Sir y Fflint 2016

# 3. Methodoleg

## Cyfansoddiad Grŵp Llywio Prosiect

3.1 Sefydlwyd Grŵp Llywio i oruchwylio paratoadau Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA), fel yr argymhellwyd gan Ganllaw Llywodraeth Cymru, *Cyflawni Asesiadau o lety Sipsiwn a Theithwyr* (Mai 2015).

3.2 Roedd y grŵp llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol: (para. 56)

- Adrannau Cynllunio a Thai Cyngor Sir y Fflint,
- Gwasanaethau perthnasol eraill gan gynnwys gwasanaethau addysg Teithwyr, swyddogion cyswllt Sipsiwn a Theithwyr.

3.3 Cyflawnodd y grŵp llywio'r cyfrifoldebau canlynol, fel y nodwyd yng Nghanllaw'r Llywodraeth[2]:

- Argymell yr ardal arolwg – penderfynodd y grŵp llywio y dylai'r GTAA gynnwys Sir y Fflint;
- Llunio amcanion a chanlyniadau'r astudiaeth - fel y nodir ym Mhennod 1 o'r adroddiad hwn;
- Penodi ymchwilwyr - penododd y grŵp llywio arc[4] i gyflawni'r GTAA, gyda chasgliad data eilaidd i'w gynnal gan Lety Cynaliadwy Gofod Cartref (HSSA) sydd yn aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr eu hunain;
- Cyhoeddi'r astudiaeth i rhanddeiliaid – ymgysylltiad rhanddeiliaid allweddol mewn ymgynghoriad ar-lein wedi'i arwain gan y grŵp llywio.
- Darparu gwybodaeth leol i'r ymchwilwyr – drwy gyfres o gyfarfodydd ffurfiol a chyfathrebu parhaus, bu i'r grŵp llywio ddarparu gwybodaeth leol i arc4 a HSSA i gynorthwyo yn yr ymchwil;
- Darparu adborth i gyfranogwyr a rhanddeiliaid ymgynghoriad a sicrhau bod canlyniadau yn cael eu hystyried o ddifrif a'u gweithredu - bydd y grŵp llywio yn sicrhau bod y canfyddiadau asesiad drafft a therfynol yn cael eu hadrodd i'r partïon perthnasol.

## Methodoleg Astudio

3.4 Er mwyn cyflenwi gofynion Canllaw Llywodraeth, mae methodoleg yr astudiaeth hon wedi cynnwys tair prif gydran:

- Dadansoddiad o ffynonellau data presennol;
- Cyflawni arolwg arbenigol; a
- Asesu anghenion llety.

3.5 Hefyd, penderfynodd y grŵp llywio gyflawni arolwg o randdeiliaid allweddol i gael eu safbwyntiau a barn ar ystod o faterion sy'n berthnasol i anghenion Sipsiwn a

[2] Canllaw Llywodraeth Cymru, *Cyflawni Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr*, para. 62

Theithwyr yn Sir y Fflint. Felly mae'r arolwg rhanddeiliad allweddol wedi ei gynnwys o fewn y fethodoleg astudiaeth, sydd wedi'i nodi isod.

## Dadansoddiad o ffynonellau data presennol

3.6 Roedd y cyfnod hwn yn cynnwys adolygiad o wybodaeth bwrdd gwaith oedd ar gael, gan gynnwys cefndir deddfwriaethol a chanllaw arfer orau, a data eilaidd oedd ar gael a oedd yn berthnasol i Sipsiwn a Theithwyr.

3.7 Mae gwybodaeth Gymraeg, rhanbarthol a lleol wedi'i gasglu, ei gyfuno a'i adolygu, gan gynnwys gwybodaeth ar:

- Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi;
- Polisïau cyfredol tuag at Sipsiwn a Theithwyr yn y Sir (wedi'u llunio gan ddogfennau polisi, dogfennau cynllunio, strategaeth tai Awdurdod Lleol ayyb); a
- Asesiadau neu astudiaethau blaenorol ar anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

3.8 Mae ffynonellau data eilaidd presennol wedi cael eu defnyddio i baratoi ar gyfer y GTAA hwn yn cynnwys y canlynol:

- Cyfrifiad 2011;
- Cyfrif Carafannau;
- Cofnodion cynllunio awdurdod lleol – gan gynnwys ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd, a gymeradwywyd a gwrthodwyd;
- Data awdurdod lleol perthnasol arall a gwybodaeth leol.

3.9 Mae'r data eilaidd hwn yn ddefnyddiol i ddarparu darlun llinell sylfaen o ddarpariaeth llety a phoblogaeth Sipsiwn a Theithwyr mewn ardal. O ran Sir y Fflint, mae hyn wedi'i sefydlu ym Mhennod 2 o'r adroddiad GTAA hwn. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth cyffredinol bod nifer o Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hadnabod mewn arolygon megis y Cyfrifiad Cenedlaethol. Yn debyg iawn, mae'r Cyfrif Carafannau hanner blwyddyn ond yn giplun a byddai'n eithrio Sipsiwn a Theithwyr sydd yn teithio neu ddim yn bresennol ar ddiwrnod y Cyfrifiad. Felly nid yw data eilaidd presennol yn cael ei ystyried yn ddigonol i ddarparu asesiad manwl neu gynhwysfawr o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

## Arolwg Rhanddeiliaid Allweddol

3.10 Roedd aelodaeth y grŵp llywio yn cynnwys rhai o randdeiliaid allweddol a oedd yn rhan o fonitro ac asesu parhaus gweithgarwch Sipsiwn a Theithwyr yn Sir y Fflint. Fodd bynnag, i ddarparu cyfle ar gyfer ymgysylltiad ehangach o'r rheiny sydd â chyswllt uniongyrchol a gwybodaeth am y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal, penderfynodd y grŵp llywio gyflawni arolwg ffurfiol o rhanddeiliaid allweddol.

3.11 Cyflawnwyd yr arolwg hwn drwy holiadur ar-lein, roedd y cynnwys wedi'u ddylunio gan arc4 a'i drafod a'i gymeradwyo gan y grŵp llywio. Mae cwestiynau'r arolwg a'r ymatebion a ddaeth i law wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

3.12 Mae'r adborth a dderbyniwyd gan rhanddeiliaid allweddol drwy'r arolwg ar-lein wedi cael ei ddadansoddi ac mae'r canfyddiadau wedi'u nodi ym Mhennod 4.

## Cyflawni arolwg arbenigol

3.13 Fel y nodir yng Nghanllaw Llywodraeth, mae angen cyfrifiad manwl neu arolwg data eilaidd i asesu'n briodol anghenion cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, oherwydd y nifer poblogaeth fach ac anghenion llety penodol. Er mwyn cydymffurfio â Chanllaw Llywodraeth, ac i sicrhau asesiad cadarn o anghenion, mae'r GTAA wedi cynnwys ystod o gasgliad data eilaidd yn ychwanegol i adolygiad o'r data presennol sydd ar gael.

3.14 Mae'r Canllaw Llywodraeth yn gofyn bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod gwahanol gymunedau o fewn y cwmpas o ddiffiniad Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu cynnwys o fewn yr asesiad. Mae'r Canllaw yn nodi y gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, Sipsiwn Romani, Teithiwr Gwyddelig, Teithwyr Newydd a Theithwyr Perfformwyr. Mae'n rhaid iddo gynnwys anghenion Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd awdurdodedig, safleoedd diawdurdod a llety brics a morter[3].

3.15 Hefyd, mae'r Canllaw yn datgan:

*"Bydd rhaid i Awdurdodau Lleol nodi Sipsiwn a Theithwyr hysbys yn eu hardal a cheisio rhoi arolwg i anghenion llety pob aelwyd. Mae'n hanfodol bod y rhai sydd yn cyflawni'r asesiad yn ceisio cynnwys holl Sipsiwn a Theithwyr sydd yn byw neu yn aros yn yr ardal i sicrhau bod yr asesiad yn cael ei gyfrif yn gyfreithlon gan bawb ac yn rhoi'r asesiad mwyaf cywir o'r angen nas diwallwyd."* (paragraff 90)

3.16 Pwyslais y Canllaw yw ceisio pob aelwyd Sipsiwn a Theithwyr yn yr arolwg, o bob cefndir ethnig a phob math o gartref. Gan nodi nad yw rhai cynrychiolwyr aelwyd yn dymuno cael eu cynnwys yn yr arolwg, mae'r grŵp llywio yn adnabod yr angen am ddull cynhwysol a nodi'r amcan o gysylltu â phob aelwyd Sipsiwn a Theithwyr hysbys yn ardal Sir y Fflint.

3.17 Roedd y grŵp llywio yn ymwybodol o sensitifrwydd diwylliannol sydd yn berthnasol â chynnal arolygon o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, fel y nodir yn y Canllaw Llywodraeth[4]. Felly penderfynwyd cael cyfrifiad safle a gwaith maes arolwg aelwyd wedi'i gyflawni gan bersonél hyfforddedig sydd yn gyfarwydd â gweithio ymysg y gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Cyflawnwyd gasgliad data eilaidd gan weithwyr maes, wedi'i reoli a'i fonitro gan staff arc[4], a'i oruchwylio gan y grŵp llywio. Gan ddefnyddio gweithwyr maes i gyflawni cyfrifiad ac ymchwil arolwg yn helpu i sicrhau cyfradd ymateb dda, ac yn y pen draw yn darparu asesiad mwy cynhwysfawr o'r angen.

[3] Canllaw Llywodraeth Cymru, *Cyflawni Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr*, para. 23-24
[4] Canllaw Llywodraeth Cymru, *Cyflawni Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr*, para. 108-113

3.18 Defnyddiodd y gweithwyr maes strategaeth maes i ymgysylltu'n uniongyrchol gyda'r mwyafrif o gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn Sir y Fflint â phosibl drwy:

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a sefydliadau cymorth;
- Cyfrifiad o safleoedd yn adolygu cyfanswm nifer o leiniau, nifer o leiniau wedi'u meddiannu ac yn wag, nifer o garafannau a chyfanswm nifer o aelwydydd; a
- Mae cyfweliadau gyda Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd awdurdodedig, safleoedd diawdurdod a rhai sy'n byw mewn llety brics a morter, gan ddefnyddio'r holiadur a argymhellwyd gan Ganllaw Llywodraeth[5] ac wedi'u cynnwys yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

3.19 Amcanion trosfwaol y gwaith maes oedd:

1) cadarnhau gwybodaeth ar ddarpariaeth llain gyfredol a gweithgaredd ar draws yr ardal astudiaeth drwy gyfrifiad y safle; a
2) i wella'r nifer o gyfweliadau a gafwyd gan aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr ar draws Sir y Fflint. Roedd ymgynghori â rhanddeiliaid wedi sicrhau bod y tîm gwaith maes gyda dealltwriaeth dda o faterion lleol sy'n wynebu Sipsiwn a Theithwyr ac wedi helpu i wella cyfranogiad y gymuned yn yr astudiaeth.

3.20 Yng Nghyfrifiad 2011 roedd tua 76% o Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn llety brics a morter ond mae cofnodion tai lleol yn annhebygol o nodi pwy neu ymhle maent[6]. Mae hyn yn creu her sylweddol i geisio cynnal ymchwil eilaidd ymysg poblogaeth Sipsiwn a Theithwyr mewn ardal. Felly mae'n amlwg bod yr angen am wybodaeth sy'n berthnasol i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn byw o fewn llety brics a morter yn bodoli. Cafodd hyn ei ystyried yn ofalus gan y tîm gwaith maes yn eu hymchwil cefndirol, paratoi arolwg a chyflawni gwaith maes.

3.21 Roedd y gweithwyr maes yn ymwybodol iawn bod yr anghenion diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr yn wahanol i weddill y boblogaeth ac ystyriaeth o ofynion penodol diwylliannol – megis yr angen am safleoedd carafán a/ neu safleoedd tramwy ac/neu fannau stopio (neu welliannau i safleoedd presennol) - ychwanegol a pharhaol – yn allweddol i'r astudiaeth hwn. Mae'r ymchwil felly wedi ceisio gwybodaeth a safbwyntiau gan Sipsiwn a Theithwyr ar draws yr ardal astudiaeth sy'n byw mewn gwahanol fathau o lety.

3.22 Ffactor arall y mae ymchwilwyr yn ymwybodol ohono yn ystod cyfrifiad safle ac arolygon cyfweld oedd presenoldeb posibl o aelwydydd cudd neu wedi 'dyblu' ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn yn digwydd pan mae mwy nag un aelwyd yn rhannu llain. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn glir o'r nifer o gartrefi symudol, carafannau neu ôl-gerbydau sy'n bresennol. Gall cyfrifiad o un safle penodol ganfod yn realistig bod y nifer o leiniau, nifer o garafannau a nifer yr aelwydydd i gyd yn wahanol.

3.23 Cyflawnwyd cyfrifiad safle ac arolygon aelwydydd dros gyfnod rhwng mis Hydref 2015 a Mawrth 2016. Fel yr argymhellwyd yng Nghanllaw'r Llywodraeth, bu i'r tîm ymchwil gadw cofnod o apwyntiadau a chyfweliadau a gyflawnwyd gydag aelodau o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn yn cynnwys cofnod o phan

[5] Canllaw Llywodraeth Cymru, *Cyflawni Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr*, Atodiad 2
[6] Canllaw Llywodraeth Cymru, *Cyflawni Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr*, para. 86

mae aelodau wedi gwrthod cymryd rhan yn yr arolwg cyfweliad ac, os yw'n berthnasol, rhesymau am beidio â chymryd rhan[7].

3.24 Mae Canllaw'r Llywodraeth yn nodi 'rhestr wirio ymgysylltu' ar gyfer awdurdodau lleol i ddilyn i sicrhau eu bod yn cyrraedd gymaint o aelwydydd â phosibl drwy'r broses GTAA. Mae'n nodi y bydd Gweinidogion Cymru yn gwirio cydymffurfiaeth gyda'r rhestr wirio pan fydd yn asesu i gymeradwyo'r adroddiad a gyflwynwyd. Mae'r rhestr wirio ymgysylltu wedi ei nodi yn Nhabl 3.1, gan gynnwys sylwadau sy'n berthnasol i gamau gweithredu a gymerwyd gan y tîm gwaith maes a oedd yn cynnal yr astudiaeth GTAA yn Sir y Fflint.

| Tabl 3.1 | Rhestr Wirio Ymgysylltu | |
|---|---|---|
| | | **Camau gweithredu a gymerwyd yn Sir y Fflint** |
| 1. | Ymweld ag aelwyd Sipsiwn a Theithwyr drwy'r broses dadansoddi data hyd at 3 gwaith, os oes angen. | ✓ |
| 2. | Cyhoeddi manylion o'r broses GTAA, gan gynnwys manylion cyswllt i alluogi aelodau'r gymuned wneud cais am gyfweliad, ar wefan yr Awdurdod Lleol, gwefan Travellers' Times a chyhoeddiad World Fair. | ✓ (cyflawnwyd drwy sgyrsiau uniongyrchol â Sipsiwn a Theithwyr) |
| 3. | Ymgynghori â sefydliadau cefnogaeth gymunedol, megis y rheiny sydd yn Atodiad 1. | ✓ |
| 4. | Datblygu rhestr aros Awdurdod Lleol i leiniau a thai, sydd yn hygyrch ac yn cael ei ohebu i aelodau o'r gymuned. | ✓ (Gall Sipsiwn a Theithwyr wneud cais drwy'r Rhestr Aros am Lety Brics a Morter a datblygiad o restr aros am leiniau yn gam gweithredu allweddol sy'n codi o'r asesiad) |
| 5. | Ceisio cynnwys Sipsiwn a Theithwyr ar y grŵp llywio prosiect GTAA. | ✓ |
| 6. | Sicrhau bod manylion cyswllt a ddarperir i'r Awdurdod Lleol gan aelodau o'r gymuned drwy'r broses arolwg yn cael eu hymlid a bod anghenion yn cael eu hasesu. | ✓ |
| 7. | Ystyried cynnal digwyddiadau gwybodaeth GTAA ar y safle (neu gyfagos) i egluro pam y dylai aelodau o'r gymuned gymryd rhan ac annog preswylwyr safle i ddod ag eraill sydd ddim yn hysbys i'r Awdurdod Lleol. | ✓(cafodd ei ystyried ond cafodd gwybodaeth ar yr astudiaeth ei drafod gydag aelodau cymuned yn ystod y gwaith maes) |

Ffynhonnell: Canllaw Llywodraeth Cymru, *Cyflawni Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithiwr*, Tabl 2 – Rhestr Wirio Ymgysylltu (tudalen 23).

[7] O'r holl aelwydydd Brics a Morter a adnabuwyd, ni chafwyd gwrthodiad.

## Asesu anghenion llety

3.25 Mae asesiad o ofynion llain wedi’i gyfrifo drwy ddefnyddio gwybodaeth ar y cyflenwad cyfredol o leiniau a’r canlyniadau o arolygon rhanddeiliad allweddol ac aelwydydd.

3.26 Eglurhad manwl o ddadansoddiad o ofynion llain wedi’i gynnwys ym Mhennod 5 ond mae’n cynnwys yn fras dadansoddiad o’r elfennau canlynol:

- Darpariaeth llain cyfredol, aelwydydd yn byw mewn llety brics a morter; aelwydydd sy’n cynllunio i symud yn y pum mlynedd nesaf, ac aelwydydd sy’n ymddangos i roi cyfanswm y galw am leiniau a phlotiau; a
- Trosiant ar y lleiniau presennol a chyfanswm y cyflenwad.

3.27 Mae’r dull a ddefnyddir wedyn yn ailgymodi’r galw a data cyflenwi i adnabod gofynion llain cyffredinol.

3.28 I nodi'r angen am ddarpariaeth tramwy, data ar weithgaredd gwersylla diawdurdod wedi'i gasglu a'i ddadansoddi, mae canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn cael ei asesu ochr yn ochr â gwybodaeth cyd-destunol i nodi’r targed priodol ar gyfer darpariaeth tramwy yn Sir y Fflint.

# 4. Canfyddiadau Arolwg

## Cyfweliadau Aelwydydd

4.1 Cyflawnwyd arolygon Aelwydydd i ddechrau dros gyfnod rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2015. Cyflawnwyd cyfnod pellach o gyfweliadau i gadarnhau'r arolygon gorffenedig ym mis Mawrth 2016. Fel yr argymhellwyd yng Nghanllaw Llywodraeth[8], bu i'r tîm ymchwil gadw cofnod o apwyntiadau a chyfweliadau a gyflawnwyd gydag aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn yn cynnwys cofnod lle'r oedd aelodau wedi gwrthod cymryd rhan yn yr arolwg cyfweliad ac, os yw'n berthnasol, rhesymau am beidio â chymryd rhan.

4.2 Bu i gyfanswm o 82 cyfweliad gael ei wneud drwy'r gwaith maes arolwg aelwydydd. Mar Tabl 4.1 yn dangos dadansoddiad gan y math o safle neu lety, ar sail canfyddiadau Cwestiwn A1 yn yr holiadur. Cafodd 49 cyfweliad ei wneud ar safleoedd preswyl (awdurdodedig) preswyl, 8 ar safleoedd (awdurdodedig) dros dro a phump ar safleoedd sydd heb ganiatâd cynllunio. Cyflawnwyd 20 cyfweliad gyda Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn llety brics a morter; o'r rhain roedd un yn llety (fforddiadwy) rhent cymdeithasol, 9 yn llety rhent preifat a 20 mewn tai perchen-feddiannwr.

**Tabl 4.1 Cyfweliadau Aelwyd**

| Math o safle neu lety | Nifer o gyfweliadau a gyflawnwyd | Canran o ymatebion |
|---|---|---|
| **Safleoedd y Cyngor:** | | |
| Safle preswyl awdurdodedig (parhaol) | 26 | 32% |
| Safle Tramwy | 0 | 0% |
| **Safleoedd preifat:** | | |
| Safleoedd preswyl awdurdodedig (parhaol) | 23 | 28% |
| Safleoedd preswyl awdurdodedig dros dro | 8 | 10% |
| Safle heb ei awdurdodi | 5 | 6% |
| **Brics a Morter:** | | |
| Rhent cymdeithasol | 1 | 1% |
| Rhent preifat | 9 | 11% |
| Perchen- feddianwyr | 10 | 12% |
| **Cyfanswm y Cyfweliadau** | **82** | **100%** |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016. Cyflawnwyd Nodyn 8 cyfweliad ar y safle 7 llain ym Mharc Dollar gan bod dau deulu yn rhannu llain mawr (ond nid oedd hyn yn dyblu).

[8] Canllaw Llywodraeth Cymru, *Cyflawni Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr*, para. 97

4.3 Mae Tabl 4.2 yn nodi ethnigrwydd y rheiny a ymatebodd i arolwg aelwydydd, wedi selio ar ganfyddiadau Adran B o'r holiadur. Wedi seilio ar 79 ymateb a'r ethnigrwydd hunan-briodoli gan yr ymatebydd ei hun (yn hytrach na gweddill yr aelwyd). 51% wedi eu nodi yn Sipsiwn, 25% yn Deithiwr Gwyddelig, 9% yn Romani, 6% yn Deithiwr, 5% yn Deithiwr Saesneg, 1% yn Berfformiwr, 1% yn Arall (Pwylaidd) ac 1% wedi dweud "ddim yn deithiwr".

**Tabl 4.2 Ethnigrwydd wedi'i hunan briodoli gan yr ymatebydd**

| Ethnigrwydd wedi'i hunan briodoli | | Math o lety: CYFANSWM | Brics a Morter: | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | **Nifer** | **79** | **19** | **26** | **34** |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| Teithiwr Saesneg | Nifer | **4** | | 1 | 3 |
| | Col % | **5%** | | 4% | 9% |
| Sipsiwn | Nifer | **40** | 14 | 5 | 21 |
| | Col % | **51%** | 74% | 19% | 62% |
| Teithiwr Gwyddelig | Nifer | **20** | 2 | 15 | 3 |
| | Col % | **25%** | 11% | 58% | 9% |
| Ddim yn deithiwr gwirioneddol | Nifer | **1** | | 1 | |
| | Col % | **1%** | | 4% | |
| Arall - Pwyleg | Nifer | **1** | | | 1 |
| | Col % | **1%** | | | 3% |
| Romani | Nifer | **1** | | | 1 |
| | Col % | **1%** | | | 3% |
| Romani | Nifer | **6** | | 3 | 3 |
| | Col % | **8%** | | 12% | 9% |
| Perfformiwr | Nifer | **1** | 1 | | |
| | Col % | **1%** | 5% | | |
| Teithiwr | Nifer | **5** | 2 | 1 | 2 |
| | Col % | **6%** | 11% | 4% | 6% |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

## Proffil Demograffeg o boblogaeth

4.4 Gofynnwyd yn yr arolwg aelwydydd i ymatebwyr am wybodaeth demograffeg syml yn berthnasol i nhw eu hunain a phobl eraill o fewn eu haelwyd, hyd at uchafswm o 12 unigolyn. Roedd hyn yn cynnwys eu perthynas â'r ymatebydd,

oedran, rhyw, ethnigrwydd wedi'i hunan briodoli ac unrhyw resymau pan na allent barhau i fyw yn eu llety (Adran B).

4.5 Mae Tabl 4.3 yn dangos maint yr aelwyd, fel y nodir yn ôl oedran yr wybodaeth yn Adran B o'r arolwg aelwydydd. Y mwyafrif o bobl a nodwyd o fewn aelwyd unigol oedd pump. Roedd y mwyafrif o aelwydydd yn cynnwys dau (26%) neu dri (32%) unigolyn.

4.6 Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, roedd yr 82 aelwyd a gyflawnodd yr arolwg yn cynnwys 240 o bobl, gan roi cyfartaledd aelwyd yn 2.93 unigolyn.

**Tabl 4.3 Maint aelwydydd**

| Nifer o bobl yn yr aelwyd | | Math o lety | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | CYFANSWM | Brics a Morter: | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
| **CYFANSWM** | **Nifer** | **82** | **20** | **26** | **36** |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| Un | Nifer | **11** | 1 | 2 | 8 |
| | Col % | **13%** | 5% | 8% | 22% |
| Dau | Nifer | **21** | 9 | 6 | 6 |
| | Col % | **26%** | 45% | 23% | 17% |
| Tri | Nifer | **26** | 6 | 7 | 13 |
| | Col % | **32%** | 30% | 27% | 36% |
| Pedwar | Nifer | **11** | 3 | 5 | 3 |
| | Col % | **13%** | 15% | 19% | 8% |
| Pump | Nifer | **13** | 1 | 6 | 6 |
| | Col % | **16%** | 5% | 23% | 17% |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

4.7 Mae Tabl 4.4. yn nodi proffil oedran yr ymatebwyr (o'r sylfaen 82). Roedd 21% o ymatebwyr rhwng 17-25 oed; 50% yn 25-39 oed; 23% yn 40-64; a 6% yn 65 oed neu'n hŷn. Mae'r wybodaeth yn dangos ychydig o amrywiad rhwng y gwahanol fathau o lety, gyda'r mwyafrif (69%) o ymatebwyr o leiniau ar safle'r Cyngor rhwng 25-39oed. Roedd gan yr ymatebwyr mewn llety brics a morter y gyfran uchaf o ymatebwyr iau, gyda 35% yn 17-24 oed.

| Tabl 4.4 Oedran ymatebwyr | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Math o lety | | | |
| Oedran yr ymatebydd | | CYFANSWM | Brics a Morter: | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
| **CYFANSWM** | **Nifer** | **82** | **20** | **26** | **36** |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| 0-16 | Nifer | **0** | 0 | 0 | 0 |
| | Col % | **0%** | 0% | 0% | 0% |
| 17-24 | Nifer | **17** | 7 | 3 | 7 |
| | Col % | **21%** | 35% | 12% | 19% |
| 25-39 | Nifer | **41** | 7 | 18 | 16 |
| | Col % | **50%** | 35% | 69% | 44% |
| 40-54 | Nifer | **14** | 5 | 1 | 8 |
| | Col % | **0%** | 25% | 4% | 22% |
| 55-64 | Nifer | **5** | 1 | 2 | 2 |
| | Col % | **6%** | 5% | 8% | 6% |
| 65-74 | Nifer | **4** | 0 | 2 | 2 |
| | Col % | **5%** | 0% | 8% | 6% |
| 75+ | Nifer | **1** | 0 | 0 | 1 |
| | Col % | **1%** | 0% | 0% | 3% |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

4.8 Mae gwybodaeth a ddarparwyd drwy'r arolwg aelwydydd yn berthnasol i ryw yn awgrymu rhaniad cyfartal o 50% merched a 50% dynion o'r cyfanswm o 82 ymatebydd. Mae'r data wedi'i nodi yn Nhabl 4.5.

| Tabl 4.5 Rhyw yr ymatebwyr | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Math o lety | | | |
| Rhyw yr ymatebwyr | | CYFANSWM | Brics a Morter: | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
| **CYFANSWM** | **Nifer** | **82** | **20** | **26** | **36** |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| Merch | Nifer | **41** | 12 | 14 | 15 |
| | Col % | **50%** | 60% | 54% | 42% |
| Gwryw | Nifer | **41** | 8 | 12 | 21 |
| | Col % | **50%** | 40% | 46% | 58% |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

## Addasrwydd llety presennol

4.9 Gofynnodd yr arolwg aelwydydd i'r ymatebwyr os oeddynt yn fodlon gyda'u llety cyfredol. Mae'r canfyddiadau i'w gweld yn Nhabl 4.6. Mae hwn yn dangos bod 95% o ymatebwyr yn fodlon gyda'u tai cyfredol a bod 2% ddim yn fodlon (roedd well gan 2% beidio dweud). Ni fu i'r un ymatebydd mewn llety brics a morter neu sy'n byw ar lain ar safle'r Cyngor nodi eu bod yn anfodlon gyda'u llety (dywedodd un ymatebydd o bob un y byddai well ganddynt beidio dweud). Fodd bynnag, bu i ddau ymatebydd (6%) o leiniau ar safleoedd preifat ddweud eu bod yn anfodlon gyda'r llety.

**Tabl 4.6 Bodlonrwydd gyda llety cyfredol**

| Ydych chi'n fodlon gyda'ch llety cyfredol? | | Math o lety | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | CYFANSWM | Brics a Morter: | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
| **CYFANSWM** | **Nifer** | **81** | 19 | 26 | 36 |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| Ydw | Nifer | **77** | 18 | 25 | 34 |
| | Col % | **95%** | 95% | 96% | 94% |
| Nac Ydw | Nifer | **2** | | | 2 |
| | Col % | **2%** | | | 6% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | Nifer | **2** | 1 | 1 | |
| | Col % | **2%** | 5% | 4% | |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

4.10 Rhoddodd yr arolwg aelwydydd gyfle i egluro beth ellir ei wella ynghylch eu llety cyfredol, os oeddynt yn dweud nad oeddent yn fodlon. Rhoddwyd dau eglurhad; dywedodd bod angen mwy o lety teithiol ar y safle, a dywedodd un nad oedd amwynderau a chyfleusterau'n wael (cegin a thoiled).

4.11 Mae Tabl 4.7 yn dangos y rhesymau a roddodd yr ymatebwyr eu bod yn byw yn eu cartref presennol. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr (73%) wedi dweud eu bod yn byw yn eu llety cyfredol oherwydd cysylltiadau lleol, naill ai teulu neu waith. Cododd hyn at uchafswm 89% i'r rheiny mewn llety brics a morter, o'i gymharu â 65% a 69% ar gyfer y rheiny sy'n byw ar leiniau ar safleoedd y Cyngor a rhai preifat (yn y drefn honno). Dywedodd 15% o ymatebwyr eu bod yn byw yn eu llety cyfredol oherwydd nad oedd llain awdurdodedig arall ar gael. Cododd hyn i 23% o'r rheiny sy'n byw ar lain ar safle breifat.

**Tabl 4.7 Rhesymau dros fyw yn y llety cyfredol**

| Pam ydych chi'n byw yma | | Math o lety | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Brics a Morter | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
| **CYFANSWM** | **Nifer** | **80** | **19** | **26** | **35** |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| Cysylltiadau lleol (teulu neu waith) | Nifer | **58** | 17 | 17 | 24 |
| | Col % | **73%** | 89% | 65% | 69% |
| Dim llain awdurdodedig arall | Nifer | **12** | | 4 | 8 |
| | Col % | **15%** | | 15% | 23% |
| Methu dod o dŷ i symud iddo | Nifer | **1** | | 1 | |
| | Col % | **1%** | | 4% | |
| Rhesymau iechyd neu oedran | Nifer | **1** | | | 1 |
| | Col % | **1%** | | | 3% |
| Well ganddynt dai na charafannau | Nifer | **1** | 1 | | |
| | Col % | **1%** | 5% | | |
| Arall | Nifer | **7** | 1 | 4 | 2 |
| | Col % | **9%** | 5% | 15% | 6% |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

4.12 Roedd yr arolwg wedi gofyn i ymatebwyr am ba mor hir yr oeddynt wedi byw yn eu llety cyfredol. Yn gyffredinol, roedd 82% o ymatebwyr wedi byw yn eu cartref cyfredol am lai na phum mlynedd. Mae 27% o'r rheiny sydd yn byw ar lain ar safle'r Cyngor wedi byw yno am fwy na phum mlynedd; mae hyn yn cymharu â 14% ar lain ar safle preifat a 15% mewn llety brics a morter.

| Tabl 4.8 Hyd preswylio yn y llety cyfredol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pa mor hir ydych chi wedi bod yn byw yma? | | Math o lety | | | |
| | | Cyfanswm | Brics a Morter: | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
| **Cyfanswm** | **Nifer** | **82** | **20** | **26** | **36** |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| Llai na 6 mis | Nifer | **8** | 1 | 2 | 5 |
| | Col % | **10%** | 5% | 8% | 14% |
| 7-12 Mis | Nifer | **24** | 6 | 6 | 12 |
| | Col % | **29%** | 30% | 23% | 33% |
| 1-2 flynedd | Nifer | **25** | 7 | 6 | 12 |
| | Col % | **30%** | 35% | 23% | 33% |
| 2-5 mlynedd | Nifer | **10** | 3 | 5 | 2 |
| | Col % | **12%** | 15% | 19% | 6% |
| Dros 5 mlynedd | Nifer | **15** | 3 | 7 | 5 |
| | Col % | **18%** | 15% | 27% | 14% |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

4.13 Roedd cwestiwn yn yr arolwg aelwyd yn gofyn i ymatebwyr os oeddynt wedi symud yn y flwyddyn ddiwethaf, bod eu cartref diwethaf yn yr Awdurdod Lleol hwn, sef Sir y Fflint. Fel y dengys yn Nhabl 4.9, ymatebodd 23 o bobl i'r cwestiwn hwn. O'r ymatebwyr hyn, dywedodd 87% bod eu cartref diwethaf o fewn Sir y Fflint.

| Tabl 4.9 Lleoliad cartref blaenorol (Sir y Fflint neu ardal awdurdod lleol arall) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Os gwnaethoch symud yn y flwyddyn diwethaf, oedd eich cartref blaenorol yn yr Awdurdod Lleol? | | Math o lety | | | |
| | | Cyfanswm | Brics a Morter: | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
| **Cyfanswm** | **Nifer** | **23** | **4** | **6** | **13** |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| Oedd | Nifer | **20** | 3 | 4 | 13 |
| | Col % | **87%** | 75% | 67% | 100% |
| Nag oedd | Nifer | **3** | 1 | 2 | |
| | Col % | **13%** | 25% | 33% | |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

4.14 Roedd y prif resymau dros symud o fewn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys symud i fod yn agosach i deulu (33% o ymatebwyr) ac un arall er mwyn cael llain barhaol (17%).

4.15 Gofynnwyd i ymatebwyr yn yr arolwg aelwyd am ba hyd yr oeddynt yn credu y byddant yn aros yn eu llety cyfredol, ac mae'r canfyddiadau i'w gweld yn Nhabl 4.10. Yn gyffredinol, roedd dan draean (28%) yn disgwyl symud o fewn y pum mlynedd nesaf. Fodd bynnag mae hyn yn amrywio, o 5% o ymatebwyr yn byw mewn llety brics a morter, 32% o'r rheiny yn byw ar safle'r Cyngor a 38% yn byw ar safle breifat. Mae 10% o holl ymatebwyr yn disgwyl byw yn eu cartref cyfredol am dros bum mlynedd. Nid yw 33% yn bwriadu symud, mae hyn yn amrywio, o 28% o ymatebwyr yn byw ar safle'r Cyngor, 20% yn byw mewn llety brics a morter, 38% yn byw ar safle preifat. Dywedodd 29% o holl ymatebwyr nad oeddynt yn gwybod.

**Tabl 4.10 Hyd preswylio arfaethedig yn y dyfodol yn y llety cyfredol**

| Am ba hyd ydych chi'n credu y byddwch yn byw yma? | | Math o lety | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Brics a Morter: | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
| **Cyfanswm** | **Nifer** | **82** | **20** | **26** | **36** |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| 1-3 Mis | Nifer | **3** | | | 3 |
| | Col % | **4%** | | | 9% |
| 3 mis- 2 flynedd | Nifer | **13** | 1 | 3 | 9 |
| | Col % | **16%** | 5% | 12% | 26% |
| 2-5 flynedd | Nifer | **6** | | 5 | 1 |
| | Col % | **8%** | | 20% | 3% |
| Dros 5 mlynedd | Nifer | **8** | | 6 | 2 |
| | Col % | **10%** | | 24% | 6% |
| Ddim yn bwriadu symud | Nifer | **26** | 6 | 7 | 13 |
| | Col % | **33%** | 30% | 28% | 38% |
| Ddim yn gwybod | Nifer | **23** | 13 | 4 | 6 |
| | Col % | **29%** | 65% | 16% | 18% |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

4.16 Gofynnwyd i ymatebwyr a fyddant yn aros yn hirach yn eu llety cyfredol os bydd newidiadau neu welliannau yn cael eu gwneud. O'r 33 ymatebion i'r cwestiwn hwn, dywedodd 58% o bob ymatebydd bod y safle angen bod yn fwy a dywedodd 15% bod angen gwneud gwaith atgyweirio.

4.17 Gofynnodd yr arolwg aelwydydd os yw'r ymatebwyr yn byw mewn carafannau, os oedd ganddynt ddigon o fannau cysgu i bob preswylydd. Dywedodd 98% o ymatebwyr bod ganddynt. Dywedodd un ymatebydd (byw ar lain ar safle breifat)

nad oedd ganddo. Gofynnwyd i ymatebwyr os oedd lle ar eu llain ar gyfer ôl-gerbydau ychwanegol i atal gorlenwi. Mae'r canfyddiadau wedi eu nodi yn Nhabl 4.11. Mae hwn yn dangos bod 56% o ymatebwyr gyda lle am ragor o ôl-gerbydau, gan gynnwys 70% o'r rheiny sydd yn byw ar safle preifat a 41% o'r rheiny sy'n byw ar safle'r Cyngor.

| Tabl 4.11 Lle ar gyfer rhagor o ôl-gerbydau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Math o lety | | | |
| A oes rhagor o le ar eu llain ar gyfer ôl-gerbydau ychwanegol i atal gorlenwi? | | Cyfanswm | Brics a Morter: | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
| **Cyfanswm** | **Nifer** | 50 | 1 | 22 | 27 |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| Oes | Nifer | **28** | | 9 | 19 |
| | Col % | **56%** | | 41% | 70% |
| Nac oes | Nifer | **22** | 1 | 13 | 8 |
| | Col % | **44%** | 100% | 59% | 30% |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

4.18 Roedd yr holiadur yn cynnwys cwestiwn yn gofyn i ymatebwyr a oedd unrhyw un yn eu teulu eisiau rhoi eu henwau ar restr aros Awdurdod Lleol ar gyfer lleiniau neu dai. O'r cyfanswm o 79 ymatebwyr, dywedodd tri 'oes'. Pan gyflawnwyd dadansoddiad pellach, nid oedd yr un o'r tri unigolyn yn bwriadu symud o fewn cyfnod o 5 mlynedd .

## Dyheadau Llety

4.19 Yn Adran C o'r holiadur, gofynnwyd am ddyheadau a chynlluniau llety'r aelwyd.

4.20 Pan ofynnwyd os oeddynt yn bwriadu symud i lety arall, dywedodd 90% o'r holl ymatebwyr nad oeddynt yn bwriadu symud (Tabl 4.12). Dywedodd tri ymatebydd (4%) eu bod yn bwriadu symud, roedd un ohonynt yn byw ar lain ar safle'r Cyngor ac roedd dau yn byw ar leiniau ar safleoedd preifat. Roedd well gan bum ymatebydd (6%) beidio ag ateb.

| Tabl 4.12 Bwriadu symud i lety arall | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Math o lety | | | |
| Ydych chi'n bwriadu symud i lety arall? | | Cyfanswm | Brics a Morter | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
| **Cyfanswm** | **Nifer** | **82** | **20** | **26** | **36** |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | Nifer | **3** | | 1 | 2 |
| | Col % | **4%** | | 4% | 6% |
| Nac Ydw | Nifer | **74** | 18 | 24 | 32 |
| | Col % | **90%** | 90% | 92% | 89% |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | Nifer | **5** | 2 | 1 | 2 |
| | Col % | **6%** | 10% | 4% | 6% |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

4.21 Roedd ychydig o gwestiynau ychwanegol yn edrych ar gynlluniau’r tri ymatebydd a oedd yn bwriadu symud, a chanfuwyd:

- O ran lleoliad, mae'r tri yn bwriadu symud o fewn yr ardal Awdurdod Lleol;
- O ran eu rheswm dros gynllunio i symud, dywedodd un eu bod angen gwahanol gyfleusterau; dywedodd y ddau mai rhesymau ‘eraill’ oedd eu rheswm a ni roddwyd manylion;
- Mewn perthynas â’r math o lety y maent yn bwriadu symud iddo, dywedodd yr ymatebydd o’r llain ar safle preifat eu bod yn bwriadu symud i safle preifat arall (ddim un y maent yn ei berchen); dywedodd y ddau ymatebydd arall (un o safle preifat ac un o safle'r Cyngor) eu bod yn bwriadu symud i lety brics a morter rhent cymdeithasol.
- Nid yw’r un o’r tri ymatebydd yn berchen ar dir yn yr ardal Awdurdod Lleol ond hoffent gael eu hystyried fel safle posibl yn y dyfodol;
- Dim ond y ddau ymatebydd yn byw ar leiniau ar safleoedd preifat a ymatebodd i’r cwestiwn yn gofyn, os oeddynt yn chwilio am safle awdurdodedig, y byddant yn byw ar safle a reolir gan yr Awdurdod Lleol os byddai’r cynnig yn codi. Dywedodd un y byddai a dywedodd yr un arall na fyddant; a
- Dim ond un ymatebydd (o lain ar safle preifat) atebodd y cwestiwn yn gofyn, petai llain awdurdodedig ar gael mewn Awdurdod Lleol arall y byddant yn ystyried symud yno. Dywedodd yr ymateb na fyddent.

## Twf Aelwydydd

4.22 Yn Adran D o’r holiadur aelwyd, gofynnwyd i ymatebwyr ynghylch twf teulu a’r anghenion yn codi, i helpu’r Awdurdod Lleol ddeall y galw yn y dyfodol am lety rhent sy’n codi o aelwydydd cyfredol.

4.23 Pan ofynnwyd oes oedd unrhyw un yn yr aelwyd yn debygol o fod eisiau symud i gartref eu hunain yn y pum mlynedd nesaf, dywedodd 84% o ymatebwyr nag oeddynt, dywedodd 9% nad oeddynt yn gwybod a dywedodd 7% y byddent (Tabl 4.13). O’r chwe ymatebydd a ddywedodd y byddent, roedd un yn byw mewn o lety brics a morter, tri yn byw ar lain ar safle'r Cyngor a dau yn byw ar leiniau ar safleoedd preifat.

| Tabl 4.13 Trefn newydd yr aelwyd o fewn y pum mlynedd nesaf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oes unrhyw un yn eich aelwyd chi'n debygol o fod eisiau symud i'w cartref eu hunain yn y pum mlynedd nesaf?** | | **Math o lety** | | | | |
| | | **Cyfanswm** | **Brics a Morter:** | **Llain ar Safle'r Cyngor** | **Llain ar Safle Breifat** |
| **Cyfanswm** | **Nifer** | **81** | **20** | **26** | **35** |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| Oes | Nifer | **6** | 1 | 3 | 2 |
| | Col % | **7%** | 5% | 12% | 6% |
| Nac oes | Nifer | **68** | 16 | 21 | 31 |
| | Col % | **84%** | 80% | 81% | 89% |
| Ddim yn gwybod | Nifer | **7** | 3 | 2 | 2 |
| | Col % | **9%** | 15% | 8% | 6% |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

4.24 Pan ofynnwyd petai hyn yn gallu bod yn yr Awdurdod Lleol hwn, dywedodd un na fyddent, roedd well gan ddau beidio â dweud, a dywedodd tri ymatebydd (un llety brics a morter a dau o safle'r Cyngor) y byddent. Cafwyd rhagor o wybodaeth gan y tri ymatebydd a nododd y byddai trefn newydd i aelwydydd yn codi ac yn ceisio am lety yn ardal Awdurdod Lleol Sir y Fflint:

- Roedd cyfanswm o bedwar aelwyd newydd wedi'u nodi (dau o aelwyd brics a morter a dau o aelwyd yn byw ar leiniau ar safle'r Cyngor);
- O ran maint yr aelwydydd, roedd un yn cynnwys un unigolyn, roedd dau yn cynnwys dau unigolyn ac un yn cynnwys pedwar unigolyn;
- Mae Tabl 4.14 yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â'r math o lety sy'n ofynnol gan drefn newydd i aelwydydd. Roedd dwy drefn newydd i aelwyd yn codi o aelwyd brics a morter presennol eisiau safle neu dŷ. O'r ddwy aelwyd gyda threfn newydd yn codi o ddwy aelwyd ar wahân yn byw ar leiniau ar safle'r Cyngor, dywedodd un bod angen llety symudol ar safle preifat a dywedodd arall y bydd angen llety statig; a
- Mae Tabl 4.15 yn nodi'r amseroedd natur yr aelwyd newydd. Bydd un yn ffurfio o fewn blwyddyn; bydd dau yn ffurfio o un i ddwy flynedd; ac un yn ffurfio mewn dwy i bum mlynedd.

**Tabl 4.14 Math o lety sy'n ofynnol gan aelwydydd gyda threfn newydd**

| Math o lety sydd ei angen | | Math o lety: Cyfanswm | Brics a Morter: | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | **Nifer** | **4** | **2** | **2** | |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | |
| Safle Preifat ar gyfer Llety Teithiol | Nifer | **1** | | 1 | |
| | Col % | **25%** | | 50% | |
| Safle neu Dŷ | Nifer | **2** | 2 | | |
| | Col % | **50%** | 100% | | |
| Statig | Nifer | **1** | | 1 | |
| | Col % | **25%** | | 50% | |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

Sylwer: Nododd 3 ymatebydd y bydd 4 trefn aelwyd newydd o fewn Sir y Fflint yn y pum mlynedd felly mae sail o 4 yn cael ei ddefnyddio yn y Tabl hwn.

**Tabl 4.15 Amseriad trefn newydd i aelwyd**

| Pryd fydd angen y llety newydd? | | Math o lety: Cyfanswm | Brics a Morter | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **Nifer** | **4** | **2** | **2** | |
| | Col % | **100%** | **100%** | **100%** | |
| O fewn blwyddyn | Nifer | **1** | | 1 | |
| | Col % | **25%** | | 50% | |
| 1-2 flynedd | Nifer | **2** | 1 | 1 | |
| | Col % | **50%** | 50% | 50% | |
| 2-5 flynedd | Nifer | **1** | 1 | | |
| | Col % | **25%** | 50% | | |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

Sylwer: Nododd 3 ymatebydd y bydd ffurfio 4 aelwyd newydd o fewn Sir y Fflint yn y pum mlynedd felly mae sail o 4 yn cael ei ddefnyddio yn y Tabl hwn.

4.25 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr yn yr arolwg aelwyd os oedd ganddynt aelodau o'r teulu yn byw tu allan i'r ardal sydd yn gwersylla yn Sir y Fflint yn rheolaidd. Mae'r canfyddiadau wedi'u nodi yn Nhabl 4.16. O'r 81 ymateb, dywedodd 53% nad oedd ganddynt, a 11% yn dweud bod ganddynt, dywedodd 30% nad oeddynt yn gwybod ac roedd well gan 6% beidio â dweud. O'r 11% (9 ymatebydd) a

ddywedodd bod ganddynt, roedd hyn yn cynnwys pedwar ymatebydd o'r lleiniau ar safle'r Cyngor a phump llain ar safleoedd preifat.

**Tabl 4.16 Aelodau o'r teulu o du allan i Sir y Fflint sydd yn gwersylla yma**

| Oes gennych chi aelodau o'r teulu o du allan i Sir y Fflint sydd yn gwersylla yma'n rheolaidd? | | Math o lety | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Brics a Morter: | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
| **Cyfanswm** | **Nifer** | **81** | **20** | **26** | **35** |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| Oes | Nifer | **9** | | 4 | 5 |
| | Col % | **11%** | | 15% | 14% |
| Nac oes | Nifer | **43** | 11 | 13 | 19 |
| | Col % | **53%** | 55% | 50% | 54% |
| Ddim yn gwybod | Nifer | **24** | 9 | 7 | 8 |
| | Col % | **30%** | 45% | 27% | 23% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | Nifer | **5** | | 2 | 3 |
| | Col % | **6%** | | 8% | 9% |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

## Angen am safle tramwy

4.26 Gofynnwyd yn yr arolwg aelwydydd os oedd ymatebwyr wedi gwersylla ar ochr y ffordd, ar wersyll diawdurdod neu ar safle tramwy yng Nghymru wrth deithio yn ystod y flwyddyn diwethaf. Mae'r canfyddiadau yn Nhabl 4.17. Mae hwn yn dangos cyfanswm pedwar ymatebydd (5%) a wnaeth ddweud eu bod wedi gwersylla.

**Tabl 4.17 Defnydd ochr y ffordd, diawdurdod a safle tramwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf**

| Ydych chi wedi gwersylla ar ochr y ffordd, mewn gwersyll diawdurdod neu ar safle tramwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? | | Math o lety | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Brics a Morter: | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
| **Cyfanswm** | **Nifer** | **81** | **20** | **26** | **35** |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| Do | Nifer | **4** | | 2 | 2 |
| | Col % | **5%** | | 8% | 6% |
| Naddo | Nifer | **76** | 19 | 24 | 33 |
| | Col % | **94%** | 95% | 92% | 94% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ddim yn gwybod | Nifer | **1** | 1 | | |
| | Col % | **1%** | 5% | | |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

4.27 O ran pa ardaloedd awdurdod lleol y mae ymatebwyr wedi gwersylla, dywedodd dau ymatebydd *"ar y ffordd i'r Sioe Frenhinol*" neu genhadaeth Gristnogol arall. Dywedodd dau ymatebydd y DU neu Gymru a Lloegr ar y cyfan a heb ddarparu lleoliadau penodol. Dywedodd un eu bod yn teithio i "*leoliad gwahanol yn yr haf*" a dywedodd un "*yn y Gogledd - ardal Newcastle*".

4.28 Pan ofynnwyd am ba mor hir y byddent fel arfer yn aros mewn un lle wrth deithio, rhoddwyd gwahanol ymatebion fel y dengys yn Nhabl 4.18.

**Tabl 4.18 Hyd y gwersylla**

| **Pa mor hir y byddech fel arfer yn aros mewn un lle wrth deithio?** | | **Math o lety** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfanswm** | **Brics a Morter:** | **Llain ar Safle'r Cyngor** | **Llain ar Safle Breifat** |
| **Cyfanswm** | **Nifer** | **7** | **3** | **2** | **2** |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| 1-2 diwrnod | Nifer | **2** | | 1 | 1 |
| | Col % | **29%** | | 50% | 50% |
| 3 diwrnod – 1 wythnos | Nifer | **2** | | 1 | 1 |
| | Col % | **29%** | | 50% | 50% |
| 1-2 wythnos | Nifer | **1** | 1 | | |
| | Col % | **14%** | 33% | | |
| 2 wythnos – 1 mis | Nifer | **2** | 2 | | |
| | Col % | **29%** | 67% | | |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

4.29 Yn yr holiadur gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a oeddynt yn ystyried bod angen mwy o safleoedd tramwy yng Nghymru. Mae'r canfyddiadau wedi'u nodi yn Nhabl 4.19. Ar sail 80 o ymatebwyr, dywedodd 56% eu bod yn credu bod angen, 30% ddweud nad oeddynt angen mwy ac roedd well gan 14% beidio â dweud.

4.30 Ceisiwyd cynnal cyfweliadau gyda Theithwyr yn gwersylla ar wersylloedd diawdurdod yn ystod cyfnod yr astudiaeth, ond gwrthododd pob un a ofynnwyd i gymryd rhan yn yr arolwg. Mae'r cynigion hyn wedi'u rhestru o fewn y cofnodion cyfweld. Fodd bynnag, rydym wedi cynnwys yn atodiad C rhestr o wersylloedd diawdurdod ar gyfer y cyfnod astudiaeth a hefyd cyfnod arwyddocaol yn arwain at yr astudiaeth.

**Tabl 4.19 Yr angen am ragor o safleoedd tramwy yng Nghymru**

| Ydych chi'n credu bod angen rhagor o safleoedd tramwy yng Nghymru? | | Math o lety: Cyfanswm | Brics a Morter: | Llain ar Safle'r Cyngor | Llain ar Safle Breifat |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **Nifer** | **80** | **19** | **26** | **35** |
| | Col % | **100%** | 100% | 100% | 100% |
| Ydw | Nifer | **45** | 13 | 13 | 19 |
| | Col % | **56%** | 68% | 50% | 54% |
| Nac Ydw | Nifer | **24** | 5 | 8 | 11 |
| | Col % | **30%** | 26% | 31% | 31% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | Nifer | **11** | 1 | 5 | 5 |
| | Col % | **14%** | 5% | 19% | 14% |

Ffynhonnell: Data ymateb arolwg gwaith maes, 2016

## Arolwg Rhanddeiliaid

4.31 Gwahoddwyd rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn arolwg wedi anelu at nodi ystod o wybodaeth, gan gynnwys sefydlu materion gweledig allweddol sy'n wynebu cymuned Sipsiwn a Theithwyr a Pherfformwyr o fewn Sir y Fflint, a ffyrdd y bydd angen mynd i'r afael â'r rhain. Gofynnwyd i randdeiliaid i ymateb i unrhyw un o'r cwestiynau o fewn yr arolwg. Cafwyd 11 ymateb ar wahân i ymgynghoriad rhanddeiliad gan ystod o sylwadau gan awdurdodau lleol, sefydliadau iechyd a chymunedol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ateb y cwestiynau yr oeddynt yn deimlo eu bod yn berthnasol i'w gwybodaeth a phrofiad yn unig. Mae hwn yn grynodeb ansoddol o safbwyntiau a ddatganwyd gan rhanddeiliaid yn ymateb i'r arolwg ar-lein.

## Cefnogaeth i Sipsiwn a Theithwyr

4.32 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd digon o ddealltwriaeth o anghenion addysg, cyflogaeth, iechyd a chefnogaeth Sipsiwn, teithwyr a Pherfformwyr Teithiol o fewn yr ardal astudiaeth. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y gellir gwneud mwy i fynd i'r afael â hyn, megis hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth i fynd i'r afael â rhagfarn, a darparu gwybodaeth ynghylch cymunedau Teithiol.

4.33 Hefyd roedd ymatebwyr yn teimlo bod anghenion iechyd, addysg, llety a chefnogaeth Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol yn anodd ei fonitro, ac felly roedd y mwyafrif yn teimlo bod y rhain yn annhebygol o gael eu monitro'n gywir. Gofynnodd un ymatebydd os oedd adnoddau ar gael ar gyfer monitro cynyddol.

4.34 Dywedodd dau ymatebydd, yn eu barn hwy, bod angen cefnogaeth ychwanegol i gynorthwyo Teithwyr o fewn yr ardal astudiaeth. Eto, nodwyd materion ynghylch adnoddau i unrhyw ddarpariaeth newydd.

4.35 Er hyn, dywedodd un rhanddeiliaid os byddai gwasanaethau yn ymgysylltu â theithwyr, a chyda dealltwriaeth o'u hanghenion ac yn darparu gwasanaethau i gefnogi'r adnoddau hyn, ni fyddai angen rhagor o gefnogaeth.

4.36 Nid oedd y mwyafrif o ymatebwyr yn credu bod ymwybyddiaeth ddigonol o anghenion diwylliannol, cefnogaeth a llety Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol yn yr ardal astudiaeth. Awgrymodd ymatebwyr mai'r aelodau etholedig; pobl sy'n gwneud penderfyniadau a'r gymuned ehangach sydd gyda'r ymwybyddiaeth leiaf o ran yr anghenion.

4.37 Gwnaethpwyd gwahanol awgrymiadau i fynd i'r afael â hyn.

- Dylai hyfforddiant ymwybyddiaeth Sipsiwn a Theithwyr fod yn orfodol ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus sydd yn gweithio gyda'r cyhoedd a dylai fod yn rhan o hyfforddiant proffesiynol megis Swyddogion Tai, Gweithiwr Cymdeithasol;
- Negeseuon cadarnhaol gan arweinwyr statudol mewn llywodraeth leol i gyfryngau a chymunedau i sicrhau bod cynhwysiant a negeseuon positif ynghylch y gymuned a'u hanghenion wedi'u gosod yn y cyd-destun lleol; a
- Asesu'r angen am wasanaeth cefnogaeth gymunedol sydd ar wahân i'r awdurdod lleol gyda chyllid digonol i wneud gwahaniaeth i ymgysylltiad.

4.38 Mae ymatebion yn nodi bod ychydig o weithredoedd a gyflawnwyd i godi ymwybyddiaeth o ofynion diwylliannol, cefnogaeth a llety o Deithwyr yn yr ardal astudiaeth. Mae hyn yn cael ei wneud drwy ddigwyddiadau, gweithdai a hyfforddiant. Er dywedodd un ymatebydd oherwydd cyfyngiadau cyllideb, bod gwaith gyda Sipsiwn a Theithwyr heb fod yn flaenoriaeth.

## Darparu llety

4.39 Gofynnwyd i rhanddeiliaid ymateb i gyfres o gwestiynau sy'n berthnasol i'r angen am ddarpariaeth llain newydd (parhaol a thramwy), darpariaeth llain gyfredol, aelwydydd yn byw mewn llety brics a morter, a gweithgaredd gwersylla diawdurdod.

4.40 Dim ond un ymatebydd oedd yn teimlo bod digon o ddarpariaeth o leiniau parhaol i Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol yn yr ardal astudiaeth. Roedd tri ymatebydd yn teimlo nad oedd digon o ddarpariaeth.

4.41 O ran lleoliadau darpariaeth newydd, gwnaeth yr ymatebwyr y pwyntiau canlynol:

- Dylai safleoedd gael eu lleoli pellter rhesymol o gyfleusterau addysg, iechyd a siopau;
- Dylai safleoedd newydd ystyried safbwyntiau aelodau'r gymuned;
- Ni ddylai safleoedd gael eu lleoli yn rhy agos i safleoedd presennol ond mewn ardaloedd tebyg;
- Dylai bodloni anghenion Sipsiwn a Theithwyr lleol fod yn flaenoriaeth; a
- Deall safbwyntiau o ran lle byddai'r Sipsiwn a Theithwyr eisiau'r safleoedd yn bwysig iawn.

4.42 Nododd nifer o ymatebwyr y bydd gwrthwynebiad gan gymuned sefydlog i'r ddarpariaeth o safleoedd newydd yn broblem.

4.43 Bu i ymatebwyr nodi'r rhwystrau canlynol o'r ddarpariaeth newydd:

- Diffyg ewyllys gwleidyddol;
- Camddealltwriaeth ynghylch ffordd o fyw Sipsiwn a Theithwyr o'r gymuned sefydlog;
- Gwrthwynebiad ac anoddefiad cymunedol (safbwyntiau ymgloddedig ac anghywir o Sipsiwn a Theithwyr o'r gymuned sefydlog) a;
- Sylw'r wasg/ cyhoeddusrwydd negyddol, yn arbennig mewn perthynas â gwersylloedd diawdurdod.

4.44 Roedd pum ymatebydd yn teimlo bod angen darpariaeth tramwy yn yr ardal astudiaeth; nid oedd yr un ymatebydd yn teimlo nad oedd ei angen, er bod rhai yn ansicr. Y prif safbwynt oedd bod angen safleoedd tramwy ar draws Gogledd Cymru, gan ei fod yn fan stopio ar gyfer nifer o Deithwyr, ac mae adroddiadau cyson o wersylloedd diawdurdod.

4.45 Y lleoliadau a nodwyd gan yr ymatebwyr ar gyfer gwersylloedd diawdurdod oedd Greenfield, Treffynnon a Glannau Dyfrdwy.

4.46 Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo bod arwyddocâd crefyddol am wahanol safleoedd yn Sir y Fflint i Deithwyr Gwyddelig, yn arbennig e.e. arwyddocâd crefyddol o Ffynnon Gwenfrewi/ Treffynnon. Hefyd, maent yn credu bod angen darparu darpariaeth tramwy er mwyn hwyluso presenoldeb, heb amharu ar draffig a'r gymuned leol. Bydd y gymuned leol a lle maent yn stopio'n draddodiadol yn nodi ardaloedd arwyddocaol eraill sydd efallai angen darpariaeth tramwy. Ychwanegwyd yn draddodiadol, lle mae safle parhaol eisoes, mae darpariaeth tramwy yn cefnogi cysylltiadau teuluol, cymdeithasol a chrefyddol ac yn torri effeithiau i gydlyniant cymunedol cadarnhaol.

4.47 Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo bod rhwystrau i'r ddarpariaeth o lety tramwy o fewn yr ardal astudiaeth. Roedd y rhwystrau a nodwyd yn debyg i'r rheiny ar gyfer darpariaeth parhaol ac yn cynnwys:

- Diffyg negeseuon cadarnhaol ynghylch y gymuned deithiol;
- Ofn y bydd safleoedd tramwy yn fannau stopio parhaol; a
- Anoddefgarwch a rhagfarn cymuned sefydlog.

4.48 Roedd gan ymatebwyr brofiad uniongyrchol cyfyngedig o Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr cyfredol yn yr ardal astudiaeth. Nododd un ymatebydd eu bod yn teimlo bod y safleoedd yr oeddynt ynddynt yn cydymffurfio â'r gofynion. Roedd ymatebydd arall yn teimlo bod rheoli'r safleoedd hyn angen bod yn fwy cadarn, a dylai'r safleoedd gael eu rheoli ar sail sydd yn fwy cyson gyda ffurfiau eraill o dai cymdeithasol.

4.49 Nodwyd bod tensiynau rhwng Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned sefydlog gan nifer o ymatebwyr. Hefyd nodwyd bod problemau rhwng Teithwyr Gwyddelig a Sipsiwn, gan gynnwys tensiynau hanesyddol ac anghydfodau teuluol.

4.50 Nododd ymatebwyr bod Perfformwyr Teithiol yn byw mewn llety brics a morter yn yr ardal astudiaeth. Nodwyd mai diffyg safleoedd dros dro yw'r prif reswm bod llety brics a morter yn cael ei ddefnyddio.

4.51 Gofynnwyd i rhanddeiliaid os dylid bod rhagor o leiniau ychwanegol ar gael i deuluoedd Teithio sydd yn byw mewn llety brics a morter. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo mai'r arolwg gwaith maes oedd i'w hysbysu, a dim ond y Teithwyr hynny sydd yn byw mewn llety brics a morter fydd yn gwybod beth yw'r ateb. Roedd un ymatebydd yn teimlo bod angen mwy o leiniau oherwydd diwylliant dyheadau ymysg y ddemograffeg hon a'r angen i fod yn breswylydd ar safle Teithwyr. Mae hyn oherwydd bod pobl dal yn dymuno cydlynu â'u norm diwylliannol traddodiadol o gartref ôl-gerbydau/ carafán ac fel nad yw eu plant yn colli eu diwylliant nomadaidd a threftadaeth/ traddodiadau.

4.52 Nid oedd y mwyafrif o ymatebwyr yn gwybod os oedd digon o gefnogaeth ar gael i Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithio sy'n byw mewn llety sefydlog yn yr ardal astudiaeth i'w helpu i reoli eu tai yn effeithiol. Nododd un ymatebydd: *"mae teuluoedd yr ydym wedi gweithio â hwy yn cael eu cyfeirio at ddechrau i asiantaethau lleol ond maent yn dod yn ôl i gael cefnogaeth barhaus..."* Ychwanegwyd eu bod yn credu bod hyn oherwydd diffyg dealltwriaeth am anghenion a gofynion y gymuned Teithiol gan grwpiau a gwasanaethau cefnogi.

4.53 Nid oedd y mwyafrif o ymatebwyr yn gwybod os oedd Sipsiwn , Teithwyr a Pherfformwyr Teithio yn teimlo'n ddiogel mewn llety brics a morter yn yr ardal astudiaeth. Nododd un ymatebydd nad oedd "*dim trosedd casineb wedi'i adrodd*" yn yr ardal astudiaeth, tra bod un arall yn teimlo bod rhai yn teimlo'n unig mewn llety brics a morter sydd yn gallu "*arwain at broblemau iechyd meddwl yn aml iawn*".

## Gwersylloedd Diawdurdod

4.54 Nid oedd ymatebwyr yn teimlo bod gwersylloedd diawdurdod yn broblemus ar gyfer eu sefydliadau.

4.55 Bu i nifer o ymatebwyr nodi sut mae gwersylloedd diawdurdod yn achosi problemau negyddol, creu rhagfarn ac yn atgyfnerthu dirnadaeth stereoteipiedig Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r profiadau negyddol hyn yn effeithio ar sut mae safbwyntiau cymuned sefydlog o holl Sipsiwn a Theithwyr, dim y rhai sy'n meddiannu gwersylloedd diawdurdod yn unig.

## Polisi Cynllunio

4.56 Roedd ymatebwyr yn teimlo bod polisïau cynllunio wedi cyfyngu ar ddarpariaeth safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Eglurodd un ymatebydd bod "polisi *rhwystr glas yng Nghynllun Datblygu Unedol wedi'i ddefnyddio i wrthod darpariaeth safleoedd newydd ond wedi ei ddefnyddio i wrthod darpariaeth o safleoedd newydd, ond ôl fwy nag un achlysur wedi ei gwrthdroi gan arolygydd cynllunio yn dilyn apêl/apeliadau ym mhob achos ar sail diffyg darpariaeth o safleoedd*". Dywedodd ymatebydd arall bod "*Cymal 115 a'i effaith bosibl ynghylch 'statws sipsiwn' a gorfod profi 'statws normadaidd' yn cael effaith yn barod ar rai penderfyniadau cynlluniau yn y gymuned, a gall hyn hon waethygu yn y dyfodol. Mae llawer o*

*awdurdodau lleol sydd yn dewis gwneud dim ynghylch Cynlluniau Lleol ayyb, yn dilyn y newidiadau, sydd yn ychwanegu at yr effaith oherwydd ni fydd neb yn diwallu'r meini prawf newydd, ac mae'r mwyafrif o gynllunio ar gyfer cynllunio dros dro ar gyfer datblygiadau preifat, felly bydd hyn yn cael effaith cynyddol".*

4.57 Roedd yr ymatebion ynghylch beth yn rhagor y gellir ei wneud drwy bolisi cynllunio i nodi a chael mwy o safleoedd newydd yn gyfyngedig. Awgrymwyd y dylai "*darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr gael ei ystyried fel darpariaeth tai fforddiadwy yn lleol a chenedlaethol gan Llywodraeth Cymru*". Roedd un ymatebydd yn teimlo bod mwy y gellir ei wneud ond dylai hyn fod yn rhan o asesiad o anghenion a phrosesau cynllunio, tra'r oedd un arall yn teimlo "y *dylai fod yn eithaf syml i adnabod a dyrannu tir addas ar gyfer safleoedd o'r fath yn y Cynllun Datblygu*".

## Materion Traws-ffiniol

4.58 Gan edrych ar ardal safle presennol Sir y Fflint, gofynnwyd i ymatebwyr o awdurdodau lleol cyfagos i nodi sut roedd eu Hasesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr diweddar wedi ystyried hyn. Nododd un nad oeddynt wedi gweld fersiwn terfynol GTAA o'u hawdurdod; nododd un arall bod dwy aelwyd o Sir y Fflint wedi'i gyflwyno i Gonwy fel bod angen drwy eu proses GTAA, ond heb gysylltiad lleol amlwg wedi'i gynnwys.

4.59 Roedd pedwar ymatebydd yn ymwybodol o symudiadau rheolaidd Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithio o ardaloedd cyfagos i mewn neu allan o'r ardal astudiaeth. Cydnabuwyd symudiadau ar hyd yr A55, ochr yn ochr â symudiadau "*yn bennaf echel ddwyreiniol/ orllewinol drwy Sir y Fflint o awdurdodau cyfagos yng Nghymru a Lloegr".*

4.60 Nid oedd ymatebwyr yn ymwybodol o unrhyw Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr o fewn eu hawdurdodau lleol sydd yn pontio gyda ffin Sir y Fflint. Hefyd nid oeddynt yn ymwybodol o unrhyw safleoedd/ lleoliadau yn ymyl ffin Sir y Fflint lle'r oedd anawsterau wedi codi o ran safleoedd, cyfyngiadau cynllunio neu faterion eraill mewn perthynas â Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithio.

4.61 Nododd yr ymatebwyr y rhain yn dilyn canlyniadau allweddol ar gyfer yr astudiaeth mewn perthynas â materion traws ffiniol:

- I godi ymwybyddiaeth o'r angen;
- I sefydlu sail tystiolaeth gadarn i hysbysu'r cynllun datblygu - yn ddelfrydol i'r graddau bod cwantwm y ddarpariaeth yn gallu cael ei nodi a'i gyfiawnhau sydd felly yn cynorthwyo i nodi tir priodol gael ei ddyrannu yn y cynllun yn hytrach na dibynnu ar bolisi ar sail meini prawf;
- Ystyried anghenion y rheiny sydd mewn llety brics a morter ond sydd eisiau byw ar safle; a
- Sicrhau bod cymunedau buddiant yn ymgyngoreion canolog o fewn unrhyw astudiaeth.

# 5. Asesu anghenion llety

## Cyflwyniad

5.1 Pwrpas y Pennod hon yw cyflwyno data ynghylch anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr a'r graddau bod angen nas diwallwyd ar gyfer lleiniau preswyl a thramwy.

## Angen Preswyl nas diwallwyd

5.2 Mae Pennod 3 Canllaw Llywodraeth Cymru, *Cyflawni Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr (Mai 2015)* yn nodi’r broses i asesu anghenion llety. Mae’r Canllaw yn ystyried:

- Cyflenwad llain preswyl cyfredol,
- Cyflenwad llain preswyl wedi’i gynllunio,
- Galw cyfredol am breswyl,
- Galw yn y dyfodol am breswyl, a
- Twf aelwyd yn y dyfodol.

5.3 Defnyddir data GTAA i nodi’r nifer o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr a fydd angen rhagor o leiniau ar unwaith, o fewn 5 mlynedd neu dros gyfnod y Cynllun Datblygu. Mae hyn yn cynnwys:

- Mae’r mathau o lety sy’n ofynnol i ddiwallu’r angen (h.y. safleoedd preswyl neu dramwy, safleoedd penodol ar gyfer Perfformwyr Teithio neu Sipsiwn Romani/ Teithwyr Gwyddelig ayyb);
- Mae’r nifer o aelwydydd sydd yn preswylio eisoes yn yr Awdurdod Lleol mewn llety anaddas (h.y. gorlawn, byw mewn tai confensiynol gydag anhoffter ayyb);
- Lefel o aelwydydd ar ddatblygiadau diawdurdod neu ar safleoedd diawdurdod gyda chaniatâd dros dro, sydd yn debygol o gynyddu’r angen nas diwallwyd os na roddir caniatâd cynllunio;
- Mae’r gyfradd tebygolrwydd o drefn yr aelwyd (h.y. oedolion ifanc eisiau eu lleiniau eu hunain, mudo ac aelwydydd yn diddymu ayyb); a
- Nifer yr aelwydydd gyda chyfle realistig i symud i fath dewisol o lety, a all ryddhau lleiniau rhydd neu capasiti brics a morter.

5.4 Mae’r cydrannau o’r dadansoddiad yn dod at ei gilydd yn Nhabl 3 o'r Canllaw Llywodraeth ac wedi’i fanylu yn Nhabl 5.1. Mae hwn yn darparu fframwaith ar gyfer dadansoddi gofynion lleiniau ar gyfer Sir y Fflint.

| **Tabl 5.1 Amcangyfrif o'r angen am leiniau safle preswyl** | | |
|---|---|---|
| **Cyflenwad preswyl cyfredol** | **Nifer y lleiniau** | |
| A. Lleiniau Awdurdod Lleol wedi'u Meddiannu | A=**20** | |
| B. Lleiniau preifat awdurdodedig wedi'u meddiannu | B=**26** | |
| **Cyfanswm** | **A+B=46** | |
| **Cyflenwad preswyl wedi'i gynllunio** | **Nifer y lleiniau** | |
| C. Lleiniau Awdurdod Lleol Gwag a lleiniau preifat gwag sydd ar gael | C=**3** | |
| D. Lleiniau a ddisgwylir i ddod yn wag yn y dyfodol agos | D=**8** | |
| E. Lleiniau preifat ac Awdurdod Lleol newydd gyda chaniatâd cynllunio | E=**24** | |
| Cyfanswm | **C+D+E=35** | |
| **Galw cyfredol am breswyl** | **Galw am lain** | |
| F. Gwersylloedd Diawdurdod | F=**0** | |
| G. Datblygiad diawdurdod | G=**12** | |
| H. Lleiniau Gorlawn | H=**11** | |
| I. Tai Confensiynol | I=**1** | |
| J. Aelwydydd newydd i gyrraedd | J=**2** | |
| **Cyfanswm** | **F+G+H+I+J=26** | |
| **Aelwydydd cyfredol** | **Aelwydydd yn y dyfodol (ym mlwyddyn 5)** | **Aelwydydd yn y dyfodol (Cyfnod y cynllun)** |
| K. CYFANSWM K1=64 | K2=**69** | K3=**92** |
| L. Angen llain ychwanegol i aelwyd | L1=**5** | L2=**28** |
| Angen nas diwallwyd | **Angen yn codi** | **Angen wedi'i gymhwyso** |
| M. Galw cyfredol am breswyl | M=**26** | |
| N. Galw preswyl yn y dyfodol (5 mlynedd) | N=**5** | |
| O. Galw preswyl yn y dyfodol (cyfnod y cynllun) | O=**28** | |
| P. Cyflenwad preswyl wedi'i gynllunio | | P=**35** |
| Q. Angen nas diwallwyd (5 mlynedd) | **Q=-4** | |
| R. Angen nas diwallwyd (Cyfnod y cynllun) | **R=20** | |

Ffynhonnell: Canllaw Llywodraeth Cymru, *Cyflawni Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithiwr*, Tabl 3

## Cyflenwad cyfredol o ran preswyl (A a B)

5.5 Mae'r data diweddaraf ar gyflenwad llain preswyl wedi'i ddarparu gan y Cyngor ac wedi'i gyflwyno ym Mhennod 2. Yn fras, mae:

- 20 llain awdurdodedig y Cyngor wedi'u meddiannu;
- 26 llain awdurdodedig breifat wedi'i awdurdodi

- Mae hyn yn dod â chyfanswm y cyflenwad yn 46 llain awdurdodedig wedi'u meddiannu.

5.6 Mae’r Canllaw Llywodraeth yn datgan "*gall rai berchnogion preifat wrthod mynediad i gyfwelwyr i’r safle, a all atal GTAA rhag adnabod lleiniau gwag posibl*. *Os yw hyn yn digwydd, dylid cymryd bod y safle wedi'i feddiannu'n llawn" (paragraff 145). O ran Sir y Fflint, gan fod mynediad wedi’i roi i bob safle, roedd modd sefydlu'r nifer o leiniau gwag a rhai wedi'u meddiannu ar safleoedd preifat.* Fodd bynnag, dylid nodi bod y cyflenwad cyfredol o breswyl yn cynnwys aelwydydd ar safleoedd a oddefir neu safleoedd gyda chaniatâd cynllunio dros dro.

## Cyflenwad llain preswyl wedi’i gynllunio (C i E)

5.7 Wrth ystyried cyflenwad llain preswyl wedi’i gynllunio, mae’r Canllaw yn gwneud cyfeiriad at lefydd gwag, trosiant a chyflenwad newydd.

## Lleoedd Gwag (C)

5.8 Mae’r nifer o leiniau gwag ar safleoedd Awdurdod Lleol a safleoedd preifat wedi’u sefydlu drwy broses gwaith maes. Mae cyfanswm o 0 llain gwag ar safle’r awdurdod lleol ac mae 3 ar safleoedd preifat, a gan nad oes gan y rhain amodau caniatâd personol, maent wedi’u cynnwys yn y nifer o leoedd gwag.

## Trosiant (D)

5.9 Mae’r Canllaw Llywodraeth yn nodi "*i adnabod nifer o leiniau awdurdodedig a ddisgwylir i ddod yn wag yn y dyfodol agor, dylai Awdurdodau Lleol adolygu eu cofnodion rheoli safle i asesu trosiant llain blynyddol dros gyfnod o 5 mlynedd*” (paragraff 151). Mae’n gofyn y dylid defnyddio cyfradd trosiant blynyddol ar gyfartaledd mewn dadansoddiad. Mae’r Canllaw hefyd yn nodi “*hefyd, dylai Awdurdodau Lleol adolygu ymatebion arolwg i gwestiynau A6-7 ac Adran C. Mae'r ymatebion o'r cwestiynau hyn yn debygol o ddarparu dyheadau optimistaidd o aelwydydd sy’n bwriadu symud... gellir archwilio’r wybodaeth hon drwy Awdurdodau Lleol i bennu a ellir cytuno ar y dyheadau hyn*” (paragraff 152). Lle mae gan aelwydydd ddymuniad i symud i dai confensiynol ac mae’r awdurdod lleol yn dymuno i gynnwys y lleiniau sy’n cael eu meddiannu ar hyn o bryd gan yr aelwydydd hyn fel rhai sydd am ddod yn wag yn y dyfodol agos, mae’n rhaid iddynt allu dangos bod yr aelwyd yn sicrhau llety arall (paragraff 153).

5.10 Mae Canllaw Llywodraeth yn nodi bod “*lefelau cyfredol o foddhad gyda llety cyfredol yn darparu rhyw arwydd os yw aelwydydd yn debygol o aros yn eu llety*" (paragraff 154). Yn y bôn, gall welliannau i’r llety olygu nad yw’r aelwyd eisiau symud bellach.

5.11 Byddai dadansoddiad o fwriadau symud yn awgrymu y byddai 21 aelwyd ar leiniau awdurdodedig yn bwriadu symud yn y 5 mlynedd nesaf. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o 40 aelwyd sydd wedi symud i leiniau awdurdodedig yn y 5 mlynedd diwethaf, dyma trosiant llain blynyddol dros gyfnod o 5 mlynedd. Gan ddefnyddio’r cyfanswm trosiant llain flynyddol ar gyfer y cyfnod o 5 mlynedd,

gallwn ddweud bod y gyfradd llain flynyddol ar gyfartaledd yn 8 a hwn yw'r ffigur sydd wedi'i roi yn rhes D.

5.12 Argymhellir bod y Cyngor yn monitro trosiant yn rheolaidd ar safleoedd Awdurdod Lleol a rhai preifat ac yn diweddaru'r model yn unol â hynny.

## Cyflenwad newydd (E)

5.13 Mae Canllaw Llywodraeth yn nodi "*yn ychwanegol i'r asesiad o leiniau awdurdodedig presennol, dylai Awdurdodau Lleol ystyried faint o leiniau ychwanegol gyda chaniatâd cynllunio sydd ei angen i fod ar gael*. *Bydd hyn yn cynnwys safleoedd Awdurdod Lleol a safleoedd preifat, lle bydd y rhain ar gael i'w rhentu. Dylid cynnwys y lleiniau ychwanegol hyn fel rhan o gyflenwad llain preswyl wedi'i gynllunio" (paragraff 157).*

5.14 Mae'r model yn cynnwys 24 llain a ellir ei gyfrif fel naill ai lleiniau gwag presennol neu gyflenwad newydd awdurdodedig. Mae'r rhain yn benodol ar Corbitts/Lyons Yard yn Sandycroft (mae 17 llain ar y safle hwn sy'n disgwyl i gael eu hail-ddatblygu ac yn wag ar hyn o bryd yn aros am waith ailwampio), 5 llain yn Ewloe Barn Wood (mae'r rhain ar hyn o bryd yn cael eu datblygu) a 2 lain ar Oakenholt (mae'r rhain yn cael eu datblygu ar hyn o bryd).

5.15 Yn ôl data diweddaraf yr Awdurdod Lleol, cafodd dau gais eu cyflwyno yn ystod 2015 a gwrthodwyd y ddau.

## Cyflenwad llain preswyl wedi'i gynllunio

5.16 Cyfanswm cyflenwad llain preswyl wedi'i gynllunio yn cynnwys:

- 3 llain gwag (0 llain awdurdod lleol a 3 llain gwag preifat sydd ddim yn ddarostyngedig i amodau caniatâd personol);
- 8 llain drwy drosiant disgwyliedig;
- 24 llain breifat newydd sy'n cael eu datblygu ar safleoedd awdurdodedig; sy'n dod i gyfanswm o
- 35 llain dros y 5 mlynedd nesaf.

# Galw cyfredol am breswyl

5.17 Mae paragraff 164 o'r Canllaw yn nodi bod:

*"Gan gyfrifo'r lefel o alw preswyl cyfredol bydd angen i'r Awdurdodau Lleol asesu'r rhai hynny sydd ar:*

*a. wersylloedd diawdurdod gyda'r angen tebygol ar gyfer llety ar safle;*
*b. ddatblygiadau heb eu hawdurdodi heb ganiatâd cynllunio*
*c. safleoedd presennol tra bod mewn amodau gorlawn;*
*d. mewn tai confensiynol gydag atgasedd diwylliannol neu'n orlawn; a*
*e. aelwydydd newydd a ddisgwylir i gyrraedd yr ardal."*

5.18 Mae paragraffau 166 i 170 o'r Canllaw yn ystyried y mater o 'angen' a 'dewis' llain. Mae'r Canllaw yn awgrymu bod ystyriaeth o'r anghenion yn erbyn dewisiadau yn debygol o fod wedi canolbwyntio ar dair thema sylweddol:

a. Aelodau'r gymuned mewn tai confensiynol sydd yn hawlio'r angen am leiniau cartref symudol oherwydd atgasedd diwylliannol;

b. Aelodau'r gymuned sydd yn hawlio'r angen am leiniau cartref symudol mewn ardal awdurdod lleol gwahanol yna'r un sy'n cyflawni'r asesiad; a

c. Y rhai hynny sydd ar safleoedd awdurdodedig sy'n hawlio'r angen am leiniau cartref symudol mewn awdurdod lleol penodol sy'n cyflawni'r asesiad.

## Ar wersylloedd diawdurdod gyda'r angen tebygol ar gyfer llety ar safle (F)

5.19 Mae'r Cyngor yn cynnal data da ar weithgaredd gwersylloedd diawdurdod o fewn Sir y Fflint ac mae hyn wedi'i gyflwyno ym Mhennod 2. Dros gyfnod o fis Ionawr 2013 i fis Mawrth 2015, roedd 47 o wersylloedd diawdurdod ar draws Sir y Fflint (gweler Atodiad B). O'r rhain:

- Roedd 11 yn gysylltiedig â theulu sydd yn byw ar safle mewn awdurdod lleol arall;
- Roedd 10 yn gysylltiedig â theithwyr Gwyddelig/ Albanaidd ac mae gan rai aelodau teulu sydd â llety parhaol yn Swydd Gaer;
- Roedd 7 yn gysylltiedig â grŵp yr oedd y Cyngor wedi canfod llety iddynt;
- 4 ym mis Mawrth 2015 yn gysylltiedig â grŵp y cred eu bod wedi symud o Harlow, Essex, ac wedi cael gwaharddiad yn eu hatal rhag sefydlu safleoedd yn Harlow;
- Roedd 15 yn nifer bach o garafannau yn aros am gyfnodau byr, gyda'r mwyafrif (11) yn cynnwys un neu ddwy garafán.

5.20 Byddai dadansoddiad o ddata sydd ar gael yn awgrymu nad yw'r un aelwyd sydd ynghlwm â gweithgaredd gwersylloedd diawdurdod gyda'r angen am safle yn Sir y Fflint.

## Ar ddatblygiadau heb eu hawdurdodi heb ganiatâd cynllunio (G)

5.21 Mae tri safle ar hyn o bryd wedi'u meddiannu ac nid oes ganddynt ganiatâd cynllunio awdurdodedig.

5.22 Yn gyntaf, Dollar Park, Treffynnon sy'n safle breifat gyda chaniatâd cynllunio dros dro (roedd hwn tan 2016 ac wedi'i ymestyn yn ddiweddar am 5 mlynedd). Mae 7 llain wedi'u meddiannu ar y safle hwn yn cynnwys 9 teulu (gydag angen tybiedig am 7 llain ar gyfer teulu estynedig wedi'i feddiannu ar lain mwy ar y safle).

5.23 Yn ail, mae safle breifat ar Dundas Sidings, Factory Road, Sandycroft gyda 3 llain. Mae cais cynllunio yn aros ac adnabuwyd yn arolwg aelwydydd bod 5 aelwyd yn byw ar y safle felly mae 2 aelwyd yn ormod.

5.24 Yn drydydd, mae safle breifat ar Sister's Yard, Station Road, Sandycroft gyda chais cynllunio yn aros.

5.25 Bu i'r Cyngor adnabod dau safle pellach lle'r oedd ceisiadau cynllunio wedi'u cyflwyno yn 2015 a chafodd y ddau eu gwrthod.

5.26 Yn gyntaf, ym Mron Eifion, Ffynnongroyw, Tanlan, Treffynnon (4 llain/ 8 carafan). Gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar 27 Mai 2015 ac mae rhybudd gorfodi i'w gyflwyno. Nid oes apêl wedi'i gyflwyno hyd yma, a chafodd 1 aelwyd eu nodi i fod yn byw ar y safle ond ni chafwyd unrhyw gyfweliadau.

5.27 Yn ail, safle ar 1 Old Paper Mill Lane, Oakenholt, Fflint (2 lain/ 4 carafán) a gwrthodwyd caniatâd cynllunio ac mae rhybudd gorfodi wedi'i gyflwyno. Fodd bynnag, rydym yn deall bod caniatâd cynllunio wedi'i roi mewn apêl ym mis Hydref 2015 – ar adeg y Gwrandawiad Anffurfiol, roedd o leiaf un aelwyd yn cynnwys plant yn byw ar y safle. Ar gyfer modelu'r angen, rydym yn tybio bod capasiti ar gyfer 2 aelwyd er nad oedd y safle wedi'i feddiannu ac yn cael ei ailddatblygu ar adeg yr arolwg gwaith maes.

5.28 Felly, mae modelu gofynion llain yn tybied bod cyfanswm o **12** aelwyd yn byw ar hyn o bryd ar safleoedd awdurdodedig a diawdurdod dros dro yn Sir y Fflint.

## Ar safleoedd presennol wrth fod mewn amodau gorlawn (H)

5.29 Mae'r graddau y mae aelwydydd yn byw mewn amodau gorlawn wedi'i asesu gyda chyfeiriad at y safon ystafell wely. Mae'r safon ystafell wely wedi'i ddiffinio ym mharagraff 196 o'r Canllaw fel bod angen man cysgu ar wahân ar gyfer pob:

a. oedolion sy'n gwpl (yn briod neu'n cyd-fyw);

b. unrhyw oedolyn arall 16 oed neu drosodd;

c. pâr o blant dan 16 oed o'r un rhyw;

d. pâr o blant dan 10 oed ni waeth beth yw eu rhyw;

e. unrhyw blentyn arall.

5.30 Mae paragraff 197 i 198 yn nodi "o *fewn cartrefi symudol, dylai'r Safon Ystafell Wely fod yn berthnasol hefyd*. *Fodd bynnag, dylai fod yn fwy perthnasol i ardaloedd cysgu ar wahân, yn hytrach nag ystafelloedd gwely. Yn annhebyg i dai confensiynol, gall fod yn bosibl i liniaru unrhyw gorlenwi a nodwyd drwy ychwanegu cartref symudol ar y llain... heb amharu ar y canllaw Diogelwch tân a gynhwysir yn y canllaw Cynllunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru.*

5.31 Yn ôl dadansoddiad o aelwydydd yn byw ar leiniau, mae 40% angen 1 man cysgu, 46.4% angen dau fan cysgu, 10% angen 3 man cysgu a 3.8% angen 4 man cysgu ar eu llain. Gofynnwyd yng Nghwestiwn B2 os oedd digon o fannau cysgu ar gyfer yr holl breswylwyr a'r holl ymatebwyr sy'n byw ar y lleiniau yn nodi bod ganddynt ddigon o fannau cysgu. Byddai tystiolaeth arolwg felly yn nodi nad oes yr un aelwyd yn byw mewn llety gorlawn.

5.32 Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod **11** aelwyd yn gorfod 'dyblu' ar leiniau (9 ar Safle Awdurdod Lleol a 2 yn Dundas Sidings/Bridge Yard). Mae hyn yn cael ei gymryd fel angen o aelwydydd sy'n byw mewn amodau gorlawn.

## Mewn tai confensiynol gydag atgasedd diwylliannol neu'n orlawn (I)

5.33 Mae paragraffau 171 i 182 o'r Canllaw yn ystyried y mater o atgasedd diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr i fyw mewn tai confensiynol. Nodir ym Mharagraff 173 "*ymysg aelodau cymunedol sy'n byw mewn tai confensiynol, mae'n debygol bod rhai yn profi'r hyn a elwir yn "atgasedd diwylliannol" i'r math hwn o lety. Sef aelodau o'r gymuned sydd â thraddodiad o fyw mewn cartref symudol neu ar safleoedd, sydd yn cael trafferth i ymdopi i fyw mewn llety brics a morter."* Dywedodd paragraff 175 bod "*Awdurdodau Tai Lleol angen ystyried yn ofalus os oedd y rheiny a gyfwelwyd wedi nodi dewis o ran byw mewn safleoedd cartref symudol, yn gallu bod ag atgasedd diwylliannol i gynnal eu llety mewn tai confensiynol*. *Dylai'r ystyriaeth hwn gyfeirio at:*

*a. draddodiad diwylliannol aelwyd sy'n byw mewn cartrefi symudol;*

*b. rheswm dros symud i dai confensiynol;*

*c. tebygolrwydd o niwed i'r unigolyn os ydynt yn aros mewn tai confensiynol; a*

*d. datblygu achos cyfraith o ran y broblem o atgasedd diwylliannol."*

5.34 Bu i gyfanswm o 20 aelwyd yn byw mewn tai confensiynol eu cyfweld fel rhan o'r GTAA a Chwestiynau arolwg A2, A3 ac A7 i ddarparu data sydd yn canfod a yw unigolion yn credu bod ganddynt atgasedd diwylliannol i dai confensiynol.

5.35 O'r 20 aelwyd a gyfwelwyd, roedd 18 yn fodlon gyda'u llety cyfredol, roedd un wedi gwrthod ac un wedi dewis bod well ganddynt beidio â dweud.

5.36 Roedd 17 aelwyd wedi byw yn eu llety oherwydd cysylltiadau lleol (teulu neu waith), roedd well gan un fyw mewn tŷ na charafan, roedd un yn dewis byw yno ac roedd un achos ar goll.

5.37 Mae ymatebion i Gwestiwn A7 yn cynnwys 'well gen i fyw mewn carafán' ond ni nododd unrhyw aelwyd yr ateb hwn.

5.38 Byddai tystiolaeth o'r arolwg aelwydydd yn nodi nad oedd yr un o'r aelwydydd a gyfwelwyd ac yn byw mewn tai confensiynol gydag atgasedd diwylliannol i fyw yn y math hynny o lety.

5.39 Ynghylch gorlenwi, yn ôl dadansoddiad o aelwydydd yn byw ar leiniau, mae 35% angen 1 man cysgu, 50% angen dau fan cysgu, 10% angen 3 man cysgu a 5% angen 4 man cysgu yn eu cartref. Gofynnwyd yng nghwestiwn B2 os oedd digon o fannau cysgu i holl breswylwyr ond mae hyn yn berthnasol yn benodol i aelwydydd sydd yn byw ar leiniau. Gan ddweud hynny, o'r hol aelwydydd yn byw mewn llety brics a morter a ymatebodd, dywedodd pawb bod digon o fannau cysgu ar gyfer eu teulu.

5.40 Felly, gall tybied yn rhesymol nad yw'r un o'r aelwydydd sy'n byw mewn tai confensiynol yn byw dan amodau gorlawn.

5.41 Dywedodd un aelwyd y byddent yn hoffi symud i lain ac felly wedi'i gynnwys yng nghyfrifiad gofyniad llain.

## Aelwydydd newydd a ddisgwylir i gyrraedd yr ardal (J)

5.42 Fel rhan o'r asesiad o alw preswyl, mae'r dadansoddiad yn ystyried aelwydydd newydd a ddisgwylir i gyrraedd yn yr ardal. Mae'r Canllaw yn argymell bod hyn yn cael ei gyflawni drwy astudiaeth o ddata rhestr aros, cyfrif carafannau neu weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol. Hefyd, gall yr arolwg aelwyd nodi'r nifer o aelwydydd sydd wedi symud i Sir y Fflint yn ddiweddar.

5.43 Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd cyfanswm o 20 aelwyd wedi symud i'r llain bresennol. O'r rhain, roedd 12 wedi nodi eu man preswylio blaenorol, gyda 10 yn dod o Sir y Fflint a 2 wedi symud i mewn i'r Sir. Felly gellir amcangyfrif bod o leiaf 2 aelwyd wedi symud i'r Sir yn y flwyddyn diwethaf. Felly mae angen o leiaf 2 lain i aelwydydd sy'n symud i Sir y Fflint.

## Galw preswyl yn y dyfodol

5.44 Nododd Paragraff 203 o'r Canllaw "y dylai *twf aelwyd dyfodol disgwyliedig gael ei nodi gan atebion a ddarparwyd gan gyfranogwyr dan Adran D o'r holiaduron*. *Bydd hyn yn darparu amcangyfrif o aelwydydd ychwanegol dros gyfnod o bum mlynedd sy'n dod."*

5.45 Nododd yr arolwg aelwydydd cyfanswm o 5 aelwyd sydd yn debygol o gael ei greu yn y 5 mlynedd nesaf. O'r aelwydydd, roedd 2 yn bwriadu aros yn Sir y Fflint a ni nododd un dewis o ran lleoliad ac roedd well gan 1 beidio â dweud. O'r ddau sydd yn bwriadu aros yn Sir y Fflint, dywedodd y ddau fod gwell ganddynt fyw ar safle preifat/ mewn carafán statig.

5.46 Hefyd darparodd yr arolwg aelwyd dystiolaeth o'r proffil demograffeg o aelwydydd a nododd hyn gyfanswm o 9 aelod aelwyd a fydd o bosibl angen llety llain yn y 5 mlynedd nesaf. Gan dybied bod 50% o'r nifer hwn yn creu aelwydydd (ar sail rhaniad cyfartal yn ôl rhyw a dynion yn aros yn y Rhanbarth a merched yn symud i rywle arall sydd yn adlewyrchu tueddiadau sefydledig mewn ymddygiad teithwyr), gallai hyn arwain at angen am 5 (4.5 wedi'i dalgrynnu) llain ychwanegol. Wedi seilio ar gyfanswm cyfredol 64 aelwyd Sipsiwn a Theithwyr (Rhes K), byddai hyn yn cyfartalu at dwf aelwyd blynyddol o 1.5% sydd yn unol ag ystod twf blynyddol o 1.5% i 2.5% a nodir ym mharagraff 203 o'r canllaw.

## Twf aelwyd tymor hirach

5.47 Mae Paragraff 209 o'r Canllaw yn nodi "*gan fod amcangyfrif o dwf aelwyd wedi selio ar ddyheadau aelodau'r gymuned, byddai'n anodd rhagweld yn berffaith y twf yn fwy na 5 mlynedd. Fodd bynnag, mae'r GTAA yn dystiolaeth allweddol i danategu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl), sydd yn gweithredu dros amserlen hirach. I fynd i'r afael â'r pwynt hwn, dylai'r GTAA ddefnyddio'r un cyfradd twf amcangyfrifedig dros gyfnod CDLl llawn i gynhyrchu ffigwr ychwanegol o'r angen yn codi yn yr ardal Awdurdod Lleol."* Mae paragraff 210 yn parhau "*er bydd y broses hwn yn nodi angen llain mynegol dros fywyd y CDLl disgwylir bod y ffigur tymor hirach hwn yn cael ei adolygu bob tro mae GTAA yn cael ei ail-wneud*. *Bydd hyn yn sicrhau bod rhagweld y twf yn gallu bod mor gywir â phosibl a dylai gyfyngu graddau'r newidiadau sydd ei angen i'r CDLl bob tro y cyhoeddir GTAA."*

5.48 Byddai dadansoddiad o ddemograffeg aelwydydd yn awgrymu bod dros gyfnod 2021-2030, bod cyfanswm o 47 preswylydd angen llain a fyddai'n dod i 22 aelwyd ychwanegol yn byw ar leiniau (ar ôl tynnu'r angen preswyl 50% gan ystyried rhyw). Mae'r canlyniadau hyn yn angen llain cyffredinol o 92 dros gyfnod y cynllun. Fodd bynnag, mae'r methodoleg y canllaw i gyfrifo tymor hirach yn awgrymu'r defnydd o gyfraddau twf dros y 5 mlynedd cyntaf (1.52%) sydd dros gyfnod at 2030 yn arwain at angen is o 80 llain.

## Crynodeb aelwyd gyfredol ac yn y dyfodol

5.49 Mae cyfanswm data aelwyd dyfodol wedi'i grynhoi yn rhesi K a L o'r model anghenion. Y rhif gwaelodlin o aelwydydd (K) yw 64. Cyfanswm aelwydydd yn y dyfodol ym mlwyddyn 5 wedi'i gyfrifo fel 69 ac ar ddiwedd i gyfnod y cynllun yn 92 aelwyd. Mae hyn yn arwain at angen llain aelwyd ychwanegol o 5 llain dros y 5 mlynedd nesaf (yn ôl 2016-2020) a chyfanswm o 28 llain dros gyfnod y cynllun (5 llain yn y cyfnod 2016-2020 a 23 llain dros gyfnod o ddeng mlynedd 2021-2030).

## Angen cyffredinol ar gyfer lleiniau preswyl ychwanegol

5.50 Mae paragraff 212 o'r Canllaw yn nodi bod "*yr angen nad diwallwyd neu preswyl cyffredinol ar gyfer lleiniau preswyl ychwanegol i'w gweld drwy ychwanegu'r galw preswyl cyfredol a'r angen llain ychwanegol yn y dyfodol, a thynnu'r cyflenwad preswyl cynlluniedig. Bydd cydbwysedd o'r ffigurau hyn yn darparu angen nas diwallwyd ar gyfer y cyfnod o 5 mlynedd (rhes Q) a dros gyfnod y cynllun (rhes R).*"

5.51 Galw preswyl cyfredol (M) ar gyfer 26 lleiniau ychwanegol. Galw preswyl yn y dyfodol (5 mlynedd) ar gyfer 5 llain a dros gyfnod y cynllun yn 28 llain. Cyflenwad preswyl cynlluniedig (O) ar gyfer 35 llain.

5.52 Felly, ar gyfer Sir y Fflint, mae'r angen nas diwallwyd 5 mlynedd yn -4 llain, a thros gyfnod y cynllun mae angen 19 llain ychwanegol.

## Argymelliadau Pellach

5.53 Mae'n rhaid darparu angen nas diwallwyd pum mlynedd o fewn yr ardal cyn gynted â phosibl. Dylai'r angen tymor hirach gael ei ddarparu yn ystod cyfnod bywyd y CDLl.

5.54 Byddai dadansoddiad yn awgrymu bod capasiti llain ddigonol dros y 5 mlynedd nesaf gan dybied bod cyflenwad preswyl cynlluniedig yn cael ei ddarparu dros y cyfnod hwn. Diffyg cyffredinol dros gyfnod y cynllun yw ar gyfer 19 llain.

5.55 Fodd bynnag, mae 12 llain dros dro a diawdurdod, ac os byddai'r rhain yn cael eu hawdurdodi, byddai'r diffyg cyfnod y cynllun yn lleihau i 7 llain. Hefyd, mae posibilrwydd am ragor o leiniau ym Mron Eifion, Ffyynnongroyw, Tanlan a fyddai'n lleihau'r diffyg ymhellach.

## Angen tramwy nas diwallwyd

5.56 Dadansoddiad manwl o'r raddfa, lleoliad a hyd wersylloedd diawdurdod ym mis Ionawr 2013 tan fis Mawrth 2015 wedi'i gyflawni fel rhan o'r GTAA hwn a soniwyd amdano ar ddechrau'r bennod hwn. Mae gwybodaeth wedi'i gynnwys ar wersylloedd diawdurdod yn ystod cyfnod yr astudiaeth.

5.57 Byddai'r dadansoddiad yn awgrymu gofyniad am ddarpariaeth tramwy graddfa bychan o hyd at 5 carafan. Bydd meddiannaeth o unrhyw leiniau tramwy angen eu gorfodi i sicrhau bod aelwydydd sydd yn mynd ar leiniau tramwy ond yna am gyfnodau byr.

5.58 Er gwnaethpwyd ymdrechion i gyfweld Teithwyr ar wersylloedd diawdurdod, bu i'r holl ymatebwyr hynny wrthod rhoi sylw felly ni chafwyd dim data arolwg. Mae'r Cyngor bob amser yn mynychu gwersylloedd diawdurdod ac yn cofnodi data, a theimlwyd bod y data hwn yn ddigonol i sefydlu angen am ddarpariaeth Tramwy.

# 6. Casgliadau ac Argymhellion

## Amcanion GTAA

6.1 Amcan yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) yw darparu data a fydd yn adnabod anghenion llain Sipsiwn a Theithwyr, ar wahân i angen, galw a dyheadau tai ehangach fel y dadansoddir drwy Asesiad Marchnad Dai Lleol (LHMA).

6.2 Comisiynodd Cyngor Sir Y Fflint arc[4] i gyflawni'r GTAA ar eu rhan, dan gyfarwyddyd a throsolwg y grŵp llywio.

6.3 Mae'r GTAA wedi'i baratoi yn dilyn cyd-destun deddfwriaethol a pholisi yng Nghymru. Gwnaeth y Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Rhan 3) yr asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i wneud darpariaeth ar gyfer safleoedd lle mae'r asesiad yn nodi'r angen a gofynion statudol. Mae Cynnal *Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr* (Mai 2015) Llywodraeth Cymru yn ganllaw statudol a gyhoeddwyd dan Adran 106 Deddf Tai 2014. Cyflwynwyd i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr a rhyddhau eu dyletswyddau dan Rhan 3 o'r Ddeddf. Mae'r Canllaw hwn wedi arwain drwy bob cam o'r prosiect GTAA i Gyngor Sir y Fflint.

## Poblogaeth a llety cyfredol Sipsiwn a Theithwyr

6.4 Nododd Cyfrifiad 2011 bod cyfanswm o 95 unigolyn gydag ethnigrwydd Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig Gwyn' (WGoIT) yn byw mewn 38 aelwyd. O'r rhain, roedd 31 yn byw mewn llety brics a morter a saith yn byw mewn carafán neu strwythur teithiol neu dros dro arall.

6.5 Dadansoddiad o ddata Cyfrifiad Carafannau dros gyfnod o fis Gorffennaf 2013 tan Ionawr 2016 yn nodi bod cyfartaledd o 87 carafán, 97.0% ar safleoedd awdurdodedig (42.4% llety rhent cymdeithasol a 54.6% mewn llety preifat). O ran lleiniau, roedd y rhain ar gyfartaledd yn 20 llain preswyl, a dim lleiniau preswyl gwag wedi'u nodi dros yr un cyfnod o ddwy flynedd. Ni adnabuwyd unrhyw safleoedd tramwy, wedi'u meddiannu neu'n wag.

6.6 Mae data Cyngor Sir y Fflint ac arolwg gwaith maes yn yr ardal astudiaeth yn dangos bod cyfanswm o 68 llain yn Sir y Fflint, sydd yn:

- 20 llain ar safle preswyl (parhaol wedi'i awdurdodi) y mae'r Cyngor yn ei berchen;
- Mae 26 llain wedi'u meddiannu ar safleoedd preifat preswyl (parhaol wedi'u hawdurdodi); a 7 ychwanegol yn cael eu datblygu a 3 sy'n wag;
- Mae 7 llain ar safle preifat preswyl dros dro; a
- 5 llain ar safleoedd diawdurdod.

6.7 I grynhoi, mae 46 llain awdurdodedig wedi'u meddiannu, 7 llain awdurdodedig gwag, 3 llain awdurdodedig yn cael eu datblygu, 7 llain ar safle preswyl dros dro a 5 llain ar safleoedd diawdurdod.

## Arolwg Aelwydydd

6.8 Roedd yr arolwg aelwydydd yn ceisio ymgysylltu â chymaint o boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr o fewn Sir y Fflint ac oedd yn bosibl. Yn dilyn methodoleg fanwl, cyflawnwyd cyfweliadau personol gyda 82 aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn gwahanol fathau o lety:

- 49 yn byw ar lain ar safle preswyl (awdurdodedig) parhaol,
- 8 yn byw ar lain ar safle preswyl (awdurdodedig) dros dro,
- 5 yn byw ar safleoedd diawdurdod, a
- 20 yn byw mewn llety brics a morter.

6.9 O ran ethnigrwydd, roedd 51% wedi eu nodi yn Sipsiwn, 25% yn Deithiwr Gwyddelig, 9% yn Romani, 6% yn Deithiwr, 5% yn Deithiwr Saesneg, 1% yn Berfformiwr, 1% yn Arall (Pwylaidd) ac 1% wedi dweud “ddim yn deithiwr”.

6.10 O ran addasrwydd eu llety presennol, dywedodd 95% o ymatebwyr eu bod yn fodlon gyda’u llety cyfredol. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr (73%) wedi dweud eu bod yn byw yn eu llety cyfredol oherwydd cysylltiadau lleol, naill ai teulu neu waith. Dywedodd 15% o ymatebwyr eu bod yn byw yn eu llety cyfredol oherwydd nad oedd llain awdurdodedig arall ar gael. Cododd hyn i 23% o’r rheiny sy’n byw ar lain ar safle preifat.

6.11 Yn gyffredinol, roedd 82% o ymatebwyr wedi byw yn eu cartref cyfredol am lai na phum mlynedd. Mae 27% o'r rheiny sydd yn byw ar lain ar safle’r Cyngor wedi byw yno am fwy na phum mlynedd; mae hyn yn cymharu â 14% ar lain ar safle preifat a 15% mewn llety brics a morter. Nododd yr arolwg aelwydydd cyfradd isel o symudedd, gyda 87% o ymatebwyr yn nodi bod eu cartrefi blaenorol o fewn Sir y Fflint hefyd.

6.12 Ynghylch cynlluniau yn y dyfodol, mae 28% o ymatebwyr yn disgwyl symud o fewn y pum mlynedd nesaf. Fodd bynnag mae hyn yn amrywio, o 5% o ymatebwyr yn byw mewn llety brics a morter, 32% o'r rheiny yn byw ar safle'r Cyngor a 38% yn byw ar safle preifat. Gofynnwyd i ymatebwyr a fyddant yn aros yn hirach yn eu llety cyfredol os bydd newidiadau neu welliannau yn cael eu gwneud. Dywedodd 58% o ymatebwyr bod y safle angen bod yn fwy a dywedodd 15% bod angen gwneud gwaith atgyweirio.

6.13 Pan ofynnwyd a ydynt yn bwriadu symud i lety arall, roedd cyfanswm o dri ymatebydd yn dweud eu bod (roedd well gan dri peidio â dweud). Mae un yn byw ar hyn o bryd ar lain ar safle’r Cyngor ac mae dau yn byw ar leiniau ar safleoedd preifat.

6.14 O ran trefn newydd i’r aelwyd, cadarnhaodd chwe ymatebydd bod rhywun yn eu haelwyd yn debygol o fod eisiau symud i’w cartref eu hunain yn y pum mlynedd nesaf (saith ddim yn gwybod). O’r rhain, dywedodd tri ymatebydd y byddai’r aelwydydd newydd angen llety o fewn Sir y Fflint, gan gynnwys cyfanswm o bedwar aelwyd newydd. O ran maint yr aelwydydd, roedd un yn cynnwys un unigolyn, roedd disgwyl bod dau yn cynnwys dau unigolyn ac un yn cynnwys pedwar unigolyn;

6.15 Pan ofynnwyd a oedd ganddynt aelodau o’r teulu o du allan i Sir y Fflint sydd yn gwersylla yn y Sir yn rheolaidd, roedd cyfanswm o naw ymatebydd (i gyd yn byw

ar leiniau) wedi dweud bod ganddynt. Hefyd, cadarnhaodd pedwar ymatebydd (i gyd yn byw ar leiniau) eu bod wedi gwersylla ar ochr y ffordd, ar wersyll diawdurdod neu ar safle tramwy yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd 56% o ymatebwyr yn ystyried bod angen am fwy o safleoedd tramwy yng Nghymru; dywedodd 30% na; ac roedd well gan 14% beidio â dweud.

## Ymgynghoriad Rhanddeiliaid

6.16 Bu i gyfanswm o un ar ddeg o randdeiliaid gymryd rhan yn yr holiadur ymgynghori ar-lein, gan ateb y cwestiynau yr oeddynt yn teimlo a oedd yn briodol.

6.17 O ran cefnogaeth i Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol yn Sir y Fflint, roedd rhai rhanddeiliaid yn credu y gellir gwneud mwy ddeall, monitro a chefnogi’r grwpiau hyn. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth o adnoddau a chyfyngiadau cyllideb.

6.18 O ran darpariaeth safle, mynegodd nifer o randdeiliaid y safbwynt bod angen safleoedd tramwy ar draws Gogledd Cymru.

6.19 Roedd y rhanddeiliaid yn cydnabod rôl y GTAA ac yn hysbysu sail dystiolaeth ar gyfer y cynllun datblygu sy’n dod allan.

## Asesu anghenion llety

6.20 Mae’r GTAA yn cynnwys asesiad o anghenion llety, yn dilyn methodoleg a nodir yng Nghanllaw Llywodraeth Cymru.

6.21 O ran niferoedd aelwydydd, y rhif gwaelodlin o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn Sir y Fflint yw 64. Cyfanswm aelwydydd yn y dyfodol ym mlwyddyn 5 wedi’i gyfrifo fel 69 ac ar ddiwedd cyfnod y cynllun yn 92 aelwyd. Mae hyn yn arwain at angen llain aelwyd ychwanegol o 5 llain dros y 5 mlynedd nesaf (yn ôl 2016-2020) a chyfanswm o 28 llain dros gyfnod y cynllun (5 llain yn y cyfnod 2016-2020 a 23 llain dros gyfnod o ddeng mlynedd 2021-2030).

6.22 Mae’r asesiad yn nodi bod y galw preswyl cyfredol ar gyfer 26 lleiniau ychwanegol. Galw preswyl yn y dyfodol dros 5 mlynedd ar gyfer 5 llain a dros gyfnod y cynllun yn 28 llain. Mae cyflenwad preswyl arfaethedig am 35 llain sydd yn cynnwys lleiniau gwag, nifer bach o drosiant ac ail-feddiannaeth o leiniau ar safleoedd presennol ar ôl iddynt gael eu hailddatblygu.

6.23 Felly, ar gyfer Sir y Fflint, mae’r angen nas diwallwyd 5 mlynedd yn -4 llain, a thros Gyfnod y Cynllun mae angen 19 llain ychwanegol.

6.24 Mae'n rhaid darparu angen nas diwallwyd pum mlynedd o fewn yr ardal cyn gynted â phosibl. Dylai’r angen tymor hirach gael ei ddarparu yn ystod cyfnod bywyd y CDLl.

6.25 Byddai dadansoddiad yn awgrymu bod capasiti llain digonol dros y 5 mlynedd nesaf gan dybied bod cyflenwad preswyl cynlluniedig yn cael ei ddarparu dros y cyfnod hwn. Diffyg cyffredinol dros gyfnod y cynllun yw ar gyfer 19 llain.

6.26 Fodd bynnag, mae 12 llain dros dro a diawdurdod, ac os byddai’r rhain yn cael eu hawdurdodi, byddai’r diffyg cyfnod y cynllun yn lleihau i 7 llain. Hefyd, mae

posibilrwydd am ragor o leiniau ym Mron Eifion, Ffyynnongroyw, Tanlan a fyddai'n lleihau'r diffyg ymhellach.

## Argymhellion a'r Camau Nesaf

6.27 Bydd yr asesiad yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Deddf Tai a bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw adborth a ddarparwyd. Bydd adroddiad ar yr asesiad a'i goblygiadau yn cael eu paratoi a'u hystyried gan Cabinet y Cyngor maes o law, ar ôl i Llywodraeth Cymru ystyried yr asesiad.

6.28 Bydd Gweithgor Sipsiwn a Theithwyr y Cyngor yn monitro a gweithredu'r canfyddiadau'r asesiad, gan gynnwys chwilio am safleoedd tramwy/mannau stopio posibl, dod â chaniatâd ac ailwampio safleoedd awdurdodedig, a dechrau proses i nodi dewisiadau safle posibl i ddiwallu'r angen tymor hirach a nodir, o fewn y CDLl.

6.29 Bydd y Strategaeth Dai Leol y Cyngor hefyd yn cael ei adolygu i adlewyrchu canfyddiadau'r asesiad, i ddiweddaru strategaeth cyffredinol y Cyngor mewn perthynas â gwneud darpariaeth ar gyfer anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

# Atodiad A: Ymgynghoriad ar-lein i randdeiliaid allweddol

A.1 *Pa ardaloedd yn yr Awdurdod Lleol yr ydych yn byw ynddo? Ticiwch bob un sy'n berthnasol. Os ydych yn gweithio mewn ardal sydd y tu allan i'r ardal astudiaeth (megis awdurdod lleol cyfagos sydd yn ymateb fel rhan o'r canllaw dyletswydd i gydweithio) yna nodwch o ble'r ydych yn dod drwy ddefnyddio'r rhestr isod neu drwy ddefnyddio'r opsiwn 'arall'.*

| Ardal | Canran ymateb |
|---|---|
| Sir y Fflint | 64% |
| Wrecsam | 27% |
| Sir Ddinbych | 27% |
| Powys | 9% |
| Gwynedd | 18% |
| Rhywle arall yng Nghymru | 0% |
| Swydd Amwythig | 0% |
| Gorllewin Swydd Gaer a Chaer | 9% |
| Dwyrain Swydd Caer | 0% |
| Arall | 27% |

*Ardaloedd eraill yn cynnwys:*

- Ynys Môn,
- Conwy,
- Glannau Mersi, a
- Swydd Gaerhirfryn.

A.2 *Os oes gennych ddiddordeb, ydych chi eisiau cael gwybod am ganlyniadau'r astudiaeth? Os ydych yna mi wnawn gadw cofnod o'ch manylion cyswllt yr ydych wedi'i ddarparu uchod, a chysylltwch gydag unrhyw allbynnau priodol.*

| Ymateb | Canran ymateb |
|---|---|
| Oes, hoffwn gael fy hysbysu o'r GTAA megis y canlyniadau, adroddiadau neu ddigwyddiadau rhanddeiliaid. | 100% |
| Nac oes, nid wyf eisiau cael fy hysbysu am y GTAA | 0% |

## Cwestiynau cyffredinol

A.3 *C1. Ydych chi'n teimlo bod digon o ddealltwriaeth o anghenion addysg, cyflogaeth, iechyd a chefnogaeth Sipsiwn, teithwyr a Pherfformwyr Teithiol o fewn yr ardal astudiaeth? Os nad ydych, beth ellir ei wneud i wella'r sefyllfa gyfredol?*

- Na. Cydweithio gwell ar draws Rhanbarth Gogledd Cymru.
- Yn bosibl gan yr Awdurdod Lleol ond efallai ddim gan yr holl breswylwyr yn y Sir.
- Na.
- Mae hyfforddiant ar gyfer staff gwasanaeth rheng flaen mewn swyddi statudol a sector cyhoeddus yn arbennig. Nid oes unrhyw ymwybyddiaeth ddiwylliannol o faterion Sipsiwn a Theithwyr na dealltwriaeth o'u gofynion crefyddol mewn perthynas â Threffynnon er enghraifft. Dylai Cynghorwyr o fewn awdurdod lleol ac arweinwyr Sefydliadol eraill weithio drwy'r rhaglenni Cydraddoldeb i sicrhau bod gwybodaeth wedi'i hymgorffori ym mhob lefel yn y sefydliadau lle mae dyletswydd gyhoeddus. Safleoedd wedi'u lleoli'n briodol a digonol, rhai parhaol a thramwy, gyda chymysgedd o ddeiliadaethau a mathau sy'n ofynnol.

A.4 *C2. A yw anghenion iechyd, addysg, llety a chefnogaeth Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol yn cael eu monitro'n ddigonol? Os nad ydynt, beth ellir gwneud?*

- Ddim yn Gwybod.
- Ddim yn gwybod – dim fy maes arbenigedd.
- Mae teuluoedd mewn tai yn grŵp cuddiedig, sydd yn aml yn wynebu rhagfarn o fewn eu cymunedau cyfagos sefydlog os ydynt yn cael eu hadnabod fel Sipsiwn neu Deithiwr, felly yn anaml iawn maent yn nodi eu bod yn Deithwyr. Mae'r rhai hynny sydd yn fwy gweladwy yn rhinwedd byw mewn carafán yn amharod i ymgysylltu â gwasanaethau statudol oherwydd y canfyddiad (ffaith yn aml) eu bod yn asiantau sydd yn eu symud ymlaen, neu wrthod caniatâd cynllunio neu'n bygwth eu traddodiadau diwylliannol. Mae cael sefydliad neu grŵp o weithwyr sydd yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn meithrin ymddiriedaeth yw'r ffordd fwyaf priodol i ymgysylltu â'r gymuned a chysylltiad i wasanaethau e.e. Mae gan Gorllewin Swydd Gaer a Chaer Dîm Teithwyr Sipsiwn yn yr awdurdod lleol, ond mae'r awdurdod hefyd yn ariannu gwaith cymunedol sydd yn cysylltu a chefnogi'r gymuned i wasanaethau priodol gan sefydliad dibynadwy y mae'r cymunedau yn ei adnabod.

A.5 *C3. Yn eich barn chi, a oes angen rhagor o gefnogaeth i gynorthwyo Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol i fyw o fewn yr ardal astudiaeth? Os oes, ymhelaethwch.*

- Angen rhagor o gefnogaeth ar draws Gogledd Cymru.
- Ddim yn gwybod – dim fy maes arbenigedd.
- Oes. Mae gan ICC Ddefnyddwyr Gwasanaeth yn dod i'n Gwasanaeth Swydd Gaer o Sir Y Fflint, drwy gysylltiadau teulu ac wedi darparu cefnogaeth ffôn i eraill breswylio yna. Maent i gyd yn datgan eu bod yn dymuno "y byddai

rhywun fel chi" yn agosach. Mae ein cefnogaeth yn cynnwys cefnogaeth llythrennedd, cysylltu gyda deintyddion, meddygon, systemau Cyfiawnder Troseddol, cefnogaeth gyda buddion a chyllid a gwybodaeth tir/ cynllunio.

A.6 *C4. Ydych chi'n credu bod ymwybyddiaeth digonol o anghenion diwylliannol, cefnogaeth a llety Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol yn yr ardal astudiaeth? Os nad ydych, beth rhagor y gellir ei wneud i godi ymwybyddiaeth.*

- Mae angen rhagor o ymwybyddiaeth ar draws Gogledd Cymru, yn arbennig ymysg aelodau etholedig a rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
- Yn debygol nid oes, ond nid wyf yn siŵr sut i godi ymwybyddiaeth. Yn fy mhrofiad i, mae'r grwpiau hyn cael eu hystyried ar gam yn aml iawn. Mewn geiriau eraill, rwy'n credu bod llawer o ragfarn anghyfiawn tuag at y bobl hyn.
- Dim o gwbl. Negeseuon cadarnhaol gan arweinwyr statudol mewn llywodraeth leol i gyfryngau a chymunedau i sicrhau bod cynhwysiant a negeseuon positif ynghylch y gymuned a'u hanghenion wedi'u gosod yn y cyd-destun lleol. Asesu'r angen am wasanaeth cefnogaeth gymunedol sydd ar wahân i'r awdurdod lleol gyda chyllid digonol i wneud gwahaniaeth i ymgysylltiad.

A.7 *C5. Ydy eich sefydliad wedi cyflawni unrhyw gamau gweithredu i godi ymwybyddiaeth o ofynion diwylliannol, cefnogaeth a llety Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol yn yr ardal astudiaeth? Os ydi, ymhelaethwch.*

- Na.
- Ddim yn gwybod.
- Nid oes gennym yr adnoddau i weithio yn yr ardal heb gyllid, ond yn cynnig cefnogaeth i bobl pan maent yn cysylltu â ni'n uniongyrchol neu'n mynychu ein gwasanaethau Galw Heibio yn Lerpwl, Wigan neu Ellesmere Port.

## Darpariaeth llety

### Darpariaeth Safle

A.8 *C6. Ydych chi'n credu bod digon o ddarpariaeth o leiniau/ safleoedd parhaol i Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol yn yr ardal astudiaeth? Rhowch eich safbwyntiau i ni.*

- Oes.
- Nac oes.
- Nac oes.
- Na, mae aelwydydd Sir y Fflint wedi mynd at Gonwy yn gofyn am lety.

A.9 *C7. Os oes angen safleoedd/ lleiniau parhaol eu hangen yn yr ardal astudiaeth, lle ydych chi'n credu y dylai'r rhain fod? Pa leoliad yw'r gorau a pham?*

- Ddim yn hysbys.
- O fewn pellteroedd rhesymol o gyfleusterau addysg, iechyd a siopau.

- Y gymuned leol yw'r gorau i nodi eu hanghenion eu hunain felly mae sicrhau cynhwysiant fwyaf i aelodau'r gymuned i unrhyw waith ymchwil yn hanfodol i sicrhau bod safleoedd yn cael eu lleoli'n briodol.

A.10 *C8. Ydych chi'n credu bod rhwystrau i'r ddarpariaeth o safleoedd parhaol newydd? Os ydych, beth ydych chi'n credu yw'r rhwystrau?*

- Ydw, mae gwrthwynebiad i'r safleoedd gan gymuned sefydlog yn codi o bryderon canfyddedig a gwirioneddol parthed ymddygiad gwrthgymdeithasol; taflu sbwriel; trosedd; diffyg ymgysylltiad â'r awdurdod. Diffyg cefnogaeth ar gyfer y gofynion statudol gan aelodau etholedig.
- Rhagfarnau pobl tuag at Sipsiwn, Teithwyr ac unigolion perfformio teithiol.
- Diffyg negeseuon positif sy'n berthnasol i gymunedau Teithwyr a dim llywio cadarnhaol gan awdurdod lleol nag asiantaethau statudol eraill yw'r rhwystrau mwyaf i'r gymuned, gan fod cyfryngau yn clywed y negeseuon hyn ac yn eu hehangu i godi ofn gwrth Sipsiwn wrth ddarparu safleoedd. Materion eraill yw diffyg ymwybyddiaeth o angen gwirioneddol, gyda nifer o bobl wedi dyblu ar leiniau ac eraill yn byw mewn tai neu fflatiau a dim ffordd o gwbl o gasglu'r data gwirioneddol.

A.11 *C9. Ydych chi'n credu bod angen safleoedd tramwy yn Sir y Fflint? Os ydych, pam a lle ydych chi'n credu y dylid lleoli'r rhain? Sylwch: Darpariaeth tramwy yw llain neu safle wedi'i fwriadu ar gyfer defnydd tymor byr tra eu bod yn teithio, mae darpariaeth fel hyn yn barhaol ac wedi'i awdurdodi fel arfer, ond mae cyfyngiad o ran hyd amser y gall preswylwyr aros yno.*

- Oes, ledled Gogledd Cymru:
- Ddim yn gwybod. Mae'n well i ddefnyddwyr y cyfleusterau hyn i ateb y cwestiwn hwn.
- Oes. Codais y mater yn flaenorol ar arwyddocâd crefyddol am wahanol safleoedd yn Sir y Fflint i Deithwyr Gwyddelig, yn arbennig e.e. arwyddocâd crefyddol o Ffynnon Gwenfrewi/ Treffynnon. Mae angen darparu darpariaeth tramwy er mwyn hwyluso presenoldeb, heb amharu ar draffig a'r gymuned leol. Mae nifer yn y gymuned yn treulio nifer o ddyddiau o ddefodau crefyddol naill ai i weddïo am gymorth neu i ddweud diolch am ganlyniad cadarnhaol o'u gweddïau. Bydd y gymuned leol a lle maent yn stopio'n draddodiadol yn nodi ardaloedd arwyddocaol eraill sydd efallai angen darpariaeth tramwy. Yn draddodiadol, lle mae safle barhaol eisoes, mae darpariaeth tramwy yn cefnogi cysylltiadau teuluol, cymdeithasol a chrefyddol ac yn torri effeithiau i gydlyniant cymunedol cadarnhaol.

A.12 *C10. Ydych chi'n credu bod rhwystrau i'r ddarpariaeth o safleoedd parhaol newydd? Os ydych, beth ydych chi'n credu yw'r rhwystrau?*

- Ydw, fel yr uchod, ond ddim i'r graddau mwyaf gan fod gwersylloedd darfodedig yn cael eu hystyried i fod yn llai ystyriol i gymuned sefydlog.
- Fel y cwestiwn 8 uchod.
- Oes. Eto'r broblem fwyaf yn lleol yw'r diffyg negeseuon cadarnhaol sy'n berthnasol i gymunedau Teithiol wedi'i arwain gan y cyfryngau, a'u bod yn cael pryderon y gymuned heb gael safbwynt cydbwysol o'r materion. Gall hyn

gynnwys dyfyniadau uniongyrchol gan y rheiny sydd â dyletswydd gyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb a chydlyniant cymunedol, sydd wedi rhoi cyfweliadau gyda'u barn eu hunain wedi'u dyfynnu, neu ddefnyddio'r dyfyniadau hynny yn unig, sydd yn erbyn Teithwyr. Mae'r syniad bod Teithwyr ddim yn lleol yn enghraifft sydd yn gyffredin, ond yn ein profiad mae cysylltiadau lleol ar gyfer cysylltiadau lleol ar gyfer y mwyafrif o'r gymuned Teithiol sydd eisiau safleoedd tramwy, a bod yr un teuluoedd gyda'r gylchdaith draddodiadol, sydd yn mewngorffori'n ailadroddus yr un ardaloedd daearyddol.

## Safleoedd Presennol

A.13 *C11. Beth yw eich barn ar safon y cyfleusterau ar y safleoedd presennol yn ardal Sir y Fflint?*

- Ddim yn Gwybod.
- Nid oes gennyf wybodaeth am hyn.
- Mae'r mwyafrif o waith yr ydym wedi'i gyflawni wedi bod gyda theuluoedd mewn tai oherwydd y diffyg darpariaeth. Rydym yn ymwybodol o nifer o safleoedd preifat ac mae'r rhain yn cydymffurfio â'r gofynion.

A.14 *C12. Oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar sut mae safleoedd presennol yn cael eu rheoli yn Sir y Fflint?*

- Nac oes.
- Nac oes.
- Nid ydym wedi cael unrhyw wybodaeth ar sut mae safleoedd yn cael eu rheoli ar hyn o bryd, oherwydd mae ein cysylltiadau yn bennaf mewn tai.

A.15 *C13. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw faterion/ tensiynau rhwng Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol a'r gymuned sefydlog, ar safleoedd presennol o fewn Sir y Fflint? Os hynny, ydy eich sefydliad wedi mynd i'r afael â hyn mewn unrhyw ffordd?*

- Na.
- Na. Rwy'n byw (yn hapus) yn eithaf agos at safle Dollar Park ar gyrion tref Treffynnon.
- Ydw. Rydym wedi siarad â cysylltiadau Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru yn y gorffennol ynghylch materion gyda chymunedau sefydlog lleol a safleoedd preifat penodol i gefnogi. Mae'r sefydliad hwn yn ymwybodol iawn o'r materion lleol o fewn Sir y Fflint ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

## Llety Brics a Morter.

A.16 *C14. Ydych chi'n gwybod os oes unrhyw Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol yn byw mewn llety brics a morter sydd yn ardal Sir y Fflint? Allwch chi ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol? Rydym yn hapus i gael sylwadau neu ddata ond byddwn yn siarad â chi ynghylch defnyddio data o'r fath gan na allwn*

*dorri diogelu data ac mae arnom angen caniatâd i ddefnyddio cyfeiriadau o'r fath yr ydych efallai yn ymwybodol ohonynt.*

- Ydw, rhowch fanylion cyswllt a gallwn rannu GTANA Conwy.
- Na.
- Ydw; mae'r rhan fwyaf o'n cysylltiadau gyda theuluoedd mewn tai brics a morter oherwydd diffyg safleoedd. Rydym hefyd yn cefnogi teuluoedd eraill (Defnyddwyr Gwasanaethau) sydd yn teithio i Ffynnon Gwenfrewi yn flynyddol neu ar bererindod arall o ardaloedd cyfagos lle mae ein Gwasanaeth yn gweithredu.

A.17 *C15. Ydych chi'n credu bod angen rhagor o ddarpariaeth o safleoedd/lleiniau i fodloni gofynion Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol sydd yn byw ar hyn o bryd mewn llety sefydlog (e.e. brics a morter) ar draws ardal Sir y Fflint? Beth yw'r rheswm dros hynny yn eich barn chi?*

- Ydw.
- Ddim yn gwybod – dim fy maes arbenigedd.
- Ydw; mae'r mwyafrif o deuluoedd yr ydym wedi gweithio sydd yn dod o/yn Sir y Fflint gydag angen dyhead diwylliannol i fod yn breswylydd ar safle Teithiwr. Mae hyn oherwydd bod pobl dal yn dymuno cydlynu â'u norm ddiwylliannol traddodiadol o gartref ôl-gerbydau/ carafán ac fel nad yw eu plant yn colli eu diwylliant nomadaidd a threftadaeth/ traddodiadau. Y broblem yw nad oes safon ac argaeledd llety safle ar gael.

A.18 *C16. A oes cefnogaeth ddigonol ar gael i Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol yn byw mewn llety sefydlog i'w helpu i reoli eu tai yn effeithiol (h.y. help i ddelio â materion tenantiaeth ymarferol, megis talu rhent, biliau a gwneud ceisiadau am fudd-daliadau)?*

- Ddim yn Gwybod.
- Ddim yn gwybod.
- Mae'r teuluoedd yr ydym wedi gweithio â hwy yn cael eu cyfeirio at ddechrau i asiantaethau lleol ond maent yn dod yn ôl i gael cefnogaeth barhaus tan mae eu problemau wedi cael eu cwblhau. Maent wedi cwyno bod yr asiantaethau sydd wedi bod ynghlwm, megis cefnogaeth yn ôl yr angen gan ddarparwyr tai, ddim yn deall eu diwydiant, nac yn gallu cynnig datrysiadau diwylliannol i broblemau. Mae hyn yn arwain at bobl yn datgyweddu o wasanaethau sydd wedi'u sefydlu i gefnogi materion penodol. Nid yw gwasanaethau generig yn deall dyfnder y materion sy'n berthnasol i ddiffyg llythrennedd, na bod hyn yn ymestyn i lythrennedd a rhifedd cloc, sydd yn ardaro â phob rhyngweithiad, a heb eu hyfforddi i gynnig datrysiadau i'r problemau hyn. Nid yw gwasanaethau iechyd generig yn deall problemau iechyd meddwl na'r cefndiroedd diwylliannol sydd yn eu hatgyfnerthu hwy.

A.19 *C17/ Ydych chi'n ymwybodol os yw Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol yn teimlo'n ddiogel mewn llety sefydlog? Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth, nodwch os gwelwch yn dda. A oes unrhyw anghenion diwylliannol penodol y*

*mae'r awdurdod lleol angen ei ystyried wrth gynnig llety confensiynol, yn eich barn chi?*

- Ddim yn Gwybod.
- Dim fy maes o arbenigedd.
- Nid ydym wedi profi trosedd casineb wedi ei riportio i ni gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth yn Sir y Fflint. Bydd y Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gallu cefnogi gyda data ychwanegol.

## Lleiniau a Llety Brics a Morter

A.20 *C18. Os yw eich sefydliad yn darparu llety yn ardal Sir y Fflint, faint o aelwydydd Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol sydd wedi dod atoch ar gyfer tai yn ystod y pum mlynedd diwethaf?*

- Dim ymatebion.

A.21 *C19. Os yw eich sefydliad yn darparu llety yn ardal Sir y Fflint, faint o aelwydydd Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol sydd wedi dod atoch i gael CEFNOGAETH SY'N BERTHNASOL I DAI yn ystod y pum mlynedd diwethaf?*

- Dim ymatebion.

## Gwersylloedd Diawdurdod

A.22 *C20. Os ydych yn awdurdod tai lleol yn Sir y Fflint, faint o wersylloedd diawdurdod sydd gennych bob blwyddyn yn eich ardal? Sylwch: Mae gwersylloedd diawdurdod yn cyfeirio at dir lle mae Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol yn preswylio mewn cerbydau neu bebyll heb ganiatâd. Gall gwersylloedd diawdurdod ddigwydd mewn gwahanol leoliadau a chynnwys tresmasu. Mae hi'n drosedd yn ôl Deddf Gorchymyn Cyhoeddus a Chyfiawnder Troseddol 1994 i wersylla ar dir heb ganiatâd y perchennog.*

- Amh.
- Ddim yn gwybod - efallai bod gan yr adran gorfodi Cynllunio wybodaeth ynghylch â hyn.

A.23 *C21. A yw gwersylloedd diawdurdod yn broblem i'ch sefydliad chi? Os ydy, ymhelaethwch.*

- Amherthnasol
- Ddim yn siŵr, ond byddai'r Cyngor yn debygol o gael cwynion gan y cyhoedd a phreswylwyr sy'n byw wrth ymyl unrhyw wersylloedd diawdurdod.
- Na.

A.24 *C22. Oes gennych chi farn ar sut mae gwersylloedd diawdurdod yn effeithio ar ganfyddiadau lleol?*

- Ddim yn Sir y Fflint;

- Efallai yn arwain at ganfyddiadau bod y “grwpiau hyn” o bobl yn ymddangos i wneud beth maent eisiau pryd bynnag y maent eisiau heb roi ystyriaeth i’r sianeli a gweithdrefnau cywir.
- Oes. Nid yw gwersylloedd diawdurdod yn broblem eu hunain; y rheolaeth neu’r diffyg rheolaeth yw’r broblem yn y rhan fwyaf o achosion. Mae ICC wedi trafod yn rheolaidd â Theithwyr ac awdurdodau lleol i ddod o hyd i ddatrysiadau, sydd wedi bod yn gadarnhaol iawn y rhan fwyaf o'r amser, ac yn Leeds mae polisi stopio wedi’i drafod sy'n golygu nad yw gwersylloedd diawdurdod yn peri syndod ond yn rhan o ymateb rheoledig yr awdurdod, yn unol ag ymgysylltiad gan Cyfnewid Sipsiwn a Theithwyr Leeds, sefydliad sector gwirfoddol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn y rhanbarth hwn. Eto, mae’r cyfryngau yn gyfrifol am beidio ag adrodd am wersylloedd gyda chydbwysedd, sydd wedi cael effaith negyddol ar berthnasau rhwng pobl leol a Theithwyr. Beth bynnag yw eu rhesymau am deithio drwy’r ardal, nid oes unrhyw adrodd ar ddyletswydd, anghenion lles neu'r diffyg darpariaeth llety/ safle yn y DU yn ogystal â mater lleol.

## Polisi Cynllunio

A.25 *C23. A oes unrhyw feysydd o fewn y polisi cynllunio yr ydych yn ystyried sydd wedi cyfyngu ar ddarpariaeth safleoedd/ lleiniau newydd ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol? Os ydych, allwch chi feddwl am unrhyw ffordd y gellir goresgyn hyn yn y dyfodol?*

- Dylid ystyried darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr fel darpariaeth tai fforddiadwy yn lleol a chenedlaethol gan Llywodraeth Cymru.
- Mae’r polisi rhwystr glas yng Nghynllun Datblygu Unedol wedi'i ddefnyddio i wrthod darpariaeth safleoedd newydd ond wedi ei ddefnyddio i wrthod darpariaeth o safleoedd newydd, ond ôl fwy nag un achlysur wedi ei gwrthdroi gan arolygydd cynllunio yn dilyn apêl/apeliadau ym mhob achos ar sail diffyg darpariaeth o safleoedd.
- Mae Cymal 115 a’i effaith bosibl ynghylch ‘statws sipsiwn’ a gorfod profi ‘statws Normanaidd' yn cael effaith yn barod ar rai penderfyniadau cynlluniau yn y gymuned, a gall hyn ond gwaethygu yn y dyfodol. Mae llawer o awdurdodau lleol sydd yn dewis gwneud dim ynghylch Cynlluniau Lleol ayyb, yn dilyn y newidiadau, sydd yn ychwanegu at yr effaith oherwydd ni fydd neb yn diwallu’r meini prawf newydd, ac mae’r mwyafrif o gynllunio ar gyfer cynllunio dros dro ar gyfer datblygiadau preifat, felly bydd hyn yn cael effaith cynyddol.

A.26 *C24. Ydych chi’n credu y gellir gwneud mwy drwy bolisi cynllunio i nodi ac amlygu safleoedd newydd ar gyfer darpariaeth o leiniau ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol? Os ydy, ymhelaethwch.*

- Dylai Llywodraeth Cymru gymryd arweiniad wrth gynllunio darpariaeth tramwy fel y gallant sicrhau darpariaeth digonol a gwasgaredig yn rhesymegol. Ystyried prynu gorfodol lle mae adnabyddiaeth safle yn broblem a’r defnydd o’u tir eu hunain.

- Na. Rwy'n credu ei fod a dylai fod yn syml adnabod a dyrannu tir addas ar gyfer safleoedd fel hyn yn y Cynllun Datblygu. Yn fy marn i, y rhwystrau mwyaf i oresgyn yw gwrthwynebiadau gan aelodau etholedig a'r etholaethau y maent yn eu cynrychioli.
- Diddymu cymal 115. Nid yw'r gymuned ei hun yn mynd i ymddiried i ddwyn tir ymlaen, lle mae safbwyntiau negyddol wedi'u gwneud yn eu cylch. Adeiladu perthynas ymddiried o fewn y gymuned yn yr hir dymor i geisio cael cyfathrebu.

## Materion Traws-ffiniol

A.27 *C25. Ar gyfer Awdurdodau Lleol cyfagos, gan ystyried ardal safleoedd presennol Sir y Fflint (map yn amgaeedig), a allwch chi ddweud sut bu i'ch Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr diweddar ystyried hyn h.y. mudo rhwng yr awdurdodau?*

- Dwy aelwyd o fewn Sir y Fflint a gyflwynwyd i Gonwy fel bod angen drwy'r broses GTAA. Nid oedd unrhyw gysylltiadau lleol amlwg, felly nid yw'r rhain wedi cael eu cynnwys o fewn ein hasesiad.
- Heb weld y fersiwn terfynol eto.

A.28 *C26. Ydych chi'n ymwybodol o symudiadau rheolaidd Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithio o ardaloedd cyfagos i mewn neu allan o ardal Sir y Fflint? Os ydych, pa lwybrau yr ydych chi wedi'u nodi?*

- Na.
- Ar hyd coridor yr A55.
- Yn bennaf echel ddwyreiniol/ orllewinol drwy Sir y Fflint o awdurdodau cyfagos yng Nghymru a Lloegr.
- Coridor A55 ac o Groesoswallt, yn ogystal i lawr o Wrecsam/ Queensferry. Mae'r prif lwybrau o'r llong ac i'r llong yng Nghaergybi.

A.29 *C27. A yw Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr o fewn eich awdurdod lleol yn lledaenu â ffin Sir Y Fflint? Os ydy, a yw'r perchennog tir wedi mynegi budd mewn ymestyn y safle i Sir y Fflint?*

- Amh.
- Ddim yn ymwybodol o unrhyw un.

A.30 *C28. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw safleoedd/ lleoliadau yn ymyl ffin Sir y Fflint lle'r oedd anawsterau wedi codi o ran safleoedd, cyfyngiadau cynllunio neu faterion eraill mewn perthynas â Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithio?*

- Na.

A.31 *C29. Beth ydych chi'n credu dylai'r prif ganlyniadau'r astudiaeth hwn fod?*

- I godi ymwybyddiaeth o'r angen.
- O fy mhersbectif fel cynllunydd polisi - i sefydlu sail tystiolaeth gadarn i hysbysu'r Cynllun Datblygu Lleol - yn ddelfrydol i'r graddau bod cwantwm y ddarpariaeth yn gallu cael ei nodi a'i gyfiawnhau sydd felly yn cynorthwyo i

nodi tir priodol gael ei ddyrannu yn y cynllun yn hytrach na dibynnu ar bolisi ar sail meini prawf.

- Mae angen pendant am safleoedd, rhai parhaol a thros dro, mae angen ystyried anghenion o anghenion brics a morter gan nad yw safleoedd wedi bod ar gael ers amser hir. Mae cymunedau buddiant angen bod yn ymgynghorwyr canolog o fewn unrhyw astudiaeth – dim byd amdanaf i, hebof i!

# Atodiad B: Holiadur Cyfweliad Gwaith Maes

## Cyngor Sir y Fflint – Asesiad Sipsiwn a Theithwyr 2015

**Enw'r Safle:**

**Rhif llain (mae rhaid i hyn lynu â'r rhifau ar daenlen Excel). Er enghraifft os yw hwn yn llain 1 ar safle A, yna ysgrifennwch hyn. Mae arnom angen deall cynllun pob safle a ymwelwyd. Mae'n bwysig gwybod nifer yr aelwydydd/ teuluoedd a hefyd y nifer o leiniau gwag a rhai wedi'u meddiannu, yn ogystal â faint o dai sydd ar bob llain:**

**Faint o garafannau sydd ar y llain hon? Os oes, er enghraifft, 2 garafán ar y llain, dywedwch wrthym pa garafán y mae'r cyfweliad hwn yn perthyn iddo, fel y gellir ei wahanu o gyfweliadau yn yr ail garafán ar y llain:**

**Faint o deuluoedd/ aelwydydd sydd ar y llain hon:**

**Os yw'n bosibl, tynnwch lun o'r safle neu fynedfa i'r safle o leiaf fel bod cofnod ffotograffig bod y cyfweliadau wedi digwydd/ wedi'u ceisio.**

**Tynnwch lun sydyn o'r safle yn dangos golwg aderyn o'r safle a lleoliad y llain lle cynhaliwyd y cyfweliad. Mae hyn yn ein helpu os oes unrhyw fater penodol i nodi bod yr arolwg wedi'i gwblhau. Mae'n helpu os allwch gynnwys allanfa/ mynediad i'r safle ac yna siâp bras o'r safle a lleoliad y safle yr ydych yn cyfweld:**

**ADRAN 1 – EICH CARTREF**

### A1 Lle ydych chi’n byw yn awr?

| | |
|---|---|
| Safle Preswyl Awdurdod Lleol (“Cyngor”) | |
| Safle Tramwy'r Cyngor | |
| Safle preifat gyda chaniatâd cynllunio | |
| Safle preifat sydd heb ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd | |
| Gwersylloedd diawdurdod | |
| Brics a Morter – Rhentu’n gymdeithasol | |
| Brics a Morter – Rhentu’n breifat | |
| Brics a Morter - Perchen feddiannwr | |

### A2 Ydych chi’n fodlon gyda’ch llety cyfredol?

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac Ydw | |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | |

Os nad ydych, eglurwch sut y gellir ei wella:

## A3 Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod yn byw yma?

| | |
|---|---|
| Cysylltiadau lleol (teulu neu waith) | |
| Dim llain awdurdodedig arall | |
| Methu dod o hyd i dŷ i symud iddo | |
| Rhesymau iechyd neu oedran | |
| Well ganddynt dai na charafannau | |
| Arall: | |

## A4 Pa mor hir ydych chi wedi bod yn byw yma?

| Llai na 1 mis | 1–6 Mis | 7 – 12 mis | 1 – 2 flynedd | 2-5 mlynedd | Dros 5 mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

## A5 Os ydych chi wedi symud yn y flwyddyn ddiwethaf, oedd eich cartref blaenorol yn yr Awdurdod Lleol?

**OEDD/ NAC OEDD**

Rhowch fanylion isod:

| **Math o lety** | **Oedd ganddo ganiatâd cynllunio?** | **Pa Awdurdod Lleol oedd ynddo?** | **Pam wnaethoch chi adael?** |
|---|---|---|---|
| | | | |

## A6 Pa mor hir ydych chi'n meddwl y byddwch yn aros yma?

| 1 neu 2 ddiwrnod | 3 – 28 diwrnod | 1 – 3 mis | 3 mis – 2 flynedd | 2 – 5 mlynedd | Dros 5 mlynedd | Ddim yn bwriadu symud | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

## A7 A fyddech chi'n aros yn hirach os bydd newidiadau neu welliannau yn cael eu gwneud i'ch llety cyfredol?

*(Sylwer: Efallai na fydd yr Awdurdod Lleol yn gallu gwneud y gwelliannau hyn, ond gall helpu gwybod beth yw'r problemau â'ch llety).*

**BYDDWN**

| Rheswm | Ticiwch |
|---|---|
| Angen atgyweiriadau | |
| Angen gwneud y safle'n fwy | |
| Angen gwneud y llety yn fwy diogel | |
| Rhoddwyd caniatâd cynllunio | |
| Angen addasiadau (nodwch isod) | |

**NA FYDDWN**

| Rheswm | Ticiwch |
|---|---|
| Dim ond yn pasio drwodd | |
| Eisiau llain awdurdodedig mewn man arall | |
| Eisiau symud i dŷ | |
| Perthynas wedi chwalu | |
| Mae'n well ganddynt fyw mewn carafán | |

Arall:

**ADRAN B – EICH TEULU**

| | Perthynas i'r ymatebydd (e.e. Gŵr/gwraig, mab/merch ayyb) | Oedran | Rhyw | Romani/ Teithiwr Gwyddelig/ Teithiwr Newydd/ Perfformiwr/ Roma/ Arall (Hunan-briodoli) | A oes unrhyw resymau pam na allwch barhau i fyw yn y llety hwn? (rhowch fanylion) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymatebydd | | | | | |
| Person 2 | | | | | |
| Person 3 | | | | | |
| Person 4 | | | | | |
| Person 5 | | | | | |
| Person 6 | | | | | |
| Person 7 | | | | | |
| Person 8 | | | | | |
| Person 9 | | | | | |
| Person 10 | | | | | |
| Person 11 | | | | | |
| Person 12 | | | | | |

*Os nad ydych yn byw mewn carafán, ewch ymlaen i B4.*

**B2 Os ydych yn byw mewn carafán, a oes digon o fannau cysgu i bob un preswylydd?**

**OES/ NAC OES**

**B3 A oes rhagor o le ar eu llain ar gyfer ôl-gerbydau ychwanegol i atal gorlenwi?**
*(Sylwch: mae'r canllaw yn awgrymu y dylai bwlch o 6 medr rhwng ôl-gerbydau a bwlch 3 medr i ffiniau i fod wedi'u lleoli'n ddiogel ar lain)*

**OES/ NAC OES**

**Os Oes, faint o fannau cysgu ychwanegol y gellir eu cynnwys?**

**B4 A oes unrhyw un yn eich teulu eisiau ymuno â'r rhestr aros Awdurdod Lleol ar gyfer lleiniau neu dai?**

**OES/ NAC OES**

**Rhowch gyfeiriad isod ar gyfer pecyn cais i'w bostio:**

*Nodwch os ydych ar y rhestr aros yn barod.*

**ADRAN C – EICH CYNLLUNIAU**

## C1 Ydych chi'n bwriadu symud i lety arall?

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | ***Ewch i C2*** | |
| Na | ***Ewch i D1*** | |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | ***Ewch i D1*** | |

## C2 Lle ydych chi'n bwriadu symud?

| | |
|---|---|
| O fewn yr Awdurdod Lleol | |
| Awdurdod Lleol arall yng Nghymru – nodwch pa un: | |
| Rhywle arall yn y DU | |

## C3 Pam ydych chi'n bwriadu symud?

| | |
|---|---|
| Angen mwy o le | |
| Angen cyfleusterau gwahanol | |
| Cyswllt lleol (teulu neu waith) | |
| Angen bod yn agosach i wasanaethau – ysgolion ayyb (Rhowch fanylion isod) | |
| Cyfleoedd Cyflogaeth | |
| Arall (Nodwch isod) | |

**Gwasanaethau:** **Arall:**

## C4 Pa fath o lety ydych chi'n bwriadu symud iddo?

| **1. Safle** | |
|---|---|
| Cyngor/ rhentu'n gymdeithasol | |
| Safle preifat yr ydych yn ei berchen | |
| Safle preifat sydd ym mherchnogaeth rhywun arall | |

| **2. Brics a Morter** | |
|---|---|
| Perchennog/ meddianwyr | |
| Rhent o'r Cyngor/ Cymdeithas Dai | |
| Rhentu gan landlord preifat | |

## C5 Ydych chi'n berchen tir yn yr Awdurdod Lleol yr hoffech gael ei ystyried fel safle posibl yn y dyfodol?

*(Sylwer: Y cyfwelydd i egluro nad oes sicrwydd y bydd y safle yn cael ei ddyrannu neu ei ddatblygu, ond gall swyddogion cynllunio gysylltu ag ymatebwyr i drafod eu sefyllfa a chynnig cymorth)*

| | |
|---|---|
| Ydw ***Rhowch fanylion isod*** | |
| Nac ydw ***Ewch i C6*** | |
| Mae'n well gen i beidio â dweud ***Ewch i C6*** | |

**Os hoffech i'r Awdurdod Lleol drafod y cynlluniau hyn gyda chi, rhowch eich manylion cyswllt isod:**

| | | BYDDWN | NA FYDDWN |
|---|---|---|---|
| **C6** | **Os ydych yn chwilio am lain awdurdodedig, a fyddech yn byw ar safle sydd yn cael ei reoli gan yr Awdurdod Lleol os byddech yn cael cynnig un?** | | |
| **C7** | **Petai llain awdurdodedig arall ar gael mewn Awdurdod Lleol arall, a fyddech yn ystyried symud yno?**<br><br>**Os 'byddech', pa Awdurdodau Lleol?** | | |

## ADRAN D – TWF TEULU

### D1 A oes unrhyw un yn eich aelwyd chi'n debygol o fod eisiau symud i'w cartref eu hunain yn y pum mlynedd nesaf?

| | | |
|---|---|---|
| Oes | ***Ewch i D2*** | |
| Nac oes | ***Ewch i D4*** | |
| Ddim yn gwybod | ***Ewch i D4*** | |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | ***Ewch i D4*** | |

### D2 A fydd hyn yn yr Awdurdod Lleol hwn?

| | | |
|---|---|---|
| Bydd | ***Ewch i D3*** | |
| Na fydd | ***Ewch i D4*** | |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | ***Ewch i D4*** | |

### D3 Faint o aelwydydd newydd fydd yno a phryd y bydd angen y rhain?

| | **Math o lety (safle Awdurdod Lleol; safle preifat; tai brics a morter)** | **Nifer o bobl** | **Yn awr** | **O fewn blwyddyn** | **1-2 mlynedd** | **2-5 mlynedd** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelwyd 1** | | | | | | |
| **Aelwyd 2** | | | | | | |
| **Aelwyd 3** | | | | | | |
| **Aelwyd 4** | | | | | | |

**D4 A oes gennych unrhyw aelodau o’r teulu sy'n byw y tu allan i'r ardal hon sydd yn gwersylla yn yr Awdurdod Lleol hwn yn rheolaidd?**

| | | |
|---|---|---|
| Oes | ***Ewch i D5*** | |
| Nac oes | ***Ewch i E1*** | |
| Ddim yn gwybod | ***Ewch i E1*** | |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | ***Ewch i E1*** | |

**D5 Os hoffent gael eu cyfweld ynghylch yr angen am leiniau, rhowch eu manylion cyswllt ac Awdurdod Lleol lle maent yn byw ynddo ar hyn o bryd isod:**

**ADRAN E – SAFLEOEDD TRAMWY**

**E1 Ydych chi wedi gwersylla ar ochr y ffordd/ ar wersyll diawdurdod/ ar safle tramwy yng Nghymru wrth deithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?**

*(Awgrym: mae'r wybodaeth hon ond am gael ei defnyddio i ddeall os oes angen rhagor o safleoedd tramwy)*

| | |
|---|---|
| Do ***Ewch i E2*** | |
| Naddo ***Ewch i E4*** | |
| Mae'n well gen i beidio â dweud***Ewch i E4*** | |

**E2 Ym mha ardaloedd Awdurdod Lleol ydych chi wedi gwersylla ynddynt?**

| | |
|---|---|
| | |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | |

**E3 Pa mor hir y byddech fel arfer yn aros mewn un lle wrth deithio?**

| 1 – 2 diwrnod | 3 diwrnod – 1 wythnos | 1 – 2 wythnos | 2 wythnos – 1 mis | 1 – 3 mis |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**E4 Ydych chi'n credu bod angen rhagor o safleoedd tramwy yng Nghymru?**

| | |
|---|---|
| Ydw ***Ewch i E5*** | |
| Nac ydw ***Holiadur yn gorffen*** | |

| | |
|---|---|
| Mae'n well gen i beidio â dweud ***Holiadur yn gorffen*** | |

## E5 Lle mae eu hangen?

*(Chwiliedydd i Awdurdodau Lleol a lleoliadau penodol)*

| | |
|---|---|
| | |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | |

***Holiadur yn gorffen***

## Rhestr o rhanddeiliaid a ymgynghorwyd â hwy yn ystod y GTAA

| | |
|---|---|
| Andy Roberts. | Cyngor Sir y Fflint |
| Mel Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| Andrew Lewis | Cyngor Sir y Fflint |
| Emma Hancock | Cyngor Sir y Fflint |
| Russell Price | Cyngor Sir y Fflint |
| Sara Davies | Cyngor Sir y Fflint |
| Mike Jenkins | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Angela Loftus | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gofal Yn Y Gymuned Wyddelig | Gofal yn y Gymuned Wyddelig |
| Gary Robertshaw | Heddlu Gogledd Cymru |
| Andrew Jamieson | Cyngor Gorllewin Caer a Chaer |
| Y Cynghorydd Bernie Attridge | Cyngor Sir y Fflint |

# Atodiad C: Rhestr o weithgaredd gwersyll diawdurdod

Man rhestr manwl o weithgaredd gwersyll diawdurdod ar draws Sir Y Fflint o fis Ionawr 2013 i fis Mawrth 2015 fel y cofnodir gan y Cyngor. Mae'r rhai cofnodion wedi'u codio â lliw gan eu bod yn berthnasol i grwpiau penodol o aelwydydd sy'n teithio. Mae cyfeirnod y lliwiau i'w gweld ar ddiwedd y tabl.

Rydym hefyd wedi cynnwys rhestr o weithgaredd gwersylloedd diawdurdod yn ystod cyfnod yr arolwg rhwng mis Hydref 2015 i fis Mawrth 2016. Cofnod y cyfweliad.

| Dyddiad | Lleoliad | Hyd (diwrnodau) | Manylion teulu/ aelwyd | Nifer y carafannau |
|---|---|---|---|---|
| 17.01.13 | Cei Connah | | | 5 |
| 21.01.13 | Shotton | | | 7 |
| 05.02.13 | Maes-Glas | | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 5 |
| 21.02.13 | Shotton | | Teithwyr Gwyddelig/ Albanaidd | 2 |
| 11.04.13 | Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy | | Sipsiwn Saesneg | 10 |
| 18.04.13 | Parc Busnes Caer | | Teithwyr Gwyddelig/ Albanaidd | 3** |
| 01.05.13 | Maes-Glas | | Teithwyr Gwyddelig | 1 |
| 23.05.13 | Maes-Glas | | Teithwyr Gwyddelig/ Albanaidd | 1** |
| 03.06.13 | Parc Busnes Maes Glas | | Teithwyr Gwyddelig | 1 |
| 26.06.13 | Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy | | Teithwyr Gwyddelig/ Albanaidd | 2** |
| 06.06.13 | Maes-Glas | | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 9* |
| 19.07.13 | Treffynnon | 24 awr | Teithwyr Gwyddelig | 2 |
| 02.08.13 | Yr Wyddgrug | | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 9* |
| 19.08.13 | Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy | | Teithwyr Gwyddelig | 1 |
| 02.14 | Treffynnon | 24 awr | | 2 |

| Dyddiad | Lleoliad | Hyd (diwrnodau) | Manylion teulu/ aelwyd | Nifer y carafannau |
|---|---|---|---|---|
| **05.03.14** | **Maes-Glas** | **24 awr** | | **2** |
| 09.03.14 | Yr Wyddgrug | Llai na 5 diwrnod | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 5* |
| 14.03.14 | Maes-Glas | Llai na 4 diwrnod | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 2* |
| 18.03.14 | Maes-Glas | 15 diwrnod | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 5* |
| 03.04.14 | Yr Wyddgrug | 6 diwrnod | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 4* |
| 10.04.14 | Maes-Glas | 14 diwrnod | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 4* |
| 22.04.14 | Maes-Glas | | Teithwyr Gwyddelig/ Albanaidd | 2** |
| 13.05.14 | Parc Diwydiannol Castell y Fflint | 5 diwrnod | Teithwyr Gwyddelig/ Albanaidd | 3** |
| 27.05.14 | Maes-Glas Gorllewin Sealand | | Teithwyr Gwyddelig/ Albanaidd | 2** |
| 20.06.14 | Parc Ddiwydiannol Bromfield (Preifat) | 24 awr | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 4* |
| **02.07.14** | **Treffynnon (Preifat)** | **24 awr** | **Teithwyr Gwyddelig** | **1** |
| **07.07.14** | **Cei Connah** | | **Teithwyr Gwyddelig** | **1** |
| 15.07.14 | Parc Busnes yr Wyddgrug | 21 diwrnod | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 15* |
| 21.07.15 | Maes-Glas | Llai nag wythnos | Teithwyr Gwyddelig/ Albanaidd | 2** |
| **21. 07.14** | **Treffynnon** | **Llai na wythnos** | | **1** |
| 05.08.14 | Maes-Glas | 7 diwrnod | Teithwyr Gwyddelig/ Albanaidd | 3** |
| 01.10.14 | Maes-Glas (Preifat) | 24 awr | Teithwyr Gwyddelig/ Albanaidd | 2** |
| **24.10.14** | **Riverside Sealand** | | | **2** |

| Dyddiad | Lleoliad | Hyd (diwrnodau) | Manylion teulu/ aelwyd | Nifer y carafannau |
|---|---|---|---|---|
| 02.11.14 | Garden City | 77 diwrnod | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 2*** |
| 02.12.14 | Maes-Glas (Preifat) | 36 diwrnod | Sipsiwn Gwyddelig/ Albanaidd | 2** |
| 18.01.15 | Garden City (Preifat) | 69 diwrnod | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 2*** |
| 23.02.15. | Garden City | 16 diwrnod | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 2*** |
| 04.03.15 | Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy | 11 diwrnod | Teithwyr Gwyddelig | 8**** |
| 11.03.15 | Garden City (Preifat) | 5 diwrnod | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 2*** |
| 16.03.15 | Ystâd Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy (Preifat) | 1 diwrnod | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 2*** |
| 16.03.15 | Parc Ddiwydiannol Manor Road, Penarlâg (Preifat) | 1 diwrnod | Teithwyr Gwyddelig | 12**** |
| 17.03.15 | Pentre (Preifat) | 2 ddiwrnod | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 2*** |
| 19.03.15 | Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy | 11 diwrnod | Teithwyr Gwyddelig | 14**** |
| 25.03.15 | Parc Busnes Expressway, Queensferry | 57 diwrnod | Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg | 2*** |
| 27.03.15 | Treffynnon (Preifat) | 24 awr | Teithwyr Gwyddelig/ Albanaidd | 2* |
| 29.03.15 | Clwb Golff y Fflint (preifat) | 24 awr | Teithwyr Gwyddelig/ Albanaidd | 2* |
| 29.03.15 | Airfields Sealand (Preifat) | 2 diwrnod | Teithwyr Gwyddelig | 15 (posibilrwydd grŵp ****) |

**Allwedd**

*Sipsiwn Cymraeg/ Saesneg - wedi dod o hyd i lety parhaol ar safle mewn awdurdod lleol arall. Nid yw'r Cyngor wedi gweld y grŵp hwn ers dros 12 mis.

**Teithwyr Gwyddelig/ Albanaidd wedi symud i'r ardal hon - rhai aelodau teulu sydd â llety parhaol yn Swydd Gaer;

***Mae llety wedi ei ganfod ar gyfer y grŵp hwn ar safle'r Cyngor.

****Credir bod y grŵp hwn yr un grŵp sydd wedi symud o Harlow yn Essex ac wedi cael eu cyflwyno â gwaharddeb sy'n eu hatal rhag sefydlu safleoedd yn Harlow.

**Gwersylloedd Diawdurdod yn Sir y Fflint ar gyfer cyfnod GTAA o fis Hydref 2015 – Mawrth 2016**

| Dyddiad | Lleoliad | Hyd (diwrnodau) | Nifer y carafannau |
|---|---|---|---|
| 18.10.15 | Maes-Glas (tir preifat) | Ddim yn Gwybod | Ddim yn Gwybod |
| 7.11.15 | Cei Connah | 5 diwrnod | 12 |
| 12.11.15 | Doc Maes Glas | 5 diwrnod | 2 |
| 17.11.15 | Shotton | 2 diwrnod | 2 |
| 19.11.15 | Y Fflint | 5 diwrnod | 2 |
| 25.11.15 | Cei Connah | 2 ddiwrnod | 13 |
| 6.1.16 | Maes-Glas | 10 diwrnod | 1 |
| 18.2.16 | Cei Connah | | 20 |
| 10.3.16 | Maes-Glas | 1 diwrnod | 2 |
| 14.3.16 | Saltney (tir preifat) | 8 diwrnod | 8 |
| 18.3.16 | Maes-Glas | 24 diwrnod | 8 |
| 30.3.16 | Queensferry (tir preifat) | 6 diwrnod | 3 |
| 31.3.16 | Saltney (tir preifat) | | 3 |